



Llywodraeth Cynulliad Cymru  
Welsh Assembly Government

# **Gwerthuso Cymorth i Fenywod Cymru**

*Adroddiad Terfynol*

# Gwerthuso Cymorth i Fenywod Cymru

Cyf LICC: 141/2007-8

Cyf CRG: T07303

Cyflwynwyd i:

Sian Jones  
Uned Ymchwil a Gwybodaeth  
Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a  
Llywodraeth Leol  
Lywodraeth Cynulliad Cymru  
Swyddfa Merthyr Tydfil  
Rhydycar  
Merthyr Tudful  
CF48 1UZ

18 Awst 2008

Cyflwynwyd gan:

Faye Joshua  
CRG Research Cyfyngedig  
faye@crgresearch.co.uk

Andrew Rix  
CRG Research Cyfyngedig  
andrew@crgresearch.co.uk

Amanda Robinson  
Prifysgol Caerdydd  
RobinsonA@cf.ac.uk

# Tabl Cynnwys

Tablau a Ffigurau

Cydnabyddiaeth

Termau a Thalfyriadau

Egluro geiriau ac ymadroddion

<b>1. Cyflwyniad</b> .....	1
<b>2. Cyd-destun</b> .....	5
<b>3. Perthynas Cymorth i Fenywod Cymru â'r grwpiau lleol sy'n aelodau ohono</b> .....	19
<b>4. Y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru</b> .....	35
<b>5. Trefn lywodraethu</b> .....	42
<b>6. Trefniadau Rheoli</b> .....	56
<b>7. Gwerth ychwanegol a ddarperir yn genedlaethol gan Gymorth i Fenywod Cymru</b> .....	66
<b>8. Gwerth am Arian</b> .....	81
<b>9. Casgliadau ac Argymhellion</b> .....	85

# Tablau a Ffigurau

---

## Tablau

Tabl 1: Costau cyfunol a defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer SPG a SPRG (2005-06) .....	6
Tabl 2: Effeithiau ar fenywod sy'n ceisio noddfa rhag trais yn y cartref .....	7
Tabl 3: Tri chylch diddordeb LICC yn y trydydd sector .....	35
Tabl 4: Cyllid LICC 2007/08 a 2008/09 .....	36

## Ffigurau

Ffigur 1: Map o grwpiau lleol sy'n aelod o Gymorth i Fenywod .....	14
Ffigur 2: gwasanaethau cefnogi aelodau o Gymorth i Fenywod Cymru .....	24
Ffigur 3: Cyngor Cymorth i Fenywod Cymru i grwpiau lleol .....	25
Ffigur 4: Gwybodaeth ac adnoddau gwefan .....	26
Ffigur 5: Darpariaeth hyfforddiant Cymorth i Fenywod Cymru .....	28
Ffigur 6: Ffrydiau cyllido .....	37
Ffigur 7: Cyfansoddiad y Bwrdd Gweithredol .....	44
Ffigur 8: Strwythur Rheoli Cymorth i Fenywod Cymru 2003/04 .....	57
Ffigur 9: Strwythur Rheoli Cymorth i Fenywod Cymru 2008 .....	58
Ffigur 10: Cyfraniadau at ddatblygu polisïau .....	68
Ffigur 11: Hysbysu a herio ynglŷn â materion tai .....	70
Ffigur 12: Hysbysu a herio ynglŷn â'r drefn cyfiawnder troseddol .....	71
Ffigur 13: Hysbysu a herio ynglŷn â materion hawliau plant .....	71
Ffigur 14: Cymorth i Fenywod Cymru yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd .....	74

# CYDNABYDDIAETH

Dymuna CRG Research Ltd a Phrifysgol Caerdydd ddiolch i weithwyr Cymorth i Fenywod Cymru am eu hamser a'u cefnogaeth yn ystod y gwerthusiad hwn.

Yr ydym hefyd yn ddiolchgar i'r wyth grŵp lleol a gymerodd ran yn elfen astudiaeth achos yr ymchwil hwn, ac i'r llawer iawn o randdeiliaid a gymerodd ran mewn rhaglen eang o gyfweiliadau â rhanddeiliaid yn genedlaethol ac yn lleol.

Diolchir yn ddiffuant hefyd i'r Grŵp Llywio a gefnogodd y gwaith hwn, yn cynnwys Sian Jones (SJLG, Ymchwil a Gwybodaeth), Janet Thompson (SJLG, CSD), Peter Jones (SJLG, CSD), Gareth Edwards (DoFM, EcAD), Paul Webb (ESH, Tai) yn Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Roedd y tîm ymchwil yn cynnwys:

Faye Joshua

Andrew Rix

Paula Shinton

Tom Holt

Mark Beynon

Dr Amanda Robinson

# Termau a Thalfyriadau

---

ALI	Awdurdod Lleol
ASP	Darparwr Cefnogaeth Achrededig
BAWSO	Black Association of Women Step Out
BILI	Bwrdd Iechyd Lleol
CHC	Cartrefi Cymunedol Cymru
CLG	Cytundeb Lefel Gwasanaeth
DPP	Datblygiad Proffesiynol Parhaus
CSD	Adran Diogelwch Cymunedol
DCLG	Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol
EcAD	Adran Cyngor Economaidd
GIG	Gwasanaeth Iechyd Gwladol
AD	Adnoddau Dynol
IDVA	Ymgynghorydd Annibynnol Trais yn y Cartref
LCC	Landlordiaid Cymdeithasol Cofrestredig
LSP	Partneriaeth Strategol Leol
LICC	Llywodraeth Cynulliad Cymru
MARAC	Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth
RCT	Rhondda Cynon Taf
RCW	Gweithiwr Plant Rhanbarthol
SJLG	Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol
SPRG	Grant Refeniw Cefnogi Pobl
SPG	Grant Cefnogi Pobl
WA	Cymorth i Fenywod
WAFE	Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr
WCVA	Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru
WLGA	Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru
WSU	Uned Diogelwch Menywod
WWA	Cymorth i Fenywod Cymru

# Egluro geiriau ac ymadroddion

---

Ansoddol yn bennaf yw natur y gwerthusiad (ar sail cyfweiliadau o fewn fframwaith y canllawiau ar gyfer y pynciau), ond gwnaed rhywfaint o asesiadau meintiol, ac mae'r adroddiad hwn yn cadw at yr egwyddorion canlynol:

bron y cyfan	gydag ychydig iawn o eithriadau
rhan fwyaf	80% neu fwy
llawer	70% neu fwy
mwyafrif	dros 60%
hanner/tua hanner	oddeutu 50%
lleiafrif	llai na 40%
ychydig	llai na 20%
ychydig iawn	llai na 10%

Yr ydym hefyd wedi ceisio dangos i ba grŵp y mae'r cyfrannau'n gymwys - er enghraifft, grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, cynrychiolwyr awdurdodau lleol ac yn y blaen.

# 1. Cyflwyniad

---

Comisiynwyd CRG Research Cyf mewn partneriaeth â Dr Amanda Robinson o Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Caerdydd, Prifysgol Caerdydd, gan Lywodraeth Cynulliad Cymru (LICC) *'Werthuso Cymorth i Fenywod Cymru'* er mwyn *"asesu effeithiolrwydd y sefydliad o ran cynorthwyo Llywodraeth y Cynulliad i gyflawni amcanion ei strategaeth cam-drin domestig"* (Manyleb yr Ymchwil, tud. 1). Mae'r adroddiad yn ystyried effeithiolrwydd Cymorth i Fenywod Cymru a'r gwerth am arian y mae'n ei ddarparu, ynghyd â phriodoldeb strwythurau, proses, arferion ac amcanion y sefydliad.

Prif amcan *'Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Strategaeth Cymru Gyfan'* LICC yw darparu'r 'asgwrn cefn' strwythurol a fydd yn arweiniad i'r ymyrraeth ynglŷn â cham-drin domestig trwy Gymru. Mae'n anelu at hwyluso datblygu a gweithredu agwedd 'gydgysylltiedig' at ddatrys problemau sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig yn holistig. Yn benodol, dyma amcanion cyffredinol y strategaeth:

- *"Hwyluso datblygu a gweithredu cyd-ymateb aml-asiantaeth safonol;*
- *Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol ar gyfer pob dioddefwr, a chynyddu'n benodol y dewisiadau diogel ar gyfer menywod a phlant/pobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig;*
- *Gwneud y rhai sy'n cam-drin yn gyfrifol am eu hymddygiad;*
- *Cynyddu'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion ynghylch cam-drin domestig;*
- *Herio'r syniad bod cam-drin domestig yn dderbyniol;*
- *Gwarchod plant a phobl ifanc yng Nghymru rhag effaith negyddol cam-drin domestig;*
- *Addysgu a goleuo plant/pobl ifanc er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau gwybodus."* (LICC, 2005 tud.1)

Cymorth i Fenywod yw'r sefydliad ymbarél cenedlaethol sy'n cynrychioli grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Mae'r 34 grŵp lleol sy'n aelodau yn cynnig cefnogaeth uniongyrchol menyw-ganolog, o fewn y gymuned ac mewn llochesau, i fenywod a phlant sydd wedi profi cam-drin domestig.

Er mwyn cynorthwyo gyda darparu'r Strategaeth Genedlaethol, yn fuan wedi i'r cyhoeddiad ymddangos cyhoeddodd y Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol ac Adfywiad<sup>1</sup> y bydd Llywodraeth y Cynulliad yn cynnal gwerthusiad o'r mentrau ariannwyd gan LICC sy'n ymwneud â cham-drin domestig. Pwrpas y gwerthusiad yw

---

<sup>1</sup> Ers hynny, ail-drefnwyd Cynulliad Cenedlaethol Cymru, a gelwir yr Adran hon bellach yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol (SJLG)



sicrhau bod y prosiectau sy'n ymwneud â cham-drin domestig yn rhoi gwerth am arian ac yn llwyddo yn ôl yr amcanion a amlinellwyd yn y strategaeth (a amlinellwyd uchod). Bydd y gwerthusiad hwn o Gymorth i Fenywod Cymru yn gyfraniad at y corff hwnnw o waith<sup>2</sup>.

Mae'r gwerthusiad hwn yn trafod:

- i. *"Y berthynas rhwng Llywodraeth y Cynulliad a Chymorth i Fenywod Cymru o ran cyfathrebu cyffredinol, trefniadau cyllido ac adrodd, a datblygu polisi;*
- ii. *Y gwerth ychwanegol a ddarperir gan Gymorth i Fenywod Cymru ar lefel genedlaethol o ran: effaith a delwedd gyda'r cyhoedd; cyflawni un o amcanion allweddol Strategaeth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan; proffil gyda phartneriaid allweddol; ansawdd a maint y cyfraniad at bartneriaethau; ansawdd a maint y cyfraniad at ddatblygu polisiâu; cynrychioli'r sector a grwpiau unigol;*
- iii. *Y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a'r grwpiau lleol sy'n aelodau ohono o ran: effaith Cymorth i Fenywod Cymru ar berfformiad y grwpiau lleol; monitro perfformiad a rheolaeth; a sicrhau ansawdd a chysondeb mewn ymarfer; cyd-ddealltwriaeth o rolau a realaeth; cyfathrebu cyffredinol; lefel a defnyddioldeb cyfraniad grwpiau at wneud penderfyniadau a'r ffactorau sy'n effeithio ar hynny; arweinyddiaeth a dylanwad; cefnogaeth, hyfforddiant a chyfarwyddyd;*
- iv. *Addasrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau Cymorth i Fenywod Cymru ar gyfer trefn lywodraeth (yn cynnwys gwaith y Bwrdd Gweithredol), cynllunio strategol, gwneud penderfyniadau, a rheolaeth pob dydd;*
- v. *Defnydd Cymorth i Fenywod Cymru o adnoddau, a'u rheolaeth ariannol a'u stiwardiaeth o gyllid cyhoeddus; ac adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol;*
- vi. *Lefelau ac ymrwymadau ariannu, a chynaliadwyedd a gallu tymor hir y sefydliad, gan ystyried goblygiadau ymarfer presennol gwerthuso swyddi Cymorth i Fenywod Cymru;*
- vii. *I ba raddau y mae gwasanaethau a chyfraniad y sefydliad yn cynrychioli gwerth am arian ac yn cael eu darparu'n effeithiol."* (Manyleb yr Ymchwil tud.3-4)

---

<sup>2</sup> Fel rhan o'r rhaglen werthuso hon, cwblhawyd Gwerthusiad Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn Ionawr 2006 a Gwerthuso Llwybr Cam-drin Domestig Cyn-geni yn Hydref 2007. Mae'r Gweinidog hefyd yn ystyried comisiynu'r prosiectau canlynol yn allanol: Gwerthuso tri phrosiect 'siop pob dim' cam-drin domestig (Caerffili Saffach, Merthyr Tydfil Saffach a Gwasanaeth Cam-drin Domestig Blaenau Gwent); Gwerthuso'r Canolfan Cyfeirio Rhywiol New Pathways; a, Gwerthuso Black Association of Women Step Out.

Roedd dwy ran amlwg i'r ymchwil:

- Rhan 1: Dogfennu nodau, amcanion, rheolaeth weithredol, strwythur, arferion a phrosesau presennol y sefydliad, ac asesu i ba raddau y maent yn briodol o ran eu canlyniadau disgwylidig (Manyleb yr Ymchwil tud.4).
- Rhan 2: Asesu gwir effeithiolrwydd y rheolaeth, strwythur, arferion a'r prosesau presennol ac effaith newidiadau trefniadol diweddar ar y sefydliad a'i waith, yn arbennig wrth fynd i'r afael â'r diffygion a nodwyd yng gwerthusiad 2001 (Manyleb yr Ymchwil tud.5).

Dros gyfnod o 6 mis roedd ein rhaglen waith yn cynnwys:

- Archwiliad trylwyr o'r dystiolaeth ddogfennol yn cynnwys adroddiadau mewnol ac allanol, cyhoeddiadau, gwybodaeth fonitro (lle bo i'w chael) ac adolygiad o lenyddiaeth;
- Cyfweliadau manwl gyda'r hysbyswyr allweddol:
  - gweithwyr Cymorth i Fenywod Cymru (n=15);
  - ymddiriedolwyr<sup>3</sup> ac aelodau allanol bwrdd Cymorth i Fenywod Cymru (n=10);
  - swyddogion Cymorth i Fenywod Cymru (n=4);
  - sampl o randdeiliaid cenedlaethol (n=10) ;
  - cynrychiolwyr awdurdodau lleol (n=6).
- Arolwg ar wefan i alluogi rhanddeiliaid i gyflwyno'n llawnach eu syniadau ar gyfer y gwerthuso a'u sylwadau am strwythur, prosesau, arferion ac amcanion Cymorth i Fenywod Cymru (n=105, yn cynnwys cynrychiolaeth o leiafswm o 15 grŵp lleol<sup>4</sup>, gyda 29 o ymatebion oddi wrth weithwyr unigol);
- Astudiaethau achos wedi eu seilio mewn 8 grŵp lleol i ehangu a datblygu'r pwyntiau allweddol a ddeilliodd o rannau blaenorol y rhaglen ymchwil. Roedd astudiaethau achos yn golygu ymweliadau â swyddfeydd lleol Cymorth i Fenywod a rhai llochesau a phrosiectau allgymorth, cyfweliadau â gweithwyr lleol Cymorth i Fenywod a'u partneriaid (lle nodwyd cysylltiadau priodol), (n=31);
- Dadansoddi ac adrodd meintiol ac ansoddol.

Mae'r adroddiad hwn yn trafod:

- Cyd-destun y gwerthuso hwn, yn cynnwys y cyd-destun gwleidyddol a'r newidiadau cyfatebol i'r modd y caiff cam-drin domestig ei drafod (Pennod 2);
- Perthynas Cymorth i Fenywod Cymru â grwpiau lleol Cymorth i Fenywod (Pennod 3);

---

<sup>3</sup> Cyfeirir atynt fel cynrychiolwyr o fewn y mudiad

<sup>4</sup> Dywedodd 7 o'r ymatebwyr y byddai'n well ganddynt beidio dweud i ba grŵp y gweithient.

- Perthynas Cymorth i Fenywod Cymru â Llywodraeth Cynulliad Cymru (Pennod 4);
- Trefn Lywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru (Pennod 5);
- Trefniadau Rheoli o fewn Cymorth i Fenywod Cymru (Pennod 6);
- Gwerth ychwanegol ar lefel genedlaethol a ddarperir gan Gymorth i Fenywod Cymru (Pennod 7);
- Gwerth am Arian (Pennod 8);
- Casgliadau ac argymhellion (a geir ym Mhennod 9).

## 2. Cyd-destun

---

Mae'r Bennod yn cychwyn trwy ddiffinio cam-drin domestig a thrafod pa mor gyffredin ydyw. Mae'n disgrifio sut y symudodd cam-drin domestig o'r ymylon i ganol y byd gwleidyddol, ac yna'n disgrifio'r ffyrdd gwahanol y mae'r ymateb i faterion cam-drin domestig wedi datblygu yn ymarferol. Yr ydym hefyd yn amlinellu rôl Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, ac yn gwneud sylwadau am werthusiad blaenorol o Gymorth i Fenywod Cymru.

### Ynglŷn â Cham-drin Domestig

Mae trais yn y cartref yn cael ei gydnabod yn broblem ddifrifol trwy Brydain. Mae ymchwil yn dangos bod trais yn y cartref yn gyfrifol am rhwng 16% a chwarter yr holl droseddau treisgar a gofnodir, (Dobash a Dobash, 1980. Todd, 2004. Uned Troseddau Treisgar Y Swyddfa Gartref, 2004) a bod un digwyddiad yn cael ei gofnodi bob munud (Stanko, 2000). Mae data'r Swyddfa Gartref yn dangos y gallai 45% o fenywod a 26% o ddynion gofio dioddef trais yn y cartref (camdriniaeth, bygythiadau neu rym), erledigaeth rywiol neu lechddilyn o leiaf unwaith yn eu hoes (Walby ac Allen, 2004). Er nad menywod yn unig sydd yn dioddef trais yn y cartref, mae menywod yn llawer mwy tebygol na dynion o ddiodeff camdriniaeth ar fwy nag un achlysur: roedd 32% y menywod a ddiodeffodd drais yn y cartref wedi gwneud hynny bedair neu bum gwaith (neu fwy), o'i gymharu â 11% y dynion a ddiodeffodd drais yn y cartref; a menywod yw 89% y bobl a ddiodeffodd drais yn y cartref bedair gwaith neu fwy (Walby ac Allen, 2004).

Mae'r Swyddfa Gartref yn casglu data bob blwyddyn ac yn cyhoeddi nifer o fwletinâu ystadegol am Drosedd yng Nghymru a Lloegr<sup>5</sup>. Ers 1995, mae'r adroddiadau hyn wedi cynnwys ystadegau am gam-drin domestig, ac yn fwy diweddar cafwyd bwletin penodol am drais agos (trais yn y cartref, ymosodiad rhywiol a llechddilyn). O'r holl ranbarthau ym Mwletin Ystadegol diweddar y Swyddfa Gartref (2005/06 tud.75) sy'n delio â thrais agos, gan Gymru y mae'r ganran uchaf o fenywod yn diodeff trais gan eu partner, sef 7.1% (gyda rhanbarthau eraill 1% yn llai) a'r ganran uchaf o drais domestig, sef 4.8%.

### Cost Ariannol ac Arbedion

Mae camdriniaeth y cartref a thrais yn erbyn menywod yn eithriadol o gostus, i fywyd menywod unigol ac i gymdeithas yn gyffredinol. Mae effaith y trais yn amrywio o

---

<sup>5</sup> Mae'r adroddiadau hyn yn dadansoddi ystadegau ynglŷn â cham-drin domestig o fewn pob awdurdod heddlu, ac yn ddangosydd defnyddiol.

anafiadau corfforol i ganlyniadau seicolegol, materion iechyd meddwl tymor hir, cyfyngu ar gyfleoedd cymdeithasol-economaidd ac allgau cymdeithasol ehangach.

Mae cost ariannol cam-drin domestig yn uchel, ond maent wedi eu cuddio i ryw raddau o fewn y sector gwasanaeth – gwirfoddol a statudol, iechyd a lles, ac nid yn unig o fewn y gwasanaethau cyfiawnder troseddol.

**Tabl 1: Costau cyfunol a defnyddwyr gwasanaeth ar gyfer SPG a SPRG<sup>6</sup> (2005-06)**

<b>Grŵp cleient</b>	<b>Cyfanswm costau</b>	<b>Cyfanswm defnyddwyr gwasanaeth</b>	<b>Gwariant fesul defnyddiwr gwasanaeth</b>
Menywod yn ceisio lloches rhag trais yn y cartref	£8,240,764	2885	£2,856

[Ffynhonnell: LICC, 2006b]

Amcangyfrifir bod pob lladdiad sy'n dilyn cam-drin domestig yn costio oddeutu £1.1 miliwn (Brand a Price, 2000). Amcangyfrifir mai cost trais yn y cartref i'r system cyfiawnder troseddol, gofal iechyd, gwasanaethau cymdeithasol, tai argyfwng a gwasanaethau cyfreithiol sifil yw £3.1 biliwn y flwyddyn (Walby, 2004).

Amcangyfrifir bod cost ddynol ac emosiynol cam-drin domestig yng Nghymru a Lloegr yn unig yn £23 biliwn y flwyddyn (Walby 2004). Gellir gwneud arbedion economaidd sylweddol trwy leihau nifer yr achosion o gam-drin domestig, fel y dangoswyd gan Adroddiad ar Gost a Manteision y Rhaglen Cefnogi Pobl (LICC, 2006b). Dangosodd yr adroddiad fanteision meintiol ac ansoddol mawr y gwasanaethau a ddarperir gan lochesau trwy Gymru (yn cynnwys grwpiau lleol Cymorth i Fenywod).

<sup>6</sup> Dwy ffrwd cyllidol ar gyfer gwasanaethau camdriniaeth yn cartref yng Nghymru yw SPG a SPRG (gweler Ffigur 6 am ragor o wybodaeth)

Tabl 2: Effeithiau ar fenywod sy'n ceisio noddfa rhag trais yn y cartref

Maes Effaith	Effaith	Modd	Cymedr	Uchafswm
<b>Iechyd Corfforol</b>	Llai o ymweliadau ag D ac AB oherwydd llai o ddiodeff trais	80%	80%	80%
	Llai o ymweliadau â meddygon teulu oherwydd trais ar gyfer pob menyw/plentyn o ganlyniad i Gefnogi Pobl	80%	80%	80%
	Llai o ymweliadau â Meddygon Teulu (iechyd cyffredinol) o ganlyniad i Gefnogi Pobl	10%	17%	30%
	Effaith Cefnogi Pobl ar ymweliadau menywod/plant fel cleifion allanol	5%	18%	30%
<b>Iechyd Meddwl</b>	Llai o gysylltiad ag iechyd meddwl cymunedol ar gyfer y rhai sy'n diodeff trais yn y cartref	5%	18%	30%
	Llai o fenywod/plant yn cael eu derbyn am driniaeth ddifrifol iechyd meddwl	25%	25%	25%
<b>Trosedd</b>	Lleihau'r risg o gamdriniaeth rywiol wedi i'r diodeffwr fanteisio ar lety a chefnogaeth gan Gefnogi Pobl	80%	80%	80%
	Lleihau'r risg o lofruddiaeth wedi manteisio ar lety a chefnogaeth gan Gefnogi Pobl, o gofio bod y trais yn parhau mewn 19% o'r achosion	80%	80%	80%
<b>Digartrefedd</b>	Canran y bobl a arbedwyd rhag bod yn ddigartref trwy dderbyn cymorth Cefnogi Pobl	50%	50%	50%
	Effaith Cefnogi Pobl ar leihau'r tebygolrwydd o fethu tenantiaeth	50%	50%	50%

[Ffynhonnell: LICC, 2006b]

Canfu LICC mai cost menywod yn ceisio lloches rhag cam-drin domestig yw £8,240,763, ond bod hynny'n fudd net o £47,946,346 i gyllideb Cefnogi Pobl (LICC, 2006b).

## Ymatebion y DU i gam-drin domestig

Ers 1997, cyflwynwyd ystod o bolisiau sydd wedi pwysleisio'r angen i leihau trais yn y cartref a gwella'r gefnogaeth ar gyfer dioddefwyr a'u plant. Ar 9 Hydref 2007 cyhoeddodd y Llywodraeth gyfres newydd o Gytundebau Gwasanaeth Cyhoeddus (PSA) oedd yn egluro'r canlyniadau blaenoriaeth allweddol y mae'r Llywodraeth am eu sicrhau dros y cofnod gwariant nesaf (2008-2001). Blaenoriaeth Gweithredu 1 y 'PSA 23: Gwneud Cymunedau'n Fwy Diogel' yw "*Lleihau'r trais mwyaf difrifol, yn cynnwys mynd i'r afael â throseddau rhywiol difrifol a thrais yn y cartref*".

Er gwaetha'r angen cydnabyddedig am agwedd aml-asiantaeth at gam-drin domestig, arhosodd y prif sylw'n bennaf ar asiantaethau cyfiawnder troseddol a'u perfformiad. Felly, mae'r datblygiadau diweddaraf wedi golygu gwella ymateb cyfiawnder troseddol i drais yn y cartref. Dim ond yn ddiweddar iawn y cafwyd craffu ar ymateb asiantaethau heblaw cyfiawnder troseddol (e.e. iechyd, addysg, gwasanaethau cymdeithasol, y sector gwirfoddol) i ddioddefwyr trais yn y cartref, er mwyn sefydlu dulliau o wella. Mae gwerthusiad Cymorth i Fenywod Cymru, a'i gyfraniad at y dull aml-asiantaeth o ddelio â cham-drin domestig yng Nghymru, yn esiampl o hynny. O flaen popeth arall, y mae cam-drin domestig yn drosedd. Er nad yw cyfiawnder troseddol yn fater a ddatganolwyd i LICC, datganodd y Cynulliad yn glir ei ymrwymiad i gefnogi partneriaethau lleol er mwyn creu amgylchedd diogel yn rhydd o drosedd ac anhrefn. Un enghraifft o hynny yw *Llwybr Cam-drin Domestig Cymru Gyfan*.

Mae gan gynllun cenedlaethol trais yn y cartref Y Swyddfa Gartref,<sup>7</sup> a gyhoeddwyd gan y Farwnes Scotland ar 29 Mawrth 2006, strwythur triphlyg sy'n golygu bod 'siopau-un-stop' ar gyfer dioddefwyr, llysoedd arbenigol ac ymateb aml-asiantaeth ar gyfer dioddefwyr risg uchel iawn (a elwir MARAC) yn dod ynghyd i gynorthwyo dioddefwyr, i wneud y troseddwyd yn atebol ac i dargedu adnoddau ar gyfer y teuluoedd mwyaf bregus. Mae'r holl fentrau hyn angen cydlyniant a chydweithrediad asiantaethau'r sectorau cyfiawnder troseddol, statudol a gwirfoddol. Ystyrir y gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr gan y sector gwirfoddol yn gwbl hanfodol i lwyddiant y mentrau amlwg hyn.

Rhaid gwneud ymchwil i'r gwasanaethau a'r gefnogaeth a roddir i ddioddefwyr cam-drin domestig gan y sector gwirfoddol, er mwyn dogfennu arfer gorau ac er mwyn cynorthwyo i fonitro a chynhyrchu canlyniadau da ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a'u plant. Bydd gan yr ymchwil hwn felly oblygiadau pwysig, o ran polisi ac arfer, ar gyfer sefydliadau'r sector gwirfoddol sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig sy'n byw yng Nghymru, partneriaethau aml-asiantaeth sy'n ceisio lleihau cam-drin domestig yn eu cymunedau, a dioddefwyr a'u plant.

---

<sup>7</sup> I'w gael yn <http://www.crimereduction.gov.uk/domesticviolence/domesticviolence51.pdf>

## Ymateb Cynulliad Cymru i Drais yn y Cartref

Cyhoeddodd LICC ei strategaeth ar drais yn y cartref, *'Mynd i'r Afael â Cham-drin Domestig: Strategaeth Cymru Gyfan, Ymateb Asiantaethau ar y Cyd'*, ym mis Mawrth 2005 (LICC, 2005). Nododd y strategaeth nifer o faterion ynglŷn â'r ymateb i drais yn y cartref yng Nghymru. Dyma'r materion:

- Nid oedd unrhyw strategaeth gyffredinol ar gyfer Cymru; ychydig iawn o gydweithio a wnâi'r asiantaethau, ac nid oedd digon o rannu gwybodaeth rhyngddynt;
- Heb rannu gwybodaeth yn ddiogel, ni ellid diwallu'n ddigonol anghenion dioddefwyr cam-drin domestig, ac ni fyddai'r rhai sy'n cyflawni'r troseddau'n cael eu gwneud yn atebol. Ni allai asiantaethau ddysgu gwersi o'r pocedi o arfer da sydd i'w cael yng Nghymru: heb wybod pa wasanaethau oedd ar gael, ni allai asiantaethau ailadrodd na throsglwyddo polisïau;
- Nid oedd gan lawer o asiantaethau bolisi cam-drin domestig ac nid oeddent yn gwneud cofnod o'u gwaith ar gam-drin domestig, gan eu bod o'r farn mai rhan fechan o'u holl waith ydoedd.
- Nid oedd posibl gwybod faint o amser yr oedd asiantaethau yn ei roi mewn gwirionedd i ddelio â materion cam-drin domestig. Canlyniad pellach oedd y gallai'r asiantaethau nad ystyrient gam-drin domestig yn fater perthnasol barhau oddi allan i unrhyw strategaeth integredig;
- Nid oedd materion yn ymwneud â chefn gwlad, iaith a diwylliant yng Nghymru yn cael sylw digonol. (LICC, 2005 tud.12)

Er mwyn mynd i'r afael â'r gwendidau canfyddedig hyn, y prif nod a osodwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y strategaeth oedd:

*"darparu'r 'asgwrn cefn' strwythurol angenrheidiol a fydd yn arweiniad i'r ymyrraeth ynglŷn â cham-drin domestig trwy Gymru... i hwyluso datblygu a gweithredu agwedd 'gysylltiedig' at ddatrys problemau sy'n mynd i'r afael â cham-drin domestig yn holistig - gan roi diogelwch i unigolion sy'n dioddef cam-drin domestig ac ar yr un pryd wynebu achosion cam-drin domestig". (LICC, 2005 tud 3)*

Mae LICC wedi dynodi cydraddoldeb fel un o egwyddorion canolog y strategaeth, ond mae hefyd yn pwysleisio pwysigrwydd yr elfennau canlynol:

- Amddiffyn a chefnogi dioddefwyr;
- Gwneud y rhai sy'n cyflawni'r troseddau'n atebol;



- Atal.

Ar sail yr egwyddorion uchod, gosodwyd yr amcanion canlynol ar gyfer y strategaeth:

- *"Hwyluso datblygu a gweithredu cyd-ymateb aml-asiantaeth safonol;*
- *Gwella'r ddarpariaeth gwasanaeth bresennol ar gyfer pob dioddefwr, a chynyddu'n benodol y dewisiadau diogel ar gyfer menywod a phlant/pobl ifanc sy'n profi cam-drin domestig;*
- *Gwneud y rhai sy'n cam-drin yn gyfrifol am eu hymddygiad;*
- *Cynyddu'r ymwybyddiaeth gyhoeddus o'r materion ynghylch cam-drin domestig;*
- *Herio'r syniad bod cam-drin domestig yn dderbyniol;*
- *Gwarchod plant a phobl ifanc yng Nghymru rhag effaith negyddol cam-drin domestig;*
- *Addysgu a hysbysu plant/pobl ifanc er mwyn eu galluogi i wneud dewisiadau doeth."* (LICC, 2005) .

Sefydlwyd sawl menter o ganlyniad i'r strategaeth:

### ***Gweithgor Cymru Gyfan***

Cyfrifoldeb Gweithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan, sy'n cynnwys cynrychiolwyr o sefydliadau perthnasol sy'n rhanddeiliaid ac adrannau'r Cynulliad, yw sicrhau gweithredu ar y cyd trwy Gymru. Mae'r gweithgor yn monitro a gwerthuso cynnydd y strategaeth cam-drin domestig, ac yn hybu arfer da a chynghori Llywodraeth Cynulliad Cymru.

### ***Rhwydwaith Cydlynwyr Cam-drin Domestig Cymru Gyfan***

Mae Deddf Trosedd ac Anhrefn 1998 yn mynnu bod awdurdodau lleol a'r heddlu yn ffurfio partneriaethau trosedd ac anhrefn er mwyn hybu gweithio mewn partneriaeth ar y cyd er mwyn lleihau lefel troseddau. Gelwir y partneriaethau hyn yng Nghymru yn Bartneriaethau Diogelwch Cymunedol (CSP). Fel rhan o'r strategaeth cam-drin domestig Cymru Gyfan, mae LICC wedi ariannu Cydlynnydd Cam-drin Domestig ym mhob CSP er mwyn sicrhau bod cam-drin domestig yn cael blaenoriaeth ac yn rhan o gynllun diogelwch cymunedol pob awdurdod lleol.

### ***Llwybr Cymru Gyfan***

Datblygwyd Llwybr Gofal a Phecyn Hyfforddiant Ymchwiliad Rheolaidd Cyn Geni i Gam-drin Domestig Cymru, ar gyfer gweithwyr ieuchyd proffesiynol, gan Grŵp Bydwreigiaeth ac Ymwelwyr Iechyd a Rhyngweithio Cymru Gyfan, gyda chymorth ariannol gan LICC.

Sefydlwyd y grŵp yn 2004 gyda chylch gwaith i ddatblygu gwelliannau mewn gwasanaethau mamolaeth ar gyfer menywod sy'n dioddef cam-drin domestig yn ystod beichiogrwydd. Fel rhan o'r gwaith hwn datblygwyd y llwybr gofal oedd yn cynorthwyo bydwagedd ac ymwelwyr iechyd i wneud ymholiadau ynghylch cam-drin domestig fel rhan o'r broses gofal cyn geni.

Roedd y llwybr a gafwyd yn canolbwyntio ar y fenyw, ac o ran ei waith yn cael ei yrru gan glinigwyr ac yn seiliedig ar dystiolaeth. Cynigiai agwedd strwythuredig at wasanaethau cyfeirio a chefnogi ar gyfer menywod a ddatgelodd gam-drin domestig.

Datblygwyd pecyn hyfforddiant er mwyn cefnogi'r ddogfennaeth ynglŷn â'r llwybr, ac er mwyn arwain yr hyfforddwyr trwy bob un o safonau gofynnol y llwybr. Gellid defnyddio'r system hefyd fel arf ar gyfer archwiliad a chasglu gwybodaeth ystadegol.

Oherwydd llwyddiant y llwybr gofal Cyn Geni, estynnwyd y gwaith hwn i gynnwys lleoliadau Damwain ac Achosion Brys. Darparwyd cyllid gan LICC ar gyfer secondio nyrs i gyflwyno'r ymchwiliad arferol ynglŷn â cham-drin domestig mewn lleoliadau Damweiniau ac Achosion Brys.

### ***Ymyriadau yn yr ysgol***

Ym mis Mawrth 2004, cyhoeddwyd llyfryn gwybodaeth, *Arfer Da ynglŷn â Cham-drin Domestig*, a dargedwyd ar gyfer ysgolion. Cafodd ei ddsbarthu i ysgolion, awdurdodau lleol a sefydliadau ieuencid. Mae LICC yn bwriadu diweddarau'r canllaw i ysgolion yn 2008/09. Datblygwyd *Arfer Da ynglŷn â Cham-drin Domestig* gyda'r bwriad o gynorthwyo athrawon a staff perthnasol i adnabod a deall plant a phobl ifanc sydd wedi dioddef cam-drin domestig.

Mae'r canllaw arfer da yn enghraifft o safbwynt LICC y dylai delio â cham-drin domestig fod yn rhan o ethos 'ysgol gyfan', ac yn rhan o ddiwylliant sefydliadau ieuencid megis y gwasanaeth ieuencid.

Gwelir y canolbwyntio ar ddelio â cham-drin domestig o fewn yr ysgol hefyd yn y strategaeth genedlaethol a gyhoeddwyd yn ddiweddar ar wasanaethau cynghori yn yr ysgol (LICC, 2008). Caiff cam-drin domestig ei ddynodi'n benodol o fewn y strategaeth fel mater sydd angen ei wynebu, ac mae angen cynnig cefnogaeth i'r plant a'r bobl ifanc sydd wedi ei ddioddef.

Mae LICC yn adrodd bod Rhaglen Ysgolion Cymru Gyfan yn cyrraedd 97% o ysgolion Cymru, a bod ynddi fodiwl ar gam-drin domestig.

## Ymateb awdurdodau lleol

Mae gan awdurdodau lleol ddyletswydd i ddarparu gwasanaethau lles ar gyfer pobl sydd wedi eu dynodi yn neilltuol fregus (mae hyn yn cynnwys dioddefwyr trais yn y cartref), er mwyn hybu a gwella eu lles a'u hiechyd cymdeithasol. Eglurwyd y cyfrifoldeb cyfreithiol ynglŷn â'r fath ddarpariaeth a threfniadau yn Neddf Llywodraeth Leol 2000, yn benodol yn Rhan 2 sy'n datgan: *"dylai pob awdurdod lleol fod â'r grym i wneud unrhyw beth sydd yn ei farn yn debygol o gyflawni un neu ragor o'r amcanion canlynol:*

- *Hybu neu wella lles economaidd eu hardal;*
- *Hybu neu wella lles cymdeithasol eu hardal;*
- *Hybu neu wella lles amgylcheddol eu hardal".*

Mae'r grym dan y Ddeddf hon yn cynnwys grym awdurdod lleol i:

- Fynd i gost;
- Rhoi cymorth ariannol i unrhyw un;
- Gwneud trefniadau neu gytundebau gydag unrhyw un;
- Cydweithio ag unrhyw un, neu hwyluso neu gydlynu gweithgareddau unrhyw un; a
- Darparu staff, nwyddau, gwasanaethau neu lety i unrhyw un.

Mae'r grym dan y Ddeddf hon yn cynnwys hefyd grym awdurdod lleol i wneud: *unrhyw beth ynghylch, neu er budd, unrhyw un neu unrhyw ardal oddi allan i'w ardal ei hun os yw'n credu y byddai'n debygol o gyflawni un neu ragor o'r amcanion a grybwyllwyd cyn hynny.*

Yn ychwanegol, dan Ran 93. (2), gall LICC roi grantiau i awdurdodau lleol yng Nghymru ar gyfer gwariant a wnaethant wrth ddarparu, neu wrth gyfrannu at ddarparu'r math o wasanaethau lles y gall y Cynulliad eu pennu. Mae gwasanaethau lles yn cynnwys gwasanaethau sy'n darparu cefnogaeth, cymorth, cyngor neu gynghori ar gyfer unigolion ag anghenion penodol.

Un ffynhonnell ariannol allweddol sydd ar gael ar gyfer gwasanaethau lleol gan LICC er mwyn cyflawni'r dyletswyddau cyfreithiol uchod yw'r rhaglen Grant Cefnogi Pobl (SPG) (gweler Ffigur 6 am ragor o wybodaeth). Mae'r rhaglen yn rhoi i awdurdodau lleol gyfrifoldeb am ariannu, cynllunio, adolygu a chomisiynu gwasanaethau cefnogi a all gynorthwyo awdurdodau lleol i ddarparu yn ôl eu blaenoriaethau strategol lleol a chenedlaethol. Gall y cronfeydd hefyd ategu strategaethau lleol eraill, sy'n hybu

adferiad, gofal canolradd a gwelliannau i les economaidd, cymdeithasol neu amgylcheddol cymunedau lleol.

Mae rôl awdurdodau lleol ynglŷn â cham-drin domestig yn amlwg hefyd yn eu gwaith gyda Phartneriaethau Diogelwch Cymunedol. Sefydlwyd rhwydwaith o fforymau cam-drin domestig dros Gymru, gyda phob Partneriaeth Diogelwch Cymunedol yn trefnu fforwm o'r fath. Mae creu'r fforymau hyn wedi bod yn gymorth i sicrhau gweithio mewn partneriaethau aml-asiantaeth gyda cham-drin domestig, gyda sefydliadau lleol allweddol yn cyfranogi (e.e. awdurdodau lleol, yr heddlu, cymdeithasau tai a grwpiau Cymorth i Fenywod).

### **Cymorth i Fenywod**

Yn ystod y 1960au a'r 1970au cynnar, arweiniodd y pryder cynyddol ynghylch trais dynion at fenywod a'r angen i ymateb i hynny, at greu'r mudiad lloches i fenywod. Dylanwadodd mudiad ffeministaidd y cyfnod hwnnw'n drwm ar y mudiad lloches, ac adlewyrchwyd hyn yn y modd y gweithredai'r llochesau, er enghraifft, cafwyd pwyslais ar hunangymorth a hunan benderfyniad, ac ar strwythurau cyfunol yn hytrach na hierarchaidd. Y rhesymeg tu ôl i'r strwythur cyfunol oedd "*y dylai pob penderfyniad sy'n effeithio ar waith y grŵp gael ei wneud yn gyfunol, er mwyn rhoi grym i fenywod trwy rannu cyfrifoldeb a pheidio camddefnyddio grym nac ailadrodd hierarchaethau grym anghyfartal sy'n wynebu menywod yn y gymdeithas*". (Gwefan LICC, 2008)

Roedd y mudiad lloches yn gweithredu ar ddwy lefel: hysbysebu a dwyn i'r amlwg fater cam-drin domestig, oedd cyn hynny'n fater 'preifat'; a darparu gwasanaethau lloches ar gyfer menywod a phlant oedd wedi dioddef cam-drin domestig (Pascal, 1986, Dyfynwyd: Charles, Gilkes, a Symonds, 2001)


Ym 1974, sefydlwyd Ffederasiwn Genedlaethol Cymorth i Fenywod trwy gyfuno 35 o grwpiau lloches lleol oedd cyn hynny ar wahân i'w gilydd, er mwyn ymgychu'n genedlaethol. Fodd bynnag, ym 1978, gwahanodd y ffederasiwn genedlaethol yn gynghreiriau ar wahân yng Nghymru, Lloegr, Gogledd Iwerddon a'r Alban.

### **Cymorth i Fenywod yng Nghymru**

Gyda chyllid gan Adran Gwasanaethau Cymdeithasol Awdurdodau Lleol y Swyddfa Gymreig, sefydlwyd Cymorth i Fenywod Cymru ym 1978. Pan grëwyd Cymorth i Fenywod Cymru, daeth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yng Nghymru yn 'aelodau' ohono. Gwasanaethai Cymorth i Fenywod Cymru, ac mae'n parhau i wasanaethu, fel y sefydliad ymbarél sy'n cydlynu ac uno'r grwpiau sy'n aelodau ohono.

Sefydliadau annibynnol sy'n eu rheoli eu hunain yw grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, ac mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynrychioli mwyafrif grwpiau lloches Cymru. Ar hyn o bryd, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynrychioli 34 o grwpiau Cymorth i Fenywod<sup>8</sup> yng Nghymru, a hynny o fewn 21 o'r 22 awdurdod lleol yng Nghymru.

**Ffigur 1: Map o grwpiau lleol sy'n aelod o Gymorth i Fenywod**



[Ffynhonnell: Gwefan LICC]

Mae trefniadau rheolaeth, trefn lywodraethu a lefelau cyllido o fewn yr awdurdodau lleol yn amrywio'n fawr, ac o ganlyniad mae gwasanaethau ar lefel leol hefyd yn amrywio'n arw. Ar ddechrau'r cyfnod gwerthuso roedd 12 grŵp lleol yn gweithredu fel hierarchaethau a 22 fel sefydliadau cyfunol, er bod llawer ohonynt yn trafod newidiadau posibl. Roedd llawer ohonynt wedi sylwi ar raglenni newid rheolaeth a fu'n llwyddiant mewn grwpiau eraill. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi eu cofrestru gyda'r Comisiwn Elusennau a Thŷ'r Cwmnïau.

---

<sup>8</sup> Gall y nifer hwn newid yn fuan gan ein bod yn ymwybodol o dri grŵp o leiaf sydd yn trafod cyfuno posibl.

Mae lleiafrif o'r grwpiau yn parhau i ganolbwyntio ar wasanaethau lloches, ond yn gynyddol mae grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn darparu gwasanaethau mwy rhagweithiol (e.e. gwasanaethau allgymorth). Mae'r gwasanaethau a gynigir gan grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn cynnwys:

- Mynediad argyfwng 24 awr i lety dros dro (llochesau);
- Gwybodaeth a chefnogaeth ymarferol i unigolion;
- Gwasanaethau allgymorth
- Cefnogaeth symudol;
- Codi ymwybyddiaeth (e.e. gweithdai mewn ysgolion);
- Hybu gwasanaethau cam-drin domestig (e.e. mynychu digwyddiadau cymunedol ac ymgyrchoedd marchnata);
- Hyfforddi partneriaid lleol.

Fel y nodwyd uchod, dylanwadodd y mudiad ffeministaidd yn drwm ar strwythurau'r sefydliadau o fewn y mudiad lloches, yn arbennig Cymorth i Fenywod. Arweiniodd hynny at fabwysiadau strwythurau sefydliadol cyfunol. Mae manteision ac anfanteision i hynny, fel i bob strwythur sefydliadol arall.

Ystyrir bod hierarchaethau yn hwyluso rheolaeth effeithiol, lle treulir amser yn fwy effeithlon yn ceisio amcanion y sefydliad yn hytrach nag egluro grym ac awdurdod. Fodd bynnag, gall hierarchaethau hefyd rwystro cyfathrebu rhwng gweithwyr a rheolwyr, a bod yn anhyblyg, a methu addasu at sefyllfaoedd cymhleth (Lanello, 1992. Dyfynnwyd: Charles, Gilkes, a Symonds, 2001)

Yn nodweddiadol, mae sefydliadau sefydliadol cyfunol yn egalitaraidd, ac yn cadw'r rheolau i'r lleiafswm posibl. Cedwir y rheolaeth o fewn y grŵp trwy ddylanwad cymheiriaid ac unffurfiaeth y grŵp, a chaiff ei sicrhau trwy aelodaeth ddethol ar sail sgiliau a chydweddu o fewn y grŵp/sefydliad. Nodwyd nifer o faterion posibl sy'n gallu rhwystro'r fath sefydliadau rhag gweithio'n effeithiol.

- Amser: mae angen mwy o amser i wneud penderfyniadau trwy gonsensws na thrwy benderfyniadau biwrocraidd;
- Dwyster emosiynol: mae sefydliadau cyfunol yn golygu mwy o gyfathrebu wyneb yn wyneb, ac felly mae unigolion yn fwy atebol am eu gweithredoedd, a gall gwrthdaro olygu cost bersonol uwch;
- Gwerthoedd annemocrataidd: nid yw unigolion sy'n byw mewn cymdeithasau hierarchaidd wedi eu paratoi'n dda ar gyfer cymryd rhan mewn sefydliadau cyfunol;

- Rhwystrau amgylcheddol: wrth i sefydliadau cydsyniol ddatblygu o amgylch materion sy'n herio cymdeithas prif ffrwd, gall dylanwadau gwleidyddol, economaidd a chymdeithasol ar y sefydliad fod yn ddwysach na'r rhai ar sefydliadau sydd heb fod yn gonsensws;
- Gwahaniaethau unigol: gall gwahaniaethau o ran agwedd, sgiliau a phersonoliaeth rhwng unigolion arwain at wrthdaro o fewn sefydliadau consensws. (Rothschild a Whit, 1986 Dyfynwyd: Charles, Gilkes, a Symonds, 2001)

Yn ychwanegol, er y gall sefydliad fod o blaid agwedd gyfunol, mae modd o hyd i unigolion i bob pwrpas dra-arglwyddiaethu ar eraill o fewn y sefydliad.

Dros y blynyddoedd, mae'n amlwg i Gymorth i Fenywod fod yn llwyddiannus: mae mater cam-drin domestig wedi ei bwysleisio a'i wneud yn flaenoriaeth o fewn yr agenda gwleidyddol; a chafodd y gwasanaethau a ddarparwyd ar gyfer menywod a ddiodefodd gam-drin domestig effaith sylweddol. Fodd bynnag, mae llwyddiant Gymorth i Fenywod wrth ddwyn cam-drin domestig i'r amlwg, ynghyd â'r pwysau o du'r llywodraeth i ddangos ei effaith, wedi golygu bod Cymorth i Fenywod dan fwy a mwy o bwysau o du sefydliadau mwy, sydd â gwell adnoddau ac yn cystadlu â hwy am arian.

### **Gwerthusiad 2001**

O ganlyniad i'r pwysau newydd hyn, cytunwyd yng Nghyfarfod Cyffredinol Blynyddol Cymorth i Fenywod Cymru bod angen adolygu strwythur Cymorth i Fenywod Cymru. Cydnabu'r sefydliad, *"Er bod y strwythur presennol yn ddamcaniaethol yn gwneud y mwyaf o botensial pob grŵp i gyfrannu at y broses gwneud penderfyniadau, yn ymarferol nid yw'n gweithio mor effeithiol ag a ragwelwyd"* (dogfen dendro Cymorth i Fenywod Cymru).

Comisiynwyd Canolfan Genedlaethol Polisi Cyhoeddus ac Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol a Datblygiad Rhyngwladol ym Mhrifysgol Abertawe i wneud yr ymchwiliad hwn. Canfu'r ymchwiliad nifer o gryfderau a gwendidau o fewn Cymorth i Fenywod Cymru ar y pryd.

Roedd y gwendidau a nodwyd o fewn adroddiad gwerthusiad 2001 yn cynnwys:

- Hunaniaeth Cymorth i Fenywod Cymru fel sefydliad gwleidyddol sy'n ymgyrchu;
- Dealltwriaeth y sefydliad o gam-drin domestig fel problem gymdeithasol sy'n berthnasol i anghyfartaledd rhyw a mynediad prin iawn menywod at

adnoddau - mae'r atebion a awgrymir gan Gymorth i Fenywod Cymru yn deillio o'r dadansoddiad hwn;

- Menyw-ganolog - sy'n cysylltu â gallu'r sefydliad i ymestyn at fenywod a phlant ac â'r modd y caiff cefnogaeth ei gynnig;
- Gallu Cymorth i Fenywod Cymru i roi grym i fenywod;
- Dibyniaeth ar gyfraniad grwpiau at reoli a gwneud penderfyniadau;
- Gwybodaeth, sgiliau ac ymrwymiad staff;
- Y gefnogaeth a ddarparwyd i grwpiau lleol (Charles, Gilkes a Symonds, 2001).

Nodwyd mai'r problemau canlynol oedd yn wynebu'r sefydliad:

- *Nid yw'r rheolaeth wedi ei ariannu sy'n golygu ei fod yn digwydd ar draul grwpiau lleol;*
- *Mae cyfranogiad grwpiau mewn rheoli yn rhy fychan i alluogi'r sefydliad i weithredu'n effeithiol;*
- *Mae pwerau a phrosesau gwneud penderfyniadau a llinellau atebolrwydd yn aneglur;*
- *Mae ymreolaeth grwpiau lleol a'r berthynas lac sydd ganddynt yn aml â Chymorth i Fenywod Cymru yn golygu bod sicrwydd ansawdd (ar ffurf Codau Ymarfer) fwy neu lai'n amhosibl;*
- *Mae Cyfathrebu'n wael ar bob lefel o fewn y sefydliad;*
- *Ymhlith y grwpiau sy'n aelodau, mae diffyg gwybodaeth am Gymorth i Fenywod Cymru a pherthynas y grwpiau â'r sefydliad cenedlaethol;*
- *Mae cysylltiadau cyflogaeth o fewn y sefydliad yn broblemus;*
- *Mae'r lefelau uchel o absenoldeb oherwydd salwch yn effeithio ar allu'r sefydliad i weithredu'n effeithiol;*
- *Mae bodolaeth 3 swyddfa ranbarthol yn gwneud gwaith y gweithwyr cenedlaethol yn anodd heb angen;*
- *Mae gan Gymorth i Fenywod Cymru ddelwedd wael, mae'r gweithwyr ar gyflog isel, mae taliadau aelodaeth yn isel, mae'r ceir swyddogol yn hen, a phopeth yn cael ei wneud am y nesaf peth i ddim;*
- *Mae cyllid yn ansefydlog ac annigonol yn lleol a chenedlaethol." (Charles, Gilkes a Symonds, 2001, tud.55)*

Un o'r prif broblemau sefydliadol a nodwyd oedd bod 'gormod o reolwyr' a bod grwpiau'n analluog neu'n amharod i anfon cynrychiolwyr i gyfarfodydd rheoli. Derbyniwyd bod pwysau am newid wedi eu seilio'n bennaf ar yr angen i wrthsefyll yr anfodlonrwydd cynyddol ymhlith grwpiau a gweithwyr a'r angen i fod yn atebol i gyllidwyr, yn ogystal â'r angen i ddarparu gwasanaeth effeithiol a chost effeithlon.



Gwnaeth Cymorth i Fenywod Cymru newidiadau mewn ymateb i werthusiad 2001, ystyriodd y casgliadau, ac mae cynlluniau olyniaeth yn cael eu sefydlu i gefnogi'r Cyfarwyddwr sydd newydd ei benodi ac a ymunodd â Chymorth i Fenywod Cymru ar ddiwedd y cyfnod gwerthuso<sup>9</sup>. Yn ychwanegol, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi cymryd rôl gynyddol bwysig yn lleol a chenedlaethol o ran datblygu a chefnogi polisiau a gwasanaethau atal cam-drin domestig Llywodraeth y Cynulliad a'r awdurdodau lleol.

Mae'r gwerthusiad presennol a gomisiynwyd gan LICC yn adeiladu ar waith gwerthusiad 2001, ac yn asesu'r modd y mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi datblygu ers 2001. Cyflwynir casgliadau ein gwerthusiad yn y penodau canlynol.

---

<sup>9</sup> Daeth y Cyfarwyddwr newydd i'w swydd ar 21 Grffennaf, 2008.

### 3. Perthynas Cymorth i Fenywod Cymru â'r grwpiau lleol sy'n aelodau ohono

---

Yn y bennod hon yr ydym yn archwilio'r berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a'r grwpiau lleol sy'n aelodau ohono. Dechreuwn trwy amlinellu trefniadau aelodaeth a gofynion cysylltiedig Cymorth i Fenywod Cymru, yn cynnwys y disgwyliadau sydd gan Gymorth i Fenywod Cymru o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, a'r hyn y gallant ei ddisgwyl yn ôl. Yna disgrifiwn y gwasanaethau cefnogi a gynigir gan Gymorth i Fenywod Cymru i grwpiau lleol, yn cynnwys darpariaeth gwybodaeth, adnoddau gwefan, hyfforddiant achrededig a gweithgorau. Archwilir hefyd rôl Gweithwyr Plant Rhanbarthol a'u dylanwad ar y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a'r grwpiau sy'n aelodau ohono. Yn bwysig, gwnawn sylwadau ar ddylanwad Cymorth i Fenywod Cymru dros grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a photensial Cymorth i Fenywod Cymru i wella eu perfformiad, fel corff canolog heb bwerau ffurfiol ac fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig (ASP).

#### Aelodaeth

Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnig aelodaeth ar ddwy lefel i grwpiau:

- Aelodaeth lawn;
- Aelodaeth gyswllt.

Ar hyn o bryd, mae gan Gymorth i Fenywod Cymru 34 o aelodau; yn cynnwys 32 o aelodau llawn. Y rheswm pam nad yw dau o'r grwpiau yn aelodau llawn yw nad ydynt yn grwpiau annibynnol (maent yn is-grwpiau neu'n adrannau o fewn cymdeithas tai). Mae aelodau cyswllt yn derbyn yr un manteision a'r un gefnogaeth ond heb hawl i bleidleisio. Cost aelodaeth lawn yw £465 a chost aelodaeth gyswllt yw £464. Disgwylir cynnydd chwyddiannol o 2.5% ar gyfer y flwyddyn nesaf.

Mae cytundeb aelodaeth yn cael ei ddrafftio ar gyfer Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau ohono. Mae'r cytundeb aelodaeth gwreiddiol i'w gael, ond mae hwnnw dros 20 mlwydd oed. Bwriedir i aelodau orfod cytuno ac arwyddo cytundeb aelodaeth a fydd yn sail cytundeb rhyngddynt hwy a

Chymorth i Fenywod Cymru. Bydd y cytundeb aelodaeth yn datgan y disgwyliadau a'r oblygiadau a gytunwyd rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau. Ar hyn o bryd, mae'r ddogfen ddrafft (dyddiedig Mawrth 2008) yn nodi y bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn:

- *“Ymgynghori â grwpiau er mwyn sicrhau bod Cymorth i Fenywod Cymru yn cynrychioli safbwyntiau Cenedlaethol (Cymru Gyfan)*
- *Cadw llygaid ar ddeddfwriaeth ym mhob maes perthnasol a chadw grwpiau'n wybodus, darparu polisi/gweithdrefnau safonedig*
- *Coladu ystadegau Cenedlaethol yn flynyddol*
- *Herio a goleuo polisiau presennol a newydd*
- *Ymateb i ddogfennau ymgynghorol e.e. LICC, Cyfreithiol, ac ati*
- *Darparu cyfleoedd hyfforddi a gwybodaeth am/darparu hyfforddiant priodol*
- *Datblygu hyfforddiant achrededig ar gyfer grwpiau a sicrhau bod staff Cymorth i Fenywod Cymru yn ymrwmo i'r un datblygiad personol a phroffesiynol â grwpiau*
- *Codi proffil Cenhadaeth Cymorth i Fenywod Cymru trwy ddefnyddio gwybodaeth ymchwil ac ystadegol a ddarparwyd gan grwpiau*
- *Datblygu cyfathrebu clir ynglŷn â strategaeth, cynnal seilwaith cyfathrebu a chysylltiadau rhwng grwpiau a rhanbarthau er mwyn atgyfnerthu'r opsiynau sydd ar gael*
- *Datblygu a mabwysiaidau golwg strategol ar gyfer darpariaeth a chynnig gwasanaeth trwy Gymru gyfan” (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008d tud.2).*

Fel aelodau, bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn disgwyl i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod:

- *“ddangos ymrwymiad i drefn lywodraethol Cymorth i Fenywod Cymru trwy fynychu Cyfarfodydd Rhanbarthol yn rheolaidd a bod yn rhan o Fwrdd Rheoli Cymorth i Fenywod Cymru, a darparu gwybodaeth sydd ei hangen ar gyfer datblygiad strategol*
- *sicrhau trefn lywodraethol a stiwardiaeth dda ar gyfer y grŵp; ac os caiff y grŵp ei ddirwyn i ben neu ei ddiddymu, trosglwyddo'r asedau i Gymorth i Fenywod Cymru*
- *Cydymffurfio ag amcanion y gwasanaeth h.y.*
  - *cyflawni gofynion statudol*
  - *set ofynnol o safonau (LICC)*
- *mynychu hyfforddiant:*
  - *perthnasol i'r rôl*
  - *cydnabod Safonau Galwedigaethol a chyfrannu at “gronfa” o hyfforddwyr i hyfforddi ar ran Cymorth i Fenywod Cymru os yn briodol*

- *mynychu Hyfforddiant Craidd e.e. Asesiad Risg, Iechyd a Diogelwch*
- *darparu ystadegau ym mhob maes allweddol e.e. Lloches/Cefnogaeth Symudol/Oed Benodol – Plant/Allgymorth*
- *darparu mynediad uniongyrchol 24 awr*
- *darparu ffocws ar gyfer defnyddwyr gwasanaeth*
- *darparu hyrwyddiad gwasanaethau a sefydliadau yn eu cyfanrwydd lle bo'n gymwys gan ddefnyddio tystiolaeth gadarnhaol*
- *hybu cyfranogi ac ymgynghori ar ran defnyddwyr/arweinwyr y gwasanaeth*
- *darparu Rhwydwaith Cefnogi er mwyn gwneud grwpiau yn gyfartal*
- *hybu'r defnydd o wasanaethau Cymraeg a dwyieithog lle bo'n briodol"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008d tud.3)

Bydd gan fwyafrif grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau gyfrifoldebau hefyd i sefydliadau eraill, yn bennaf dan gytundebau neu gytundebau gwasanaeth eraill gyda chyllidwyr (e.e. Comic Relief, Y Lotri FAWR, ac ati).

### **Sicrhau ansawdd a chysondeb arfer**

Nid yw'r gwaith yn lleol yn cael ei fonitro'n fanwl, ac mae grwpiau lleol eraill a phartneriaethau lleol wedi mynegi pryder ynglŷn â gallu rhai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i gyflawni'r gofynion uchod. Mae ganddynt hefyd bryderon mawr ynglŷn ag arferion a safonau rhai grwpiau lleol. Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn dweud yn glir, "*Dylid trin pawb sy'n byw yng Nghymru yn gyfartal a chyda pharch*" (LICC, 2005. tud.8). Ar hyn o bryd, mae'r amrywiaeth a geir rhwng grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a darparwyr cefnogaeth eraill yn achos pryder i lawer o'r bobl a holwyd gennym.

Nid gwerthusiad o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod oedd hwn, ond yn ystod ein gwaith yn y maes nodwyd amryw o faterion gennym ynglŷn ag arferion a threfniadau lleiafrif o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod (y cyfeiriwyd atynt gan grwpiau lleol eu hunain a chynrychiolwyr yr awdurdodau lleol), yn cynnwys:

- Gwrthod derbyn menywod ag anghenion cymhleth pan fo'r llochesau yn wag (neu pan fo llefydd gwag ynddynt)<sup>10</sup>;
- Gwrthod menywod â bechgyn ifanc;
- Methu darparu gwasanaeth mynediad uniongyrchol 24 awr (a hwythau wedi cael arian i wneud hynny);

---

<sup>10</sup> Mae Adroddiad Ystadegau Blynyddol 2007/2008 Cymorth i Fenywod Cymru yn dangos na lwyddwyd i ymateb i 2766 o geisiadau i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod am lety mewn lloches. Gallai'r ffigur hwn fod yn uwch gan na chyfrannodd pob grŵp lleol Cymorth i Fenywod ddata (29 o'r 34). Ond ni wyddys pa grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a fethodd ymateb i'r ceisiadau hyn. (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008a)

- Esgeuluso plant mewn lloches (pan fo adnoddau'n brin, y fam sy'n cael y flaenoriaeth);
- Methu ymgysylltu â phartneriaid lleol;
- Presenoldeb gwael mewn cyfarfodydd consortia gwerthfawr (yn arbennig MARAC a fforymau cam-drin domestig).

Hefyd, mae ystadegau a ddarparwyd gan grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn dangos bod 44% o'r menywod mewn lloches wedi eu cyfeirio yno gan lochesau eraill, a bod 44% o'r menywod mewn lloches wedi defnyddio gwasanaethau lloches o'r blaen (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008)<sup>11</sup>. Gallai hyn awgrymu nad yw gwasanaethau lloches grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn llwyddo i alluogi menywod i 'symud ymlaen'.

Mae'r materion hyn yn arbennig o bwysig os yw grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i roesi o gofio natur gynyddol gystadleuol gwasanaethau'r trydydd sector. Dychwelir at y materion hyn a'u hoblygiadau mewn penodau eraill yn yr adroddiad hwn.

### **Cyfathrebu cyffredinol**

Heblaw am y grwpiau hynny sydd â staff ar y Bwrdd Gweithredol, mae'r cyswllt rhwng grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a Chymorth i Fenywod Cymru yn wirfoddol ac yn aml yn ysbeidiol. Wrth i bartneriaethau lleol gryfhau trwy fforymau cam-drin domestig a chydlynwyr lleol cam-drin domestig, dywedodd llawer o'r bobl a holwyd o'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod bod ganddynt gysylltiadau a pherthynas gryfach ag unigolion eraill a sefydliadau partner na'r hyn sydd ganddynt â Chymorth i Fenywod Cymru. Os oes arnynt angen hyfforddiant neu gyngor, maent yn chwilio amdano ar y cyd trwy'r rhwydweithiau lleol yn hytrach na throi at Gymorth i Fenywod Cymru.

Cafwyd cydnabyddiaeth gan rai gweithwyr lleol Cymorth i Fenywod bod y berthynas o ddau gyfeiriad. Ni all Cymorth i Fenywod Cymru fod yn effeithiol ond wrth i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod weithio gyda'r tîm cenedlaethol. Fodd bynnag, mae rhwystrau iddynt wneud hynny, yn arbennig y pwysau cynyddol ar amser staff o fewn cyd-destun adnoddau prin a systemau cyfathrebu gwael (y chydig iawn o ddefnydd o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd sydd gan lawer o grwpiau)<sup>12</sup>.

---

<sup>11</sup> Rhaid bod yn ofalus â'r ffigurau hyn, gan na ddarparwyd data gan bob grŵp lleol Cymorth i Fenywod, fel y nodwyd uchod.

<sup>12</sup> Cwblhaodd Cymorth i Fenywod Cymru arolwg o rwydwaith mewnol Technoleg Gwybodaeth ei aelodau yn gynharach eleni. Gofynnodd fwy nag unwaith i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod am ddata, a darparodd 21 (o'r 34) grŵp wybodaeth. Dangosodd yr arolwg bod un grŵp heb ddefnydd o adnoddau Band Llydan, ac mai un cyfrifiadur a rennir gan staff sydd gan ddau grŵp.

## Gwybodaeth ac ystadegau

Un maes allweddol y mae Cymorth i Fenywod Cymru'n awyddus i'w ddatblygu yw casglu a dadansoddi data oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Mae'r ystadegau a ddarperir gan grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn hanfodol bwysig o ran cynorthwyo Cymorth i Fenywod Cymru i asesu'n gywir faint y gam-drin domestig a galluogi Cymorth i Fenywod Cymru i herio a hysbysu polisïau cyhoeddus. Dywed Cymorth i Fenywod Cymru: *"Er mwyn bod mewn safle cadarn i lywio gweithrediad Strategaeth Genedlaethol Cam-drin Domestig Cymru Gyfan, rhaid bod gennym ystadegau cadarn, cywir a diweddar ynglŷn â gwaith y grwpiau sy'n aelodau ohonom a'r menywod a'r plant a gefnogir ganddynt"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008c tud.44).

Ar hyn o bryd, caiff y data ei gasglu'n fisol, yn chwarterol a/neu yn flynyddol oddi wrth y rhan fwyaf o'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod trwy amrywiaeth o ddulliau, yn dibynnu ar amgylchiadau unigol y grŵp. Ar hyn o bryd, ar gyfartaledd:

- mae 15 o grwpiau'n cyflwyno ystadegau ar ffurflenni papur safonol;
- mae 14 o grwpiau'n cyflwyno ystadegau yn seiliedig ar y ffurflen safonol ond mewn fformat electronig;
- mae 2 grŵp yn anfon eu hystadegau 'ansafonol' eu hunain;
- nid yw 2 grŵp yn anfon ystadegau o gwbl;
- mae 1 grŵp yn anfon ystadegau weithiau.

O'r 34 grŵp sy'n aelodau o Gymorth i Fenywod Cymru, ymatebodd 29 i geisiadau (niferus) am ddata allweddol ar gyfer eu holl wasanaethau er mwyn cyhoeddi Adroddiad Ystadegol Blynyddol 2007/08<sup>13</sup>. Mae pwysigrwydd yr adroddiad hwn yn amlwg. Mae Cymorth i Fenywod Cymru, LICC a rhanddeiliaid eraill yn defnyddio'r adroddiad hwn fel ffynhonnell allweddol ar gyfer gwybodaeth am y galw a'r defnydd o wasanaethau cam-drin domestig. Mae hefyd yn golygu nad yw grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn cydymffurfio â'r hyn y bydd cytundeb eu haelodaeth o Gymorth i Fenywod Cymru yn ei ddisgwyl ganddynt.

Yn ddelfrydol, hoffai Cymorth i Fenywod Cymru weithio at system o gasglu data safonol yn gyson bob mis oddi wrth bob grŵp. I'r perwyl hwn, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi penderfynu, mewn egwyddor, buddsoddi mewn rhaglen gyfrifiadurol un pwrpas a fydd yn galluogi iddynt i gynorthwyo'r grwpiau sy'n aelodau i reoli ar yr un pryd nodiadau achos eu defnyddwyr gwasanaeth. Anfonwyd manylion am y pecyn hwn a'r costau cysylltiedig at grwpiau lleol i'w hystyried. Y mater y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn

---

<sup>13</sup> O'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a atebodd, "ni ddarparodd pob grŵp ystadegau ar gyfer pob un o'r 12 mis" (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008)


ceisio ei ddatrys ar hyn o bryd yw cost uchel y rhaglen. Mae'r dyfynbris presennol yn £90,000+ ar gyfer ei gyflwyno i bob grŵp, heb gyfrif cost aelodaeth flynyddol.

### Gwasanaethau Cefnogi

Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnig cefnogaeth i grwpiau sy'n aelodau mewn amryw o ffyrdd, yn cynnwys darparu cyngor, hyfforddiant, cynrychioli'r mudiad gerbron y cyhoedd, Cynulliad Cenedlaethol Cymru/LICC a chyrrff perthnasol eraill (e.e. GIG, yr heddlu). Yn yr ychydig baragraffau nesaf, byddwn yn son am y rolau hyn. Mae Ffigur 2 yn dangos bod mwyafrif yr ymateb a ddaeth i'r wefan oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod o'r farn bod Cymorth i Fenywod Cymru yn well na chanolig<sup>14</sup>.

**Ffigur 2: gwasanaethau cefnogi aelodau o Gymorth i Fenywod Cymru**

**Sut fydddech chi'n graddio cefnogaeth Cymorth i Fenywod Cymru i grwpiau lleol?**



[n=29]

### Cyngor

Dengys Ffigur 3 isod bod dros hanner grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a ymatebodd<sup>15</sup> i'w ymgynghoriad ar y we yn teimlo bod y cyngor a gânt gan Gymorth i Fenywod Cymru

<sup>14</sup> Gofynwyd y cwestiwn hwn i grwpiau lleol Cymorth i fenywod yn unig yn yr ymgynghoriad gwefan.


<sup>15</sup> Caiff y galw am arbenigedd mewn meysydd arbenigol megis iechyd meddwl a chamddefnydd sylweddau ei drafod ym Mhennod 6 lle yr ydym y nodi bod nifer y staff sydd gan Gymorth i Fenywod Cymru yn gyfyngedig ac felly ni all ddarparu arbenigedd ar yr ystod lawn o faterion pwysig sy'n gysylltiedig â cham-drin domestig.

(o ran darpariaeth gwasanaethau uniongyrchol i fenywod a phlant) yn “dda” neu’n “dda iawn”.

Canfu'r cyfweiliadau a wnaed yn ystod y gwaith maes bod grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn gwerthfawrogi'n fawr y cyngor cyfreithiol a ddarperir gan Gymorth i Fenywod Cymru trwy gylchlythyrau, e-fwletinau, gweithdai a thrwy gyswllt anffurfiol â'r Cydlynnydd Materion Cyfreithiol. Nodwyd gwerth yr adnodd hwn hefyd gan bedwar o'r rhai a holwyd ar lefel genedlaethol.

**Ffigur 3: Cyngor Cymorth i Fenywod Cymru i grwpiau lleol**

**Sut fydddech chi'n graddio'r cyngor i grwpiau lleol ynghylch darparu gwasanaethau uniongyrchol i fenywod a phlant?**



[n=29]

Roedd y cyfweiliadau'n awgrymu mai'r rheswm y credai rhai pobl nad oedd Cymorth i Fenywod Cymru'n cynnig cyngor da i grwpiau lleol oedd naill ai nad yw'r grŵp yn gwybod â phwy y dylid cysylltu o fewn y tîm cenedlaethol (soniwyd yn bod hon yn broblem) neu nad yw'r adnoddau priodol<sup>16</sup> gan Gymorth i Fenywod Cymru.

<sup>16</sup> Trafodir y galw am arbenigedd mewn meysydd arbenigol megis iechyd meddwl a chamddefnyddio sylweddau ym Mhennod 6, lle nodwn mai ychydig o staff sydd gan Gymorth i Fenywod Cymru ac na all felly ddarparu arbenigedd ar gyfer yr holl faterion pwysig ynglŷn â cham-drin domestig.




## Gwefan

Ail-lansiwyd gwefan Cymorth i Fenywod Cymru ar 8 Mawrth, 2007. Talwyd am y datblygiad hwn gan Fanc Barclays. Bryd hynny, ymgorfforodd Cymorth i Fenywod Cymru 'Ardal Aelodau' o fewn y wefan. Mae'r ardal ddiogel hon yn gweithredu fel ystorfa ar-lein hawdd ei chyrraedd ar unwaith, ar gyfer yr holl ddogfennau pwysig y mae'r grwpiau sy'n aelodau eu hangen. Mae hefyd yn gweithredu fel lle i weithwyr y grwpiau osod hysbysiadau a chwestiynau a derbyn cyngor gan gydweithwyr mewn rhannau eraill o Gymru.

Roedd nifer o'r rhai a holwyd yn feirniadol ynglŷn â gwedd weledol y wefan, ac yn teimlo bod hynny'n rhwystr i grwpiau lleol, partneriaid a'r cyhoedd gael gafael ar y wybodaeth. Er hynny, roedd 63% o'r rhai a ymatebodd i'r ymgynghoriad ar y wefan yn credu bod y wybodaeth a'r adnoddau ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru naill ai'n "dda" neu'n "dda iawn".

**Ffigur 4: Gwybodaeth ac adnoddau gwefan**

**Sut fydddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Gwybodaeth ac adnoddau gwefan**



[n=84]

Mae'r cyfleoedd sydd ar gael i Gymorth i Fenywod Cymru o ran gwella ei wefan yn cynnwys:

- Diweddarau adroddiadau a dogfennaeth (e.e. yr adroddiad blynyddol diwethaf sydd ar gael y tu allan i ardal yr aelodau yw adroddiad 2005/06);
- Codi proffil eu hymgyrchoedd gwleidyddol;

- Rhoi gwybod i bobl sut i gefnogi ymgyrchoedd;
- Rhoi gwybod i bobl a/neu sefydliadau sut y gallant anfon cyfraniad at waith y sefydliad;
- Rhoi gwybod i bartneriaid pwy yw aelodau'r tîm cenedlaethol (e.e. er mwyn iddynt wybod â phwy y dylid cysylltu ynglŷn â pha faterion, ac ati);
- Dylai'r rhan o'r wefan a anelwyd at blant a phobl ifanc fod yn fwy hygyrch (h.y. dolen o'r dudalen hafan). Gallai arfer da o ran y deunydd a anelwyd at bobl ifanc hefyd wella'r tudalennau gwefan hyn (e.e. ffont fwy, defnyddio lliw a lluniau, testun aflinol, ac ati).

Yn ôl y sôn, bu Cymorth i Fenywod Cymru ar sawl achlysur yn trafod gyda Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr gyfleoedd i rannu adnoddau a deunyddiau gwefan. Deallwyd bod y datblygiadau hyn wedi eu croesawu mewn egwyddor, ond hyd yma nid yw Cymorth i Fenywod Cymru a Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr wedi cydweithio er mwyn datblygu na rhannu adnoddau a deunyddiau gwefan. Er enghraifft, byddai Cymorth i Fenywod Cymru ar ei ennill o gael *'Hideout'*, adnodd ar-lein Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr ar gyfer plant a phobl ifanc, sy'n eu galluogi i ymweld â lloches ar-lein ac archwilio'r ystafelloedd. Yr un modd, gallai Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr elwa o allu gweld y modd y mae polisïau Cymorth i Fenywod Cymru yn ymateb i faterion sy'n ymwneud â phob rhan o'r Deyrnas Unedig.

### **Hyfforddiant**


Yn 2006/07, darparodd Cymorth i Fenywod Cymru 20 o raglenni hyfforddiant dros 60 o ddyddiau, a daeth dros 800 o bobl iddynt. Roedd y pynciau'n cynnwys:

- Ymwybyddiaeth o Gam-drin Domestig;
- Sgiliau cynghori;
- Amddiffyn plant;
- Datrys gwrthdaro.

Darparodd Cymorth i Fenywod Cymru hefyd hyfforddiant ar gyfer sefydliadau allanol yn cynnwys Unsain, Tai Hafan a Llamau. Roedd bron pawb a holwyd oedd wedi mynychu'r hyfforddiant a drefnwyd neu a hwyluswyd gan Gymorth i Fenywod Cymru yn sôn am brofiadau cadarnhaol iawn, ac mae dadansoddiad o ffurflenni gwerthuso Cymorth i Fenywod Cymru yn cadarnhau hynny. Dengys Ffigur 5 bod 81% o'r atebion gwefan (lle teimlai pobl y gallent wneud sylwadau) o'r farn bod darpariaeth hyfforddiant Cymorth i Fenywod Cymru yn "ganolig" neu well.

**Ffigur 5: Darpariaeth hyfforddiant Cymorth i Fenywod Cymru**

**Sut fyddech chi'n graddio darpariaeth hyfforddiant Cymorth i Fenywod Cymru?**



[n=27]

Yn ystod 2006/07 sefydlodd Cymorth i Fenywod Cymru 'e-ddysgu' trwy *Skillgate*. Mae hynny'n galluogi grwpiau sy'n aelodau i gael darnau o hyfforddiant unigol 'yn ôl y galw' trwy wefan un pwrpas. Hyd yn hyn, mae 53 o ddefnyddwyr cofrestredig<sup>17</sup>. Un peth amlwg a fydd yn rhwystro grwpiau lleol Cymorth i Fenywod rhag defnyddio'r gwasanaeth hwn fydd prinder defnydd o gyfrifiaduron a'r rhyngrwyd. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ceisio mynd i'r afael â hyn ar ran grwpiau lleol Cymorth i Fenywod (fel y nodwyd uchod). Ni chawsant eu hannog i wneud hynny, ond ni wnaeth yr un o'r bobl a holwyd unrhyw sylwadau ynglŷn â'r cyfleuster hwn.

Trafodir ym Mhennod 6 statws Cymorth i Fenywod Cymru fel darparwr hyfforddiant achrededig, a sut y rhydd hyn werth am arian.

O fewn tîm cenedlaethol Cymorth i Fenywod Cymru ceir dwy swydd yn ymwneud yn benodol â hyfforddiant (mae un ohonynt yn wag ar hyn o bryd). Mae staff eraill, yn arbennig y Cydlynnydd Materion Cyfreithiol a'r Cydlynnydd Tai, yn cynllunio a darparu hyfforddiant yn ôl y gofyn pan welir angen amdano. Gwelwyd bod hyblygrwydd y trefniant hwn yn gryfder sefydliadol. Fodd bynnag, caiff swydd y Cydlynnydd Prosiect Achredu ei hariannu ar gytundeb tymor byr trwy Comic Relief a Lloyds TSB (nid arian LICC). O gofio'r pryder mawr ynghylch safonau a geir ymhlith y grwpiau lleol, teimlai mwy na hanner y Bwrdd Gweithredol ac amryw o'r rhanddeiliaid cenedlaethol bod angen

<sup>17</sup> Ni ellir dweud faint o ddefnydd na faint o grwpiau lleol cymorth i Fenywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth hwn.

mwy o adnoddau ar Gymorth i Fenywod Cymru er mwyn cefnogi'r rôl hon. Teimlai mwyafrif y rhain y dylai LICC ariannu hyn.

### ***Cefnogaeth i drefn lywodraeth leol***

Rhwng Mai 2002 a Hydref 2005 bu'r Comisiwn Elusennau'n cynnal sawl ymweliad adolygu â deg o grwpiau Cymorth i Fenywod yn Lloegr<sup>18</sup> er mwyn:

- *"Sicrhau cydymffurfio â'r fframwaith cyfreithiol y mae'r elusen yn gweithio o'i mewn;*
- *Asesu a chyflwyno adroddiad i ddangos os yw elusen gofrestredig yn ymgynraedd at y safonau a amlinellwyd yn un o lawlyfrau'r Comisiwn, CC60 Nodweddion Elusen Effeithiol;*
- *Darparu cyngor ac arweiniad i gefnogi cyrraedd safonau'r 'Nodweddion';*
- *Cyfrannu at welliant parhaus o fewn y sector elusennau;*
- *Gwella'r berthynas rhwng elusennau unigol a'r Comisiwn."*

Daeth nifer o bryderon i'r amlwg o ganlyniad i'r broses hon, yn cynnwys:

- Diffyg cydymffurfio â Dogfen Llywodraethu Elusennau;
- Rheolaeth ariannol annigonol;
- Gwrthdaro buddiannau ymhlith ymddiriedolwyr;
- Rheoli risg yn annigonol.

Defnyddiodd Cymorth i Fenywod Cymru'r adroddiad yn sail i drafodaeth ar y cyd gyda grwpiau ynglŷn â'r ffordd orau o wella'u trefniadau. O ganlyniad i'r broses hon, datblygodd Cymorth i Fenywod Cymru becyn cefnogi ymddiriedolwyr a pholisïau a threfniadau generig wedi eu diweddarau y gallai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod eu haddasu i'w dibenion eu hunain.

Ym mis Mawrth 2008 cydweithiodd y Comisiwn Elusennau a Chymorth i Fenywod Cymru i gynllunio a chyflwyno sesiynau hyfforddiant rhanbarthol, a daeth 30 o fenywod o 17 grŵp iddynt (yn cynnwys staff ac ymddiriedolwyr grwpiau lleol Cymorth i Fenywod). Daeth aelodau o Fwrdd Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru iddynt hefyd. Pwrpas y digwyddiadau oedd rhannu gwybodaeth ac annog arfer da. Roedd y digwyddiadau yn gyfle hefyd i'r Comisiwn Elusennau ddysgu am Gymorth i Fenywod Cymru.

---

<sup>18</sup> Mae'r holl ddata'n ymwneud â grwpiau lleol wedi ei gyflwyno'n ddi-enw.

## **Gweithgorau**

Mae Cymorth i Fenywod Cymru hefyd yn cefnogi grwpiau trwy ddarparu gwybodaeth a chyfleoedd i rannu arfer da a gwersi a ddysgwyd trwy sefydlu grwpiau o ddiddordebau gwahanol. Yn gyffredinol, mae'r grwpiau'n croesawu pob aelod sydd â diddordeb mewn trafod arferion gwaith, datblygiadau newydd, a phryderon ynglŷn â phwnc arbennig. Mae nifer y grwpiau a'r pynciau a drafodir ganddynt yn dibynnu ar anghenion y mudiad ar y pryd, ac ar hyn o bryd ceir tri ohonynt.

O bryd i'w gilydd, bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn gwahodd siaradwyr gwadd i roi gwybodaeth am faterion perthnasol: er enghraifft, siaradwyr gwadd a gyflwynodd wybodaeth am ystod o bynciau i'r Grŵp Diddordeb Arbennig sy'n trafod Plant, yn cynnwys:

- *"cynrychiolwyr o CAF/CASS yn sôn am eu pecyn newydd yn ymwneud â Chamdrin Domestig;*
- *Cefnogaeth Tystion yn sôn am y gwasanaethau plant a thystion bregus a ddarperir ganddynt;*
- *Awtistiaeth Cymru yn sôn am weithio gyda phlant ag anhwylderau'r sbectwm Awstistiaeth;*
- *Ymchwilwyr a wnaeth astudiaeth o wasanaethau craidd plant yn gysylltiedig â fframwaith y Gwasanaeth Cenedlaethol;*
- *Swyddog Cyswllt Ysgolion Tai Hafan yn arddangos yr adnoddau a ddefnyddir mewn gwaith ataliol yn yr ysgolion"* (Gwefan Cymorth i Fenywod Cymru, 2008).

Cyfarfu amryw o weithgorau yn ddiweddar er mwyn cael golwg fanwl ar ganlyniadau y gellir eu dangos yn lleol. Amcan y gwaith hwn yw galluogi grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i ddangos sut y maent 'yn gwneud gwahaniaeth' a sut y byddant yn cefnogi dulliau o atebolrwydd. Trafodir y gwaith hwn ymhellach ym Mhennod 8 fel rhan o drafodaeth ehangach ynglŷn â gwerth am arian.

## **Rôl Gweithwyr Plant Rhanbarthol**

Yn dilyn cais am gyllid i LICC ym mis Medi 2007, cyflogodd Cymorth i Fenywod Cymru 7 o Weithwyr Plant Rhanbarthol. Pwrpas y swyddi hyn oedd caniatáu rhywfaint o waith uniongyrchol gyda phlant ar sail ranbarthol.

O'r cyfweiliadau a wnaethom gyda staff mewn grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a thrwy ein hymgyngoriad ar y wefan, yr ydym wedi casglu adroddiadau am siom a pheth dicter at Gymorth i Fenywod Cymru o ran cyllido swydd y Gweithwyr Plant Rhanbarthol.

Dyweddodd mwyafrif y Gweithwyr Plant Rhanbarthol a siaradodd â ni eu bod wedi synhwyro hynny wrth ymwneud â rhai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Roedd oddeutu hanner y rhai a holwyd o'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn credu y dylai'r cyllid hwn fynd yn uniongyrchol i'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, a bod Cymorth i Fenywod Cymru, wrth wneud cais am yr arian hwn i bob pwrpas wedi cystadlu yn eu herbyn ac wedi gwneud tro gwael â'i aelodau.

Cyn i'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol gael eu cyflogi, roedd pryderon y grwpiau Cymorth i Fenywod ynglŷn â'r swydd wedi eu nodi mewn dogfen yng Nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ym mis Mawrth 2007:

- *"Gallai hyn beryglu'r cyllido ar gyfer grwpiau yn y dyfodol e.e. mae Plant Mewn Angen yn talu am weithwyr sesiynol, ac mae gwaith sesiynol yn eu disgrifiad swydd;*
- *Mae'r hyn y disgwylir iddynt ei ddarparu yn golygu dyblygu gwasanaethau;*
- *Roedd diffyg ymgynghori â grwpiau;*
- *Nid yw disgwyliadau'r swydd yn cydnabod y gwaith a wneir eisoes gan grwpiau – mae llawer ohono wedi cymryd blynyddoedd i'w ddatblygu, ac wedi golygu cryn dipyn o drafod gofalus iawn;*
- *Gallai'r ariannu effeithio ar waith partneriaeth a chysylltiadau lleol – caiff rhai grwpiau eu hariannu trwy'r awdurdod lleol/gwasanaethau cymdeithasol a fyddai'n falch iawn o beidio gorfod darparu arian ar gyfer gwasanaethau plant;*
- *Mae'r raddfa gyflog yn tanbrisiu gwaith gyda phlant a phobl ifanc, a'r bobl sy'n ei wneud;*
- *Cytunai grwpiau hefyd y gellid gwneud gwell defnydd o'r arian, ac y byddai'n fwy cost effeithiol i dalu'r grwpiau'n uniongyrchol am 7 awr o waith. Ni fyddai costau ychwanegol na chostau trafnidiaeth, ac ni fyddai angen darparu cyfrifiadur a ffôn symudol, ac ni fyddai gwasanaethau'n cael eu dyblygu'n ddiangen."*

Er mwyn sicrhau bod rôl y Gweithwyr Plant Rhanbarthol yn diwallu anghenion grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, trefnodd Cymorth i Fenywod Cymru ymarferiad adborth a dadansoddiad SWOT ym mhob cyfarfod rhanbarthol a gynhaliwyd â'r grwpiau (ganol 2007) er mwyn trafod y defnydd gorau o'r adnodd newydd hwn. Casglwyd canlyniadau'r ymarferiad hwn a'u cyflwyno i'r grwpiau, ac mae ar gael o hyd ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru (yn yr ardal ar gyfer aelodau'n unig). Yr elfennau cyffredin a osodwyd fel y flaenoriaeth gyntaf o fewn y cynlluniau gweithredu cyfatebol.

Mae rôl Gweithwyr Plant Rhanbarthol yn amrywio'n fawr gan mai'r galw lleol sy'n ei yrru. Bu rhai ohonynt yn datblygu deunyddiau y gall grwpiau lleol Cymorth i Fenywod eu defnyddio (e.e. 'Pecynnau Setlo i Mewn' a phecynnau 'Popeth sydd angen i chi ei wybod') sydd bellach yn cael eu dosbarthu trwy Gymru gyfan. Mae eraill ohonynt yn gwneud llawer o waith ymarferol gyda phlant mewn llochesau, ac eraill yn cydweithio'n agos â phartneriaid (e.e. gwaith cefnogi a chodi ymwybyddiaeth mewn ysgolion). Ar y gorau, caiff hwn ei weld fel adnodd hyblyg ac ymatebol i ddiwallu anghenion lleol; ond ceir awgrym nad yw'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol ond yn gwneud yr hyn y mae grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn ei ganiatáu neu ei gymeradwyo, yn hytrach na wynebu anghenion lleol.

### **Darparwr Cefnogaeth Achrededig (ASP)**

Fel y dywed dogfen LICC, 'Cefnogi Pobl yng Nghymru: Achredu Darparwr Cefnogaeth': *Ni ddylai cyrff achrededig gytundebu unrhyw ran o wasanaeth a ariannwyd â grant, oni bai, neu nes iddo gael ei fodloni y gall y contractwr gynnig, at lefel dderbyniol, y gwasanaeth penodedig a nodwyd yn Nhrefniadau Grant Refeniw Cefnogi Pobl*" (LICC). Bydd y rôl newydd hon yn rhoi'r gallu i Gymorth i Fenywod Cymru i atal y cyllid i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod pe bernid bod eu safonau yn annerbyniol.

Dengys y ffaith bod saith o grwpiau lleol sy'n aelodau wedi dewis Cymorth i Fenywod Cymru yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig bod mwy na 20% y grwpiau yn parchu'r sefydliad ac yn ymddiried ynddo. Dyma'r manteision penodol i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n cytuno i Gymorth i Fenywod Cymru fod yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig iddynt:

- *"Isadeiledd sy'n cefnogi eich grŵp;*
- *Ymagwedd o Bartneriaeth;*
- *Cefnogaeth ac Arweiniad;*
- *Dod â Chymorth i Fenywod Cymru yn agos at y grwpiau; llywio polisïau ac adnabod bylchau o fewn y ddarpariaeth;*
- *Darparwr Cefnogaeth Achrededig gyda gwybodaeth a phrofiad perthnasol i'r materion dan sylw;*
- *Cefnogaeth gyda materion – gan roi amser i chi i wneud eich gwaith;*
- *Tîm o weithwyr cefnogi wrth gefn"* (Gwefan Cymorth i Fenywod Cymru, 2008).

Trafodir ymhellach rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig mewn penodau dilynol (gweler Penodau 4 - 7).

## Tensiynau

Tua diwedd yr haf y llynedd, bu Cyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Cymru ac aelodau allweddol y tîm cenedlaethol yn hyrwyddo gweithdai gyda staff o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod er mwyn trafod yr hyn y dymunai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ei gael gan Gymorth i Fenywod Cymru a beth a ddisgwylid o ran lefelau gwasanaeth. Rhoddwyd i'r tîm ymchwil nodiadau o'r digwyddiadau hyn a ddangosai wrthddywediadau cynhenid o fewn yr ymateb. Er enghraifft, roedd gwahanol farn ynglŷn â rôl Gweithwyr Plant Rhanbarthol, rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig, ac os dylai Cymorth i Fenywod weithio er mwyn galluogi menywod i aros yn eu cartrefi yn hytrach na dibynnu'n unig ar wasanaethau'r lloches. Dywedodd rhai a gymerodd ran hefyd eu bod yn bryderus y gallai rhai o fewn y mudiad fod yn feirniadol ohonynt am gydweithio â phartneriaid allanol. Dangosai rhai awydd am newid ar raddfa fawr (e.e. newid o fod yn gyd-gyfrifol i fod yn hierarchaeth<sup>19</sup>, cyfuno yn grwpiau rhanbarthol neu wneud rhagor o gydlynu a chydweithio'n rhanbarthol, a gweithio gyda dynion) (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007d)<sup>20</sup>. Mae'r gwrthddywediadau hyn o fewn y mudiad yn gwneud rôl corff cynrychioliadol yn fwy o her.

Fel y nodwyd ym Mhennod 2, mae Strategaeth Genedlaethol Cymru Gyfan yn datgan yn glir y gall menywod a dynion ddiodeff cam-drin domestig. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn herio hynny. Dywed Cymorth i Fenywod Cymru yn glir: *"Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn awgrymu y dylid diffinio camdriniaeth a thrais yn y cartref yn rhyw-benodol. Nid yw diffiniad presennol LICC o gam-drin domestig yn ei ystyried yn gamdriniaeth rhyw-benodol sy'n ymwneud â grym a rheolaeth un rhyw (dynion) yn erbyn rhyw arall (menywod)"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008 tud.5). Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn canolbwyntio ar fenywod, ac mae hynny'n gwbl sylfaenol i ethos, diwylliant galwedigaethol, ac athroniaeth y sefydliad. Dyna pam y rhoddwyd yn hanesyddol i'r rheolaeth strwythur cyfunol yn hytrach na hierarchaidd. Felly, ni ellir gorbwysleisio pwysigrwydd y mater hwn, yn y modd y mae'n mynd 'yn syth at galon' Cymorth i Fenywod Cymru.

Er hynny, teimlai oddeutu hanner y gweithwyr o'r llochesau bod angen gweithio gyda dynion er mwyn atal camdriniaeth, herio agweddau ac ymddygiad, a darparu modelau rôl gwrywaidd cadarnhaol. Teimlai mwy na chwarter y gweithwyr bod angen rhagor o wasanaethau ar gyfer dynion sy'n diodeff cam-drin domestig. Fodd bynnag, roedd teimlad cryf ymhlith nifer fechan o'r gweithwyr bod mai ar gyfer menywod yn unig yr oedd Cymorth i Fenywod Cymru ac mai eu cryfder pennaf oedd eu bod yn darparu

---

<sup>19</sup> Wrth ddathlu llwyddiannau, dywedai llawer bod y symudiad o fod yn gyd-gyfrifol i fod yn hierarchaeth yn llwyddiant, tra dywedai eraill bod eu statws o fod yn gyd-gyfrifol yn achos dathlu (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007d)

<sup>20</sup> Mae'n anodd nodi canrannau



gwasanaethau i fenywod (a phlant) gan fenywod. Yn ogystal â delio ag angen canfyddedig, teimlai grwpiau lleol eu bod dan bwysau o du cyllidwyr eraill (e.e. awdurdodau lleol) i ddarparu gwasanaethau ar gyfer dynion. Soniodd rhai eu bod wedi colli cyfleoedd i gael arian ar gyfer gwasanaethau ar gyfer dynion a menywod am nad oeddent yn dymuno gwanhau eu cysylltiad â Chymorth i Fenywod Cymru.<sup>21</sup>

Fel y nodwyd mewn Penodau blaenorol, er bod y ddogfennaeth yn mynnu y dylid ei wahardd ni cheir consensws ynglŷn â'r modd y dylai Cymorth i Fenywod Cymru ddelio â dynion, un ai fel dioddefwyr, troseddwr neu gydweithwyr/cynghorwyr.

## Casgliad

Ymddengys mai teg yw dweud bod y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn gymhleth - yn aml yn braf ac effeithiol, weithiau yn llai felly. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn diwallu anghenion llawer o grwpiau lleol sy'n aelodau ac sy'n croesawu eu cefnogaeth o ran cyngor, arweiniad, hyfforddiant, ymgyrchu a'r cymorth a ddarperir gan Weithwyr Plant Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae diffyg cyfraniad gan rai grwpiau lleol sy'n aelodau, a'r arwyddion o aneffeithiolrwydd a chamymddwyn yn codi pryderon difrifol ac yn cyfyngu ar Gymorth i Fenywod Cymru fel corff cenedlaethol. Mae'n faes cynyddol filain i weithio ynddo, a bydd gallu Cymorth i Fenywod Cymru i arwain grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i fod yn gystadleuol ac i fod y darparwr y bydd pobl yn ei ddewis yn hanfodol i lwyddiant y mudiad. Heblaw hynny, mae angen i Gymorth i Fenywod Cymru gael un llais er mwyn iddo fod yn gorff cynrychioliadol cryf. Mae angen sicrwydd ansawdd a gweithredu cyson, yn arbennig gan gyllidwyr. Mae'n rhy gynnar i allu gwneud sylwadau ynglŷn â pha effaith a gafodd rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig ar eu perthynas â'r grwpiau sy'n aelodau. Ond yn anochel, bydd hyn o leiaf yn newid natur y cydweithio gyda'r aelodau hynny sydd wedi eu dewis hwy yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig.


---

<sup>21</sup> Mae llinell gymorth cam-drin Domestig Cymru Gydan yn ddarparu gwasanaeth di-duedd o ran rhyw. Caiff dynion sy'n galw'r Llinell Gymorth Genedlaethol bellach eu cyfeirio at wasanaeth newydd, llinell gymorth Dyn Cymru (Ffôn: 0808 801 0321), a gaiff ei chyllido gan LICC ac a gychwynwyd yn swyddogol fis Mawrth eleni, ond a fu'n gweithredu fel menter beilot ers Chwefror 2006. Mae'n darparu cefnogaeth sylfaenol a gwybodaeth i ddynion dros Gymru gyfan – yn cynnwys dynion heterorywiol, hoyw, deurywiol, a thrawsrywiol – sy'n dioddef cam-drin domestig.

## 4. Y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae LICC yn ail-gadarnhau'r pwysigrwydd a roddir ar y trydydd sector o fewn 'Y Trydydd Dimensiwn', gan gydnabod bod sefydliadau gwirfoddol yn *"gaffaeliad mawr ac yn rym ar gyfer gwelliant - yn herio, ategu ac ymestyn y rolau a gyflawnir gan y sectorau cyhoeddus a phreifat"* (LICC, 2008b tud.10).

Tabl 3: Tri chylch diddordeb LICC yn y trydydd sector



[Ffynhonnell LICC, 2008b tud.17]

Ar yr olwg gyntaf, ceir perthynas gymhleth rhwng LICC a'r trydydd sector yn gyffredinol. Mae'n cynnwys:

- *"cyfnewid data a gwybodaeth;*
- *rhannu safbwyntiau trwy amrywiol drefniadau ymgynghori;*
- *cyd-gynllunio, dylunio, monitro a gwerthuso rhaglenni a chynlluniau;*
- *cyllido gwasanaethau cefnogi cyffredinol ac arbenigol;*

- *cyllido sefydliadau unigol y trydydd sector yn uniongyrchol ac anuniongyrchol mewn amryw o feysydd pwnc;*
- *cael ystod gynyddol o wasanaethau cyhoeddus o ffynonellau allanol;*
- *diddordeb cyffredin yn y modd y mae awdurdodau cyhoeddus, cyrff a noddir gan Lywodraeth y Cynulliad, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, y Gymuned Ewropeaidd ac awdurdodau cyhoeddus eraill yn rhyngweithio â'r trydydd sector; dulliau amryw o brif gyllidwyr y trydydd sector ... ac yn y blaen” (LICC, 2008b tud.17).*

Yn y Bennod hon ystyriwn y berthynas rhwng LICC a Chymorth i Fenywod Cymru. Trafodwn yn benodol drefniadau cyllido, monitro ac adrodd, a chyfathrebu cyffredinol.

## Cyllido

Mae cyllido cyhoeddus, trwy LICC, yn parhau i fod yn brif ffynhonnell gyllido'r sefydliad. Mae'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol o fewn LICC yn cyllido tri maes penodol: Cyllid craidd; Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan, a'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol.


**Tabl 4: Cyllid LICC 2007/08 a 2008/09**

	<b>2007/08</b>	<b>2008/09</b>
<b>Cyllid craidd</b>	357,185	367,901
<b>Llinell Gymorth</b>	334,410	404,410
<b>Gweithwyr Plant Rhanbarthol</b>	249,490	246,950
<b>Cyfanswm Cyllid LICC (£)</b>	<b>941,085</b>	<b>1,019,261</b>

Telir yr arian yn chwarterol trwy bedwar swm cyfartal ar ôl derbyn ffurflen 'Adroddiad o Gynnydd Chwarterol a Chais am Grant' (ceir manylion isod am y gofynion o ran adrodd a monitro).

Dylid nodi bod grwpiau lleol Cymorth i Fenywod hefyd yn derbyn cyllid sylweddol gan LICC trwy'r Fframwaith Cefnogi Pobl (gweler Tabl 1 uchod a Ffigur 6 isod).

Ffigur 6: Ffrydiau cyllido



Dengys Ffigur 6 uchod y gwaethgir cymhlethdod y berthynas gan y gofynion cyllido a'r rheolau cysylltiedig (a drafodir ymhellach ym Mhennod 7).

Dynodir cyllid craidd Cymorth i Fenywod Cymru fel cyllid ar gyfer swyddi staff. Ers mis Mawrth 2008 mae hyn wedi cyfateb i 10 swydd llawn amser (gweler Ffigur 9)<sup>22</sup>. Nid yw Adran Diogelwch Cymunedol LICC yn gosod yn rhagonodi o ran natur a chylch gwaith y rolau hyn; ond trafodir, ar y cyd yn y cyfarfodydd monitro chwarterol unrhyw newidiadau i'r strwythur staff. (Trafodir rôl a swyddogaeth gweithwyr Cymorth i Fenywod Cymru ym Mhennod 6).

Ceisir arian ar gyfer adeiladau ac adnoddau (megis offer TG) o fannau eraill. Mae BIG a Comic Relief ymhlith y cyllidwyr cynradd eraill. Yn ychwanegol, llwyddodd Cymorth i Fenywod Cymru i gael (symiau llai o) arian o nifer o ffynonellau'r sector preifat (e.e. Banc Barclays a Lloyds TSB).

Clustnodwyd arian y Gweithwyr Plant Rhanbarthol ar gyfer un Cydlynedd a saith Gweithiwr Plant Rhanbarthol. Pwrpas yr arian hwn oedd "*caniatáu rhywfaint o waith uniongyrchol gyda phlant a phobl ifanc yn rhanbarthol*" (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007). (Trafodir rôl a swyddogaeth y Gweithwyr Plant Rhanbarthol ym Mhennodau 6 a 7).

Ar hyn o bryd, mae Llinell Gymorth Genedlaethol Cymru yn darparu cefnogaeth 24 awr, am ddim, yn Gymraeg a Saesneg, i fenywod, dynion a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn derbyn swm penodol er mwyn cynnal y Llinell Gymorth. Codwyd y swm hwn yn sylweddol ym mis Ionawr 2007 (dynodwyd £250,000 ychwanegol ar gyfer 2006/09) er mwyn galluogi'r Llinell Gymorth i fod ar gael am 24 awr y dydd, bob dydd o'r flwyddyn. Cyn hynny, roedd ar gael am 12 awr y dydd yn unig. (LICC, 2007a).

## Trefniadau Adrodd

Mae Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn derbyn arian trwy wahanol adrannau o fewn LICC. Cant eu harchwilio felly gan ddwy o Gyfarwyddiaethau gwahanol y Cynulliad a dwy Weinyddiaeth wahanol (sy'n perthyn i ddwy blaid wleidyddol wahanol). O bosibl nad yw hyn yn syndod o gofio natur amlochrog cam-drin domestig a'r cylch eang o faterion y mae'n eu cyffwrdd.

---

<sup>22</sup> Cyn y dyddiad hwn, roedd LICC yn darparu cyllid craidd a glustnodwyd fel cyllid ar gyfer 15 o swyddi yn y swyddfa genedlaethol, ond dadleuai Cymorth i Fenywod Cymru nad oedd y cyllid yn ddigonol ond ar gyfer llai na 15 o swyddi. (Manyleb yr Ymchwil)

Ers mis Ionawr 2008, disgwylir i LICC gyflwyno tair ffurflen 'Adroddiad o Gynnydd Chwarterol a Chais am Grant' wahanol ar gyfer y tair ffrwd gyllido sy'n rhoi arian iddynt. Cyn hynny, roedd Cymorth i Fenywod Cymru yn cyflwyno un 'Adroddiad o Gynnydd Chwarterol a Chais am Grant' ar gyfer ei holl waith. Mae'r adroddiadau hyn yn cynnwys manylion am y prosiectau a'r gwaith sydd wedi ei wneud yn bosibl trwy ffrydiau cyllido eraill (er enghraifft, y prosiect achredu). Yn ychwanegol, disgwylir i Gymorth i Fenywod Cymru ddarparu adroddiadau a archwiliwyd yn annibynnol ac a gyhoeddwyd yn flynyddol.

Dangosodd adolygiad o ddogfennau bod mwy o strwythur i'r adroddiadau chwarterol ers Ionawr 2008, a bod mwy o fanylion ynddynt. (Arferent fod ar gyfartaledd yn ddogfennau 1 dudalen yn dangos yr holl gyllid, ond maent bellach yn cynnwys o leiaf ddwy dudalen o destun strwythuredig ar gyfer pob ffrwd cyllido).

Ceir tair adran adrodd yn y ffurflen 'Adroddiad o Gynnydd Chwarterol a Chais am Grant':

- Cynnydd y prosiect hyd yma;
- Canlyniadau;
- Gwiriadau a phroblemau.

Hyd yma, bu'r wybodaeth am 'ganlyniadau' naill ai'n anghyflawn neu'n gyfyngedig i ddisgrifiadau o weithgareddau. Yn gyffredinol, byr neu anghyflawn fu'r wybodaeth am 'wiriadau a phroblemau' hefyd.

Fodd bynnag, yn ychwanegol at yr 'Adroddiad o Gynnydd Chwarterol a Chais am Grant', ceir cyfarfod cynhwysfawr rhwng aelodau allweddol yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol a Chyfarwyddwr a Rheolwr Cyllid a Busnes Cymorth i Fenywod Cymru.

Mae dosbarthiad cyllid i'r gwasanaethau cam-drin domestig yng Nghymru yn enfawr. Er bod Cymorth i Fenywod Cymru yn derbyn oddeutu traean o gyllideb cam-drin domestig Adran Diogelwch Cymunedol LICC, rhan fechan yw hynny o gyllideb gyfan LICC ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig. Pe byddai LICC yn rhoi un grant ar gyfer y gwasanaethau cam-drin domestig, byddai maint y grant hwnnw yn golygu atebolrwydd mawr a llawer iawn mwy o graffu. Ond er hynny, o gymharu â gofynion monitro ac adrodd eraill LICC a chyrrff tebyg (e.e. Adran Cymunedau a Llywodraeth Leol, ac awdurdodau lleol) mae'r trefniant hwn yn llai caeth.

Mae Adran Diogelwch Cymunedol LICC yn ymwybodol bod trefniadau atebolrwydd Cymorth i Fenywod Cymru yn wan, ac mae wedi gofyn i'r sefydliad ddatblygu Cynllun

Busnes fel man cychwyn ar gyfer gwella'r sefyllfa hon. Mae Cynllun Busnes drafft yn cael ei baratoi.

## Cyfathrebu

Dywed yr Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol fod y berthynas rhyngddi a Chymorth i Fenywod Cymru yn gref, ac yn cael ei nodweddu gan gyfarfodydd ar gynnydd rheolaidd sy'n sicrhau cyswllt a chyfathrebu cyson, cyfarfodydd ddwywaith y flwyddyn gyda'r Gweinidog, cefnogaeth i wybodaeth am anghenion/ceisiadau LICC, a chynrychiolaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru ar weithgorau LICC<sup>23</sup>. (Am ragor o wybodaeth, gweler Pennod 7). Er hynny, y mae LICC cyn hyn wedi mynegi pryder na roddodd Cymorth i Fenywod Cymru wybod iddi am gyhuddiadau difrifol yn erbyn aelodau o staff Cymorth i Fenywod Cymru.

Un o argymhellion y Strategaeth (LICC, 2005) yw bod "asiantaethau / sefydliadau / cyflogwyr unigol yn glynu wrth 'y safonau gofynnol'." Fel y nodwyd ym Mhennod 3, mae Adran Diogelwch Cymunedol LICC a'r Gyfarwyddiaeth Dai wedi mynegi pryderon ynglŷn â'r berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, yr amrywiaeth yn lleol o ran safonau, a phryderon difrifol ynglŷn ag ansawdd y ddarpariaeth gwasanaeth a ddarperir gan ychydig iawn o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Ategwyd y pryder hwn yn y mwyafrif o'r cyfweiliadau â staff awdurdodau lleol (yn cynrychioli timau Cefnogi Pobl) a sefydliadau partner. Mae LICC yn disgwyl i Gymorth i Fenywod Cymru fynd i'r afael â'r mater hwn.

Mae LICC eisiau i Gymorth i Fenywod Cymru weithredu fel corff cenedlaethol a chynrychioli'r mudiad. Gwelir enghraifft ddiweddar o fethiant Cymorth i Fenywod Cymru i wneud hyn gyda Chynulliad Cenedlaethol Cymru lle teimlodd o leiaf naw o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod angen i ymateb i alwad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru am dystiolaeth (Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 2008) yn ychwanegol at, ac yn annibynnol ar Gymorth i Fenywod Cymru. Eto, mae mwyafrif yr ymatebion annibynnol hyn yn datgan eu cefnogaeth i'r dystiolaeth a'r argymhellion a gyflwynwyd i'r pwyllgor gan Gymorth i Fenywod Cymru (fel y nodir eto ym Mhennod 7).

---

<sup>23</sup> yn fwyaf arbennig Gweithgor Camdriniaeth y Cartref Cymru Gyfan

## **Casgliad**

Mae darnio'r ffrydiau cyllido ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig wedi arwain at drefniadau atebolrwydd llai ar gyfer sefydliadau yn cynnwys Cymorth i Fenywod Cymru. Y mae cynlluniau ar droed i wella atebolrwydd Cymorth i Fenywod Cymru.

Mae LICC yn cyllido Cymorth i Fenywod Cymru er mwyn helpu'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion strategol ar gyfer camdriniaeth y cartref. Mae LICC yn gobeithio dylanwadu ar Gymorth i Fenywod Cymru er mwyn datblygu yn y modd y mae LICC yn credu fydd yn galluogi Cymorth i Fenywod Cymru orau i wneud hyn. Er bod Cymorth i Fenywod Cymru yn barod i wneud y newidiadau angenrheidiol (e.e. darparu un llais ar gyfer y mudiad, cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer pob grŵp lleol Cymorth i Fenywod) cyfyngwyd ei allu i wneud hynny gan y diffyg dylanwad sydd ganddo dros grwpiau lleol Cymorth i Fenywod.



## 5. Trefn llywodraethu

---

Trefn llywodraethu gorfforaethol yw'r fframwaith atebolrwydd i ddefnyddwyr gwasanaeth, rhanddeiliaid a'r gymuned ehangach, y mae sefydliadau yn cydweithio a gwneud penderfyniadau ac arwain a rheoli eu gwaith o'i mewn, er mwyn cyflawni eu hamcanion. Mae effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu corfforaethol yn cael dylanwad mawr ar ba mor dda y bydd sefydliadau'n cyflawni eu hamcanion. (NLIAH, 2007)

Yn ymarferol, bydd y ffordd y mae sefydliadau'n 'llywodraethu' yn wahanol, yn dibynnu ar ffactorau sy'n gallu cynnwys maint sefydliad, ers faint y mae'n bodoli, a'r diwylliant a'r gwerthoedd sydd ganddo.

Yn y Bennod hon, archwiliwn addasrwydd ac effeithlonrwydd trefniadau llywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru. Trafodwn yn benodol gyfansoddiad, rôl, cyfrifoldebau, ffurf a dewis y bwrdd gweithredol a'r awdurdod dirprwyedig.

Er mwyn gwneud sylw ynglŷn ag addasrwydd ac effeithiolrwydd trefniadau llywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru, yr ydym wedi cymharu ein casgliadau â Chod Llywodraethu y trydydd sector a ddatblygwyd ar y cyd gan Gymdeithas Prif Weithredwyr Sefydliadau Gwirfoddol (ACEVO)<sup>24</sup>, Cyngor Cenedlaethol Sefydliadau Gwirfoddol (NCVO), y Comisiwn Elusennau, a grwpiau ymbarél eraill (ACEVO, 2005)<sup>25</sup>.

### Cyfansoddiad

Cofrestrwyd Cyfansoddiad gwreiddiol Cymorth i Fenywod Cymru ym 1982. Fel y nodir yn y Cyfansoddiad, mae gan Gymorth i Fenywod Cymru Fwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a pholisi'r sefydliad. Mae arfer da'n datgan "y dylai ymddiriedolwyr ganolbwyntio ar gyfeiriad strategol eu sefydliad, ac osgoi ymwneud â materion a phenderfyniadau gweithredol pob dydd" (ACEVO, 2005). (Caiff y cyfrifoldeb am reolaeth pob dydd y sefydliad ei ddirprwyo i'r Cyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli, a thrafodir hynny ym Mhennod 5).

---

<sup>24</sup> ACEVO yw'r corff proffesiynol ar gyfer prif weithredwyr y trydydd sector, ac mae ganddo dros 2000 o aelodau

<sup>25</sup> Datblygwyd y cyfarwyddyd mewn ymateb i'r astudiaeth ymchwil ar 'Rethinking Governance' a wnaed gan ACEVO yn 2003. Dangosodd honno nad oedd gan fwyafrif byrddau'r trydydd sector yn y Deyrnas Unedig y sgiliau allweddol, na'r ymrywmiad i wella eu perfformiad eu hunain; a bod awydd mawr ymhlith Prif Weithredwyr am agwedd fwy proffesiynol at reolaeth.


Ers 1982, gwnaed sawl newid i'r Cyfansoddiad. Cyflwynwyd y newidiadau mwyaf diweddar oherwydd bod angen rhagor o atebolrwydd o du grwpiau lleol annibynnol Cymorth i Fenywod i'w gilydd ac i gyllidwyr. Roedd angen y newidiadau diweddaraf i'r Cyfansoddiad wedi i Gymorth i Fenywod Cymru ddod yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig. Cwblhawyd y newidiadau ym mis Mawrth 2007. Addaswyd y Cyfansoddiad er mwyn ymgorffori'r ffaith y bydd angen i Gymorth i Fenywod Cymru, fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig, sicrhau bod ganddo'r gallu i ymchwilio i unrhyw gwynion ynglŷn â'r grwpiau, a sicrhau bod ganddo ddarpariaeth ar gyfer cynnig gwasanaeth safonol.

Cytunwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym 1993 y câi unrhyw newidiadau i'r Cyfansoddiad eu cofrestru'n flynyddol.

### **Rôl y Bwrdd Gweithredol**

Mae Ffigur 7 yn dangos cyfansoddiad presennol y Bwrdd Gweithredol

**Ffigur 7: Cyfansoddiad y Bwrdd Gweithredol**



**Allwedd**

- Staff a etholwyd o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau
- Cadeirydd a etholwyd o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau
- Aelod allanol
- Staff Cymorth i Fenywod Cymru
- Staff a etholwyd o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau, fel dirprwy

Dywed y Cyfansoddiad: *"Bydd gan y Gymdeithas Fwrdd Gweithredol a fydd yn cynnwys dwy gynrychiolwraig a benodwyd gan y grwpiau sy'n aelodau o bob un o bedwar rhanbarth Cymru (Gogledd Cymru, Canolbarth Cymru, De Orllewin Cymru a De Ddwyrain Cymru). Bydd gan bob un o'r pedwar rhanbarth hawl i enwebu dwy gynrychiolydd a dwy i fod yn ddirprwyon, a dewisir hwy trwy broses o enwebu a phleidleisio (ar sail un grŵp un bleidlais) ym mhob rhanbarth"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007c, tud.8)

Yn ychwanegol, *"Bydd y Bwrdd Gweithredol hefyd yn cynnwys hyd at dri pherson allanol, a gaiff eu recriwtio a'u dewis gan y cynrychiolwyr sy'n aelodau o'r Bwrdd Gweithredol a Chadeirydd y Bwrdd Gweithredol ar sail eu sgiliau, gwybodaeth a'u profiad penodol"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007c, tud.8).

Dywed y Cyfansoddiad *"mai dim ond cynrychiolwyr penodedig aelodau'r gymdeithas, a etholwyd yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol, fydd â'r hawl i fod yn aelodau o'r Bwrdd Gweithredol gyda hawl pleidleisio. Bydd Cadeirydd a thri aelod allanol y Bwrdd Gweithredol yn aelodau heb hawl pleidleisio neu'n bobl a gyfetholwyd.."* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007c, tud.9).

Mae'r Cyfansoddiad yn caniatáu i *"fenywod sy'n arsylwyr, a swyddogion llawn amser y gymdeithas, fod yn arsylwyr yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol ar wahoddiad y Bwrdd. Ni fydd dynion yn gymwys i'w hethol i'r Bwrdd Gweithredol nac i fynychu fel arsylwyr."*

Cafodd yr arfer o atal dynion rhag mynychu'r cyfarfodydd ei gwestiynu gan o leiaf ddau o'r aelodau gweithredol a deimlai y gallai dynion mewn rhai amgylchiadau gynnig cyngor gwerthfawr a bod yn ffynhonnell wybodaeth dda (manylir ar y mater hwn ym Mhennod 9).

Yn arferol, roedd pedwar o swyddogion staff Cymorth i Fenywod Cymru hefyd yn mynychu'r cyfarfodydd, yn cynnwys:

- Y Cyfarwyddwr;
- Y Rheolwr Busnes a Chyllid;
- Aelod o'r Staff Gweinyddol (cofnodydd);
- Rheolwr Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan (WDAH) (sy'n mynychu ers Tachwedd 2007).

Ar brydiau, gofynnir i staff Cymorth i Fenywod Cymru adael y cyfarfodydd pan fydd y Bwrdd Gweithredol eisiau trafod busnes cyfrinachol.

Dywed y Cyfansoddiad, er mwyn cynorthwyo'r rhanbarthau i enwebu aelodau i'w cynrychioli ar y Bwrdd Gweithredol, bod y Bwrdd Gweithredol yn darparu disgrifiad swydd aelod o'r Bwrdd ar gyfer grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, ynghyd â rhestr o'r sgiliau a'r wybodaeth y mae'r Bwrdd eu hangen er mwyn cyflawni ei ddyletswyddau, a hefyd awgrym o unrhyw sgiliau neu wybodaeth benodol y mae'r Bwrdd angen eu cryfhau ar y pryd. Mae'r broses hon yn sicrhau bod cynrychiolwyr enwebedig yn ategu'r cymysgedd o sgiliau a gwybodaeth a geir o fewn y Bwrdd. Mae hefyd yn gyson â chyfarwyddyd arfer da sy'n annog *"y dylai recriwtio ymddiriedolwyr newydd fod yn agored, ac yn canolbwyntio ar greu Bwrdd amrywiol ac effeithiol"* ac *"y dylai ymddiriedolwyr feddu ystod eang o sgiliau, profiad a gwybodaeth sydd eu hangen i reoli'r sefydliad yn effeithiol"* (ACEVO, 2005). Fodd bynnag, yn hanesyddol, ni fu'r Bwrdd Ymddiriedolwyr yn llawn, ac felly ni ddigwyddodd y broses hon. Dywedodd Cymorth i Fenywod Cymru wrth y tîm ymchwil mai *"ei flaenoriaeth fu llenwi'r seddi gwag a sicrhau cynrychiolaeth gyfartal ar draws ein holl grwpiau aelodau ac ar draws Cymru, ac yna rhoi i'r cynrychiolwyr presennol hyfforddiant priodol i'w galluogi i reoli a gosod strategaeth"*. Felly, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi mabwysiadu trefn enwebu fwy agored.

Yn ymarferol, nid oes gan y rhanbarthau yn aml ond un dirprwy gan fod ar brydiau brinder o ymgeiswyr (am resymau a drafodir isod). Os daw sedd cynrychiolydd sydd sy'n aelod o'r Bwrdd yn wag yn ystod y flwyddyn, ac nad oes dirprwy i'w gael, gofynnir i'r rhanbarth perthnasol gynnig cynrychiolydd arall i fod yn aelod o'r Bwrdd.

Roedd mwyafrif y rhai a holwyd (yn cynnwys staff grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a chynrychiolwyr) yn cydnabod y cafwyd, mewn blynyddoedd blaenorol, achosion o wrthdaro buddiannau o fewn y bwrdd a fu'n rhwystr i'r sefydliad wneud penderfyniadau pwysig a delio â phroblemau difrifol. Mae cyfarwyddyd arfer da yn nodi *"y dylai ymddiriedolwyr ddynodi a datgan ar unwaith unrhyw wrthdaro buddiannau posibl neu real sy'n effeithio arnynt hwy"* (ACEVO, 2005). Soniodd rhai a holwyd bod rheolau a chyfarwyddyd wedi eu tynhau, a'r gynrychiolaeth wedi ei newid dros y blynyddoedd diweddaraf, a'u bod hwy o'r farn y byddai'r materion hyn yn llai tebygol o ail godi yn y dyfodol. Fodd bynnag, teimlai oddeutu hanner y rhai a atebodd y gellid gwella'r sefyllfa hon trwy gydbwysu'r Bwrdd Gweithredol gyda rhagor o gynrychiolaeth allanol â hawliau pleidleisio.

Awgrymwyd cynrychiolaeth allanol ar y Bwrdd gyntaf oddeutu wyth mlynedd yn ôl, yn dilyn trafodaethau am wrthdaro buddiannau ar y Bwrdd ac arfer da o ran trefn lywodraethu. Ar y pryd, gwrthodwyd yr awgrym gan y Weithrediaeth. O'r diwedd, yn dilyn llawer o drafodaethau ac awgrymiadau eraill dros y blynyddoedd nesaf, newidiwyd y Cyfansoddiad yn 2006/07 er mwyn caniatáu aelodaeth o'r Bwrdd gweithredol i hyd at dri pherson allanol.

Y farn gyffredinol oedd bod yr aelodau allanol wedi gwella gwaith y Bwrdd Gweithredol trwy ddarparu cyngor a sylwadau diduedd. Ar hyn o bryd, nid oes gan yr Aelodau allanol hawl i bleidleisio. Roedd mwyafrif y rhai a holwyd (yn cynnwys aelodau gweithredol a chynrychiolwyr y grwpiau lleol) yn cwestiynu hyn, a byddent yn hoffi gweld y cyfansoddiad yn cael ei newid i ganiatáu hawl pleidleisio i'r aelodau allanol. Cyflwynir y cynnig hwn i'r Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi.

Ar hyn o bryd, mae gan y Weithrediaeth ddau aelod allanol. Mae'r ddau aelod allanol wedi gweithio i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn y gorffennol. Er bod sylwadau'r rhai a holwyd a dogfennau'r cofnodion yn dangos yn ddiamheuol bod yr aelodau allanol wedi ychwanegu gwerth at waith ac effeithiolrwydd y Bwrdd, ni ellid dadlau bod yr aelodau allanol yn wir aelodau allanol na'u bod heb eu gwrthdrawiad diddordeb posibl eu hunain. Roedd y bobl hyn yn gyfarwydd i'r Weithrediaeth, a chawsant eu gwahodd i ymuno â'r Weithrediaeth gan y Cyfarwyddwr ar y pryd, wedi trafod y mater gyda'r Bwrdd Gweithredol a chael cydsyniad y Bwrdd.

Yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol eleni, bydd y Black Association of Women Step Out (BAWSO) yn cyflwyno cynnig i gael cynrychiolaeth barhaol ar y Weithrediaeth o gofio nad yw'n grŵp lleol (Sefydliad gwirfoddol ar gyfer Cymru Gyfan yw BAWSO) a'i fod yn gallu cynnig gwybodaeth a phrofiad arbenigol ynglŷn â cham-drin domestig mewn cymunedau du a lleiafrifol ethnig.

Ar hyn o bryd, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnal dadansoddiad o sgiliau, ac mae wedi cyflwyno dogfennau ynglŷn â hynny i'r cynrychiolwyr. Adeg y gwerthuso, nid oedd canlyniadau'r broses hon ar gael.

Er gwaetha'r archwiliad sgiliau presennol ymhlith y Weithrediaeth, mae'n amlwg fod y Weithrediaeth ar ei helw o feddu profiad personol cryf o waith o fewn y mudiad. Ac eto, mae'n wan mewn ffyrdd eraill. Mae cyfarwyddyd ACEVO yn awgrymu angen am sail sgiliau eang. Yn achos Cymorth i Fenywod Cymru, byddem wedi disgwyl gweld, fan leiaf, gynrychiolaeth leyg o'r asiantaethau sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol, addysg a thai. Er enghraifft, byddai gwraig o ynad, pennaeth ysgol, cadeirydd cymdeithas tai, yn ychwanegu'n sylweddol at y posibilrwydd o ddeall cyd-destun polisi ehangach. Mae iechyd a gwasanaethau cymdeithasol yn feysydd eraill y gallai arbenigedd ar lefel y cyfarwyddwyr anweithredol fod yn ddefnyddiol iawn.

Mater arall eto yw bod mwyafrif y Bwrdd Gweithredol yn cynnwys gweithwyr yn y maes, gydag ond ychydig o aelodau allanol. Trefniant mwy defnyddiol fyddai i'r Bwrdd gael mwyafrif o'i ymddiriedolwyr o blith y grwpiau lleol: h.y. Gweithrediaeth o weithredwyr, a chyfyngu nifer y cynrychiolwyr o'r gwaith ei hun. Byddai lleihau nifer y cynrychiolwyr o'r grwpiau lleol (i un o bob rhanbarth, dyweder) yn ei gwneud yn bosibl i gael rhagor o bobl

anweithredol, a fyddai'n dod â golwg newydd ar lefel fwy strategol o bosibl nag a geir ar hyn o bryd. Byddai hyn hefyd yn cadarnhau'r symudiad a wnaed eisoes o fod yn Fwrdd Rheoli i fod yn Fwrdd Gweithredol.

Mynegodd amryw o randdeiliaid, yn cynnwys y rhai oedd â hanes o weithio gyda Chymorth i Fenywod Cymru, ac ochr yn ochr ag ef, ddiddordeb mewn bod yn aelod o Gymorth i Fenywod Cymru. Roedd dau yn ôl pob tebyg wedi gwneud ymholiadau cyn hynny ynglŷn â bod yn aelod, ac yn teimlo iddynt gael eu rhwystro gan yr ystyrid hwy yn "gystadleuwyr" yn hytrach na phartneriaid.

Adeg y Cyfansoddiad gwreiddiol, penderfynwyd nad oedd Cymorth i Fenywod Cymru eisiau "Llywydd", ac nid oedd eisiau rhoi pleidlais fwrw i'r Cadeirydd mewn cyfarfodydd Rheoli (sy'n cyfateb i'r Bwrdd Gweithredol heddiw). Mae Cadeirydd y Bwrdd Gweithredol, sy'n aelod o staff grŵp lleol Cymorth i Fenywod wedi bod yn ei swydd ers 2001. Nid oedd unrhyw strategaeth adnewyddu ar gyfer rôl y Cadeirydd. Trafodwyd hyd tymor gwasanaeth y Cadeirydd yng Nghyfarfod y Weithrediaeth yn Ionawr 2008, a barnwyd bod tymor o dair blynedd yn briodol, ond hyd yma ni newidiwyd y Cyfansoddiad.

Tair blynedd yw uchafswm hyd tymor gwasanaeth cynrychiolydd ar y Bwrdd Gweithredol. Wedi hynny, ni ellir enwebu'r person eto hyd nes y bydd dwy flynedd wedi mynd heibio. Mae hyn yn unol ag arfer da sy'n nodi "y dylai Bwrdd gael strategaeth ar gyfer ei adnewyddiad ei hun" (ACEVO, 2005). Yn ddiweddar, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi adolygu ac addasu ei drefniadau recriwtio ac adnewyddu ar gyfer y Bwrdd Gweithredol. Cyn hynny, roedd Cymorth i Fenywod Cymru yn recriwtio Aelodau gweithredol yr un pryd. Newidiwyd hyn er mwyn sicrhau na chollid y wybodaeth a'r profiad oedd gan y Weithrediaeth os byddai'r broses bleidleisio yn dod â newid mawr i'r aelodaeth. Dywed cyfansoddiad Cymorth i Fenywod Cymru yn awr:

- *"Ym mis Ionawr 2008 bydd dau Aelod o'r Bwrdd Gweithredol o wahanol ranbarthau yng Nghymru yn ymddiswyddo, ac yn eu lle daw dau aelod newydd o'u rhanbarthau i wasanaethu am dair blynedd;*
- *Ym mis Ionawr 2009, bydd tri Aelod arall o'r Bwrdd Gweithredol o wahanol ranbarthau yng Nghymru yn ymddiswyddo, ac yn eu lle daw tri aelod newydd o'u rhanbarthau i wasanaethu am dair blynedd;*
- *Ym mis Ionawr 2010, bydd tri Aelod arall o'r Bwrdd Gweithredol o wahanol ranbarthau yng Nghymru yn ymddiswyddo, ac yn eu lle daw tri aelod newydd o'u rhanbarthau i wasanaethu am dair blynedd".*

Roedd mwyafrif cynrychiolwyr y grwpiau lleol yn cofio rhwystrau rhag bod yn Aelod o'r Gweithrediaeth. Yn gyntaf, mae canran uchel o weithwyr grwpiau lleol Cymorth i

Fenywod ar gytundebau dros dro neu dymor sefydlog. Nid yw cynrychiolwyr yn gymwys i gael eu henwebu os na fuont yn aelodau o grŵp ers o leiaf chwe mis. Mae hynny'n aml yn golygu, erbyn y byddant yn gymwys i'w henwebu neu erbyn iddynt ennill parch ymhlith eu cydweithwyr, na allent wasanaethu ond am gyfnod byr cyn y deuai eu cytundeb i ben. Gallai'r ansefydlogrwydd hwn atal rhai pobl rhag pleidleisio drostynt. Yn ail, gall eu hamodau cyllido olygu y byddai'n rhaid iddynt roi o'u hamser rhydd eu hunain i baratoi ar gyfer cyfarfodydd ac i'w mynychu. Yn drydydd, adroddwyd nad oedd rhai grwpiau'n fodlon cefnogi aelod o'u grŵp i ymuno â'r Weithrediaeth am eu bod eisoes yn brin o staff ac na allant fforddio rhyddhau aelod o staff i fynychu cyfarfodydd ac/neu y byddai'n anodd iddynt sicrhau'r costau teithio i alluogi'r aelod i'w mynychu.

Dengys cofnodion cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol dros y flwyddyn ddiwethaf i fwy na 50% o'r cynrychiolwyr, ar fwy nag un achlysur, anfon ymddiheuriad a pheidio mynychu<sup>26</sup>. Ar yr adegau hynny, cytunwyd i gynnal trafodaethau ac i'r Cadeirydd gysylltu â'r aelodau oedd yn absennol i gael eu barn, a lle bo'n briodol, eu cytundeb ar gyfer unrhyw weithredu a drafodwyd. Yn ôl y Cyfansoddiad, *"ni ddylid gwneud unrhyw fusnes mewn unrhyw gyfarfod cyffredinol o'r gymdeithas oni bai bod cworwm o'r cynrychiolwyr penodedig yn bresennol wrth i'r cyfarfod symud i drafod busnes. Bydd angen un rhan o dair o nifer cynrychiolwyr penodedig yr aelodau i sicrhau cworwm"*. Mae'n debyg bod a wnelo'r materion a drafodwyd uchod â'r rhesymau dros yr absenoldebau hyn, yn ogystal â phwysau o fewn y swydd bresennol (er enghraifft, gall fod defnyddiwr gwasanaeth angen gweithiwr lloches ar ddydd y cyfarfod).

## Cyfrifoldebau

Mae'r Weithrediaeth yn cyfarfod o leiaf bob dau fis. Trefnir cyfarfodydd mwy rheolaidd pan fo angen.

Caiff aelodau newydd y Bwrdd Gweithredol sesiwn ymgynffwrdd er mwyn iddynt gael gwybod am eu cyfrifoldebau cyfreithiol, cynnwys y Cyfansoddiad, y Bwrdd a'r drefn ar gyfer gwneud penderfyniadau, rôl a strwythur y gwasanaethau, y cynllun busnes a pherfformiad ariannol diweddar. Mae hynny'n dilyn cyfarwyddyd arfer da sy'n annog *"ymddiriedolwyr i sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant ymsefydlu angenrheidiol"* (ACEVO, 2005). Yn ystod yr hyfforddiant ymsefydlu ceir cyfle i gyfarfod â gweithwyr allweddol ac aelodau eraill o'r Bwrdd.

---

<sup>26</sup> Y mwyaf arbennig y cyfarfod ym mis Medi 2007 lle yr oedd 5 cynrychiolydd yn bresennol a chafwyd ymddiheuriadau gan 6.



Mae cyfarwyddyd arfer da hefyd yn nodi “y dylai ymddiriedolwyr sicrhau eu bod yn derbyn yr hyfforddiant a’r gefnogaeth barhaus sydd ei hangen er mwyn cyflawni eu dyletswyddau” (ACEVO, 2005). Anogir y Bwrdd Gweithredol i gymryd rhan mewn digwyddiadau hyfforddi mewnol ac allanol sy’n datblygu eu sgiliau a’u gwybodaeth ar gyfer cyflawni eu rôl. Yn ystod y cyfweiliadau, cofiai amryw o Aelodau’r Bwrdd Gweithredol iddynt fynychu digwyddiadau hyfforddi diweddar Cymorth i Fenywod Cymru, yn fwyaf arbennig y sesiynau gweithdai ar reolaeth oedd wedi eu llunio a’u cyflwyno mewn partneriaeth â’r Comisiwn Elusennau.

Cymdeithas gyfeillgar gofrestredig sy’n cael ei llywodraethu gan ei chyfansoddiad, dyddiedig 1992, yw Cymorth i Fenywod Cymru. Fel cymdeithas gyfeillgar gofrestredig, mae’n adrodd i’r Awdurdod Gwasanaethau Ariannol (FSA). Mae’r Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gadw cofnodion cywir o’r cyfrifon sy’n dangos yn rhesymol fanwl beth yw cyflwr ariannol y sefydliad ar unrhyw adeg. Bydd y cyfrifon hefyd yn galluogi Cymorth i Fenywod Cymru i sicrhau bod yr adroddiadau ariannol yn cydymffurfio â Deddf Cymdeithasau Diwydiannol a Darbodus 1965 a Deddf Cymdeithasau Cyfeillgar a Diwydiannol 1968. Mae’r Bwrdd Gweithredol hefyd yn gyfrifol am ddiogelu asedau’r sefydliad, ac felly am weithredu er mwyn atal a datrys twyll ac anghysondebau eraill.

Rhwng mis Mai 2002 a Hydref 2005 cynhaliodd y Comisiwn Elusennau adolygiad o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn Lloegr (aelodau o Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr [WAFE]). Ysgogodd hyn ohebiaeth rhwng Cyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Cymru<sup>27</sup> a’r Comisiwn Elusennau<sup>28</sup>, ac anfonwyd nifer o lythyrau rhwng y naill i’r llall. Cychwynnodd Cymorth i Fenywod Cymru raglen o adolygiad a chefnogaeth fewnol i drefniadau llywodraethu ar gyfer grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yng Nghymru (gweler Pennod 7), a gefnogwyd gan weithiwr o’r Comisiwn Elusennau. Wrth wneud hynny, manteisiodd Cymorth i Fenywod Cymru ar gyfle i gael golwg fanwl ar drefniadau llywodraethu ei sefydliad ei hun. Adroddodd y rhai a holwyd fod yr Aelodau Gweithredol wedi cymryd eu cyfrifoldebau’n fwy o ddifrif wedi’r broses hon, gan fod ganddynt well dealltwriaeth o’u cyfrifoldebau personol fel ymddiriedolwyr.

## **Effeithiolrwydd**

Roedd pawb a holwyd yn hollol gadarn eu barn bod gwaith y Bwrdd Gweithredol wedi gwella’n sylweddol ers Gwerthusiad 2001 a chyflwyno strwythur hierarchaidd o fewn Cymorth i Fenywod Cymru. Teimlai pawb a holwyd bod y Bwrdd Gweithredol erbyn hyn yn fwy strategol ac effeithiol, a bod ganddo ffocws pendant. Er hynny, derbyniwyd fod

---

<sup>27</sup> Roedd y llythyr gwreiddiol gan Gyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Cymru wedi ei ddyddio 11 Gorffennaf 2006

<sup>28</sup> Roedd yr ymateb cyntaf gan y Comisiwn Elusennau wedi ei ddyddio 3 Awst 2006.

eto gyfleoedd i wella, er enghraifft, gallai rhai Aelodau Gweithredol ddwyn i gof drafodaethau a allasai fod wedi arwain at weithredu mwy pendant.

Cydnabu Adroddiad Blynyddol Cymorth i Fenywod Cymru 2006/07 y datblygiad hwn:

*"O'r blaen, roedd gennym rôl fwy 'ymarferol' o lawer, ond mae sefydlu'r tîm cenedlaethol a gosod y cyfrifoldeb am reolaeth pob dydd ar y Cyfarwyddwr, wedi golygu ein bod yn gallu datblygu fel Bwrdd"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007b, tud.1).

Adroddodd aelodau o'r tîm cenedlaethol a'r grwpiau lleol sydd wedi rhoi gwasanaeth hir, mai'r Weithrediaeth, adeg Gwerthusiad 2001, oedd hyd yn oed yn delio â manylion lleiaf y gwaith o ddydd i ddydd. Roedd hynny'n wastraff o amser cynrychiolwyr a staff cenedlaethol, ac yn rhwystr i weledigaeth a gallu'r sefydliad i weithio'n strategol. Adroddodd cyn-aelodau a hefyd aelodau presennol y Bwrdd Gweithredol y bu trefn lywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru yn hanesyddol yn hynod o anodd, o gofio i nifer o gyhuddiadau gael eu dwyn yn erbyn gweithwyr Cymorth i Fenywod Cymru. Er bod eto heddiw gyfleoedd i wella effeithiolrwydd gwaith y Weithrediaeth, mae'r Bwrdd yn gweithredu'n llawer mwy strategol ac effeithiol o ran ei weinyddiaeth.

Dangosodd Aelodau'r Bwrdd ac uwch weithwyr Cymorth i Fenywod Cymru nad oes unrhyw drefniadau ffurfiol ar gyfer gwerthuso Aelodau'r Bwrdd Gweithredol. Cadarnhaodd ein rhaglenni cyfworld a'r ymchwil desg a'i dilynodd nad yw hynny'n anarferol, a dangosai Adolygiad Trefn Lywodraethu 2003 (ACEVO 2005) mai dim ond 27% o sefydliadau'r trydydd sector sy'n gwneud gwerthusiad o Aelodau'r Bwrdd.

## **Cyfeiriad**

Strategaeth Fusnes 2006-09 Cymorth i Fenywod Cymru a Chynllun Gweithredol 2006/07 y sefydliad sy'n gyrru gweithgareddau presennol Cymorth i Fenywod Cymru. Dyma'r Cynllun Gweithredol mwyaf diweddar. Mae saith amcan i Gynllun Gweithredol 2006/07:

- i. Gweithredu'r strwythur cenedlaethol newydd ar gyfer rheoli Cymorth i Fenywod Cymru (gweler Pennod 6 ac isod);
- ii. Sicrhau bod Cymorth i Fenywod Cymru yn cael ei reoli'n effeithiol gydol y trosglwyddo ac wedi hynny, wrth iddo barhau i ddarparu ei wasanaethau craidd (a drafodir isod);
- iii. Galluogi a chefnogi'r gwaith ar gyfer y grwpiau sy'n aelodau (trafodir ym Mhenodau 3 a 7);

- iv. Gweithio er sefydlu darpariaeth ddigonol o loches dros dro a chefnogaeth pan ofynnir amdani, ar gyfer menywod a phlant sy'n dioddef cam-drin domestig, yn cynnwys gwasanaethau i blant, allgymorth a chefnogaeth symudol (a drafodir ym Mhennod 7 fel rhan o drafodaeth ynglŷn ag ymgyrchu cenedlaethol);
- v. Yn gyffredinol, addysgu a goleuo'r cyhoedd, y cyfryngau, yr heddlu a'r llysoedd, gwasanaethau cymdeithasol ac unrhyw awdurdodau eraill ynglŷn â safle menywod a phlant o fewn ein cymdeithas, a chynnal unrhyw ymchwil priodol (trafodir darpariaeth addysg a gwybodaeth ym Mhennod 7; a thrafodir gallu ymchwil y sefydliad ym Mhennod 6);
- vi. Gweithio'n egniol dros y fath newidiadau i'r gyfraith, polisi cymdeithasol ac agweddau cymdeithasol a fydd yn angenrheidiol er mwyn cyflawni ein hamcanion o greu cymdeithas nad oes ynddi unrhyw gamddefnyddio grym, a lle gall menywod a phlant fyw'n rhydd o drais a chamdriniaeth, a lle perchir eu dewisiadau a'u gwerthoedd (gweler Pennod 3);
- vii. Bod yn effeithiol wrth alluogi grwpiau i ddarparu yng Nghymru wasanaethau o safon uchel a fydd yn diwallu anghenion a disgwyliadau menywod a'u plant sy'n dioddef cam-drin domestig. Amcanion sylfaenol yr holl Strategaeth Sicrhau Ansawdd fydd datblygu systemau priodol, cynaliadwy sy'n diwallu a chymodi anghenion pob defnyddiwr gwasanaeth, cyllidwyr, y rhai sy'n rhan o ddarparu'r gwasanaeth a rhanddeiliaid eraill.

Caiff cynnydd yn ôl y Cynllun Gweithredol ei fonitro'n fewnol yn gyson a'i drafod gyda'r Weithrediaeth. Nid yw'n ymddangos bod cynnydd yn cael ei fesur yn systematig, (ar y cyfan cofnodir gweithgareddau fel "parhaus" ac ychydig iawn o weithgareddau sy'n cael amserlenni ar gyfer eu cwblhau).

Yng Nghyfarfod y Weithrediaeth ym mis Ionawr 2008, cytunwyd bod Cymorth i Fenywod Cymru angen templed o gynllun busnes sy'n ymgorffori dangosyddion perfformiad a monitro. Mae LICC hefyd wedi gofyn i Gymorth i Fenywod Cymru gwblhau Cynllun Busnes a ddisgwyllir cyn diwedd y flwyddyn. Mae Cymorth i Fenywod Cymru wrthi ar hyn o bryd yn datblygu ei "Gynllun Busnes" cyntaf, a seiliwyd ar ymarferiad dadansoddi tasgau staff unigol. I bob pwrpas, bydd gan bob aelod staff ei Gynllun Busnes unigol ei hun gyda thargedau a cherrig milltir penodol. Rhoddodd yr ymarferiad hwn well dealltwriaeth i'r Aelodau Gweithredol o amrywiaeth gorchwyl a gwaith y sefydliad. Yn ei dro, caiff hyn ei gyfleu trwy'r holl ranbarthau.

### **Awdurdod dirprwyedig (a'r Is-bwyllgor Darparwyr Cefnogaeth Achrededig)**

*Yn unol â'r Cyfansoddiad, "gall y Bwrdd Gweithredol ddirprwyo unrhyw ran o'i awdurdod i Bwyllgorau, ac aelodaeth y Pwyllgorau hynny fydd unrhyw aelod o'r Bwrdd*

*Gweithredol, a hyd at bedwar person arall, y gwêl y Bwrdd yn dda i'w penodi*" (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007c tud.10). Yn y gorffennol, sefydlodd y Bwrdd Gweithredol nifer o is-bwyllgorau (e.e. is-bwyllgor cyllid), ond ar hyn o bryd, un is-bwyllgor yn unig a geir.

Mae LICC yn mynnu bod sefydliadau'n bodloni meini prawf penodol er mwyn cael eu hystyried yn addas i fod yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig, fel y nodwyd yn '*Cefnogi Pobl yng Nghymru: Achredu Darparwr Cefnogaeth*' (LICC, 2002). Yn 2007, dirprwyodd y Bwrdd Gweithredol awdurdod i is-bwyllgor yn benodol er mwyn cyflawni rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig. Dylai rôl y grŵp hwn gynnwys:

- *"Derbyn adroddiadau monitro ac unrhyw weithredu ac argymhellion perthnasol;*
- *Cymeradwyo'r tâl blynyddol a godir gan y sefydliad ar y grwpiau a sicrhau bod hwnnw'n addas ar gyfer cyllido'n ddigonol waith y sefydliad er mwyn cyflawni'r rôl hon;*
- *Sicrhau bod gan staff Cymorth i Fenywod Cymru'r gallu a'r sgiliau i gyflawni gwaith Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn effeithiol;*
- *Cymeradwyo'r modelau Cytundeb a fydd yn llywodraethu'r trefniant hwn;*
- *Sicrhau bod y Bwrdd yn parhau i fodloni meini prawf Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer bod yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig (gweler isod);*
- *Bydd angen i holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol wybod am rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig a'r cyfrifoldebau y mae honno'n ei gosod arnynt yn eu gwaith*" (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008d).

Yn ôl y Cyfansoddiad, bydd yr is-bwyllgor hwn yn cynnwys dau aelod a fydd wedi eu henwebu gan y Bwrdd Gweithredol, a lleiafswm o bedwar a mwyafswm o chwe aelod allanol sy'n gwybod am rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig. Y Cyfarwyddwr fydd yn gyfrifol am eu recriwtio. Mae aelodaeth yr is-bwyllgor hwn ar hyn o bryd yn cynnwys:

- Cymdeithas Unedig Tai Cymru (UWHA);
- Llamau;
- Cymdeithas Tai Gogledd Cymru;
- Tîm Cefnogi Pobl Blaenau Gwent;
- Cymryd-Rhan;
- Cymorth i Fenywod Caerdydd;
- Cymorth i Fenywod Merthyr.

Dan amodau rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig "*Ni ddylai mwy nag un rhan o dair o aelodaeth y Bwrdd dderbyn gwasanaethau'r sefydliad ar y pryd*" (LICC, 2002).

Mae'r is-bwyllgor Darparwyr Cefnogaeth Achrededig yn bwriadu cyfarfod bob tri mis, dros y flwyddyn gyntaf o leiaf. Mae'r grŵp wedi cyfarfod ddwywaith hyd yma. Fel rhan o'i rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi cwblhau dau adolygiad o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Adolygiad ar y cyd â'r gymdeithas tai oedd y cyntaf ohonynt, a gwnaed yr ail yn annibynnol. Archwiliad desg oedd yr adolygiad (fel y cytunwyd â LICC), ond yn ymarferol nid oedd hynny'n rhoi digon o wybodaeth i allu cwblhau adolygiad teg. Ychwanegodd Cymorth i Fenywod Cymru at y dystiolaeth hon drafodaethau a cheisiadau am wybodaeth ychwanegol oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod.

Y mae pryderon ynglŷn â gallu Cymorth i Fenywod Cymru i gyflawni'r rôl hon yn effeithiol, a gallai hynny olygu bod angen i'r is-bwyllgor Darparwyr Cefnogaeth Achrededig roi rhagor o'i amser. Mae pryderon hefyd ynglŷn â gallu Cymorth i Fenywod Cymru, o gofio'r her a wynebodd Cymorth i Fenywod Cymru yn y gorffennol (e.e. cyhuddiadau yn erbyn staff), ac yn arbennig o gofio bod rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig yn hanesyddol wedi bod yn fwy o her nag unrhyw fath arall o ddarpariaeth gwasanaeth. O ganlyniad, mae diddordeb mawr iawn o fewn ac oddi allan i Gymorth i Fenywod yn y modd y bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn ymdopi â'r her newydd hon.

### **Cyfathrebu**

Chwe mis wedi diwedd pob blwyddyn ariannol, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cynnal ei Gyfarfod Cyffredinol Blyneddol. Dyma swyddogaeth y Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol:

- Derbyn y cyfrifon a'r fantolen ynghyd ag adroddiad yr archwiliwr;
- Ethol aelodau newydd i'r Bwrdd Gweithredol;
- Penodi Archwiliwr;
- Pennu'r tanysgrifiad cyffredinol blyneddol ar gyfer y deuddeg mis dilynol;
- Cynnal unrhyw fusnes arall ar ran y Gymdeithas, yn cynnwys y rhybudd i alw'r cyfarfod.

Gwneir cofnodion o'r Cyfarfod Cyffredinol Blyneddol a phob cyfarfod arall o'r Bwrdd Gweithredol, a darllenir hwy yn y cyfarfodydd dilynol, a chânt eu harwyddo gan Gadeirydd y cyfarfod y darllenir hwy ynddo. Yna cyhoeddir copïau yn ardal yr aelodau ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru. Anaml iawn y gofynnwyd iddynt wneud hynny, ond ni wnaeth unrhyw un o'r bobl a holwyd sylw o gwbl am y cyfleuster hwn.

Yn hanesyddol, roedd cofnodion y Bwrdd Gweithredol a chofnodion y cyfarfodydd rhanbarthol yn cael eu cyfnewid a'u darllen yng nghyfarfodydd ei gilydd. Mae'r arfer hwn wedi peidio erbyn hyn, ond roedd awydd ymhlith rhai o'r bobl a holwyd ac a ymatebodd ar y wefan i adfer y drefn hon, gan eu bod yn teimlo nad oeddent bellach yn derbyn cystal gwybodaeth ag y buont yn ei derbyn.

Roedd y ffaith y gallai aelod o grŵp fod ar y Weithrediaeth, er nad oedd ei Reolwr yn aelod, yn bryder i sawl un o'r Rheolwyr grwpiau y buom yn siarad â hwy. Adroddodd un Rheolwr bod cydweithiwr yn y gorffennol wedi celu gwybodaeth o'r Weithrediaeth oddi wrth y Rheolwr er mwyn cael math o bŵer drosto.

### **Casgliad**

Yn hanesyddol, bu trefn lywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru yn her fawr iawn. Yn ystod y blynyddoedd diweddar, gwellodd y trefniadau gweithredol yn raddol. Yr hyn a fu'n allweddol o ran gyrru'r gwelliannau fu'r newidiadau i strwythur rheoli Cymorth i Fenywod Cymru sydd wedi golygu mwy o eglurder rhwng rolau staff Cymorth i Fenywod Cymru a'r Bwrdd Gweithredol, a chynnwys aelodau allanol o fewn y cyfarfodydd. Mae'r angen i sicrhau cymysgedd cryf o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd Gweithredol wedi ei gyfyngu o hyd gan y Cyfansoddiad, o gofio'r pethau sy'n rhwystro staff lleol Cymorth i Fenywod rhag sefyll i gael eu hethol i'r Bwrdd. Bydd rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn dod â her newydd i reolaeth Cymorth i Fenywod Cymru. Mae newidiadau i ffurf a swyddogaeth y Bwrdd yn debygol o fod yn ddarostyngedig i gymeradwyaeth nifer o argymhellion yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynyddol ym mis Medi.

## 6. Trefniadau Rheoli

---


Yn y Bennod hon, trafodwn strwythur sefydliadol Cymorth i Fenywod Cymru, y defnydd o adnoddau, rheolaeth ariannol a stiwardiaeth arian cyhoeddus; a gwnawn sylwadau am drefniadau adnoddau dynol Cymorth i Fenywod Cymru. Yr ydym hefyd yn delio â lefelau cyllido, a chynaliadwyedd tymor hir a gallu'r sefydliad, gan ystyried goblygiadau ymarfer gwerthuso swyddi presennol Cymorth i Fenywod Cymru.

### **Strwythur Sefydliadol**

Fel y trafodwyd ym Mhennod 2, cododd Cymorth i Fenywod Cymru o fudiad ffeministaidd y 1970au, ac yr oedd ei strwythur sefydliadol, o leiaf hyd adolygiad 2001, yn adlewyrchu'r gwreiddiau hynny: roedd yn cynnwys grwpiau oedd yn eu rheoli eu hunain o fewn ffederasiwn rhydd. Gweithredai Cymorth i Fenywod Cymru strwythur gwastad, heb unrhyw hierarchaeth, ar sail system o ddemocratiaeth uniongyrchol ac o weithio ar y cyd (h.y. pawb yn cyfrannu at wneud penderfyniadau, sgiliau'n cael eu rhannu, a dim unrhyw fath o arbenigo o ran tasgau).

Ar ôl gwerthusiad 2001, aeth Cymorth i Fenywod Cymru ati i ail strwythuro. Ers hynny, gwnaeth Cymorth i Fenywod Cymru nifer o addasiadau i'w strwythur o ran rolau staff a threfniadau rheoli llinell. Dengys Ffigur 8 a Ffigur 9 isod y strwythur yn 2003/04 a'r strwythur rheoli presennol er mwyn dangos cymaint y mae'r strwythur rheoli wedi newid dros y blynyddoedd diweddar.


**Ffigur 8: Strwythur Rheoli Cymorth i Fenywod Cymru 2003/04**



[Ffynhonnell: Addaswyd o Cymorth i Fenywod Cymru, 2004b]



**Ffigur 9: Strwythur Rheoli Cymorth i Fenywod Cymru 2008**



[Ffynhonnell: Addaswyd o Strwythur Sefydliad Cymorth i Fenywod Cymru, 2008]

Dirprwyir y cyfrifoldeb am reolaeth o ddydd i ddydd Cymorth i Fenywod Cymru i'r Cyfarwyddwr a'r Uwch Dîm Rheoli. (Bwrdd Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru sy'n gyfrifol am gyfeiriad strategol a pholisi'r sefydliad - archwiliwyd y rôl hon ym Mhennod 5 uchod).

Ni allai mwyafrif y rhai a holwyd o'r tu allan i'r tîm Cenedlaethol wneud sylwadau am y strwythur y sefydliad a'r trefniadau rheoli, gan nad oeddent yn ymwybodol ohonynt.

Adroddodd mwyafrif y tîm cenedlaethol ac aelodau'r Weithrediaeth eu bod yn teimlo bod y strwythur hierarchaidd newydd wedi gwella'r berthynas waith ac effeithiolrwydd y sefydliad. Mae rheoli llinell wedi rhoi mwy o ffocws a mwy o eglurder i staff ar eu rolau a dealltwriaeth well o'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt hwy ac eraill.

Dywedodd dau neu fwy o aelodau'r tîm cenedlaethol bod rôl y Gweithiwr Plant Rhanbarthol braidd ar wahân i'r tîm cenedlaethol, ond heb ei hintegreiddio â'r grwpiau lleol. Fodd bynnag, mae'r syniad am y rôl (o ran cael cyswllt uniongyrchol wyneb yn wyneb â grwpiau lleol, a bod yr un pryd yn aelod o'r tîm cenedlaethol) yn gymharol newydd (cyflogwyd Gweithwyr Plant Rhanbarthol ers mis Medi 2007). Dywedodd Gweithwyr Plant Rhanbarthol bod eu perthynas â grwpiau lleol yn gwella, a'u bod wedi elwa o gael cyfarfodydd rheolaidd gyda Gweithwyr Plant Rhanbarthol eraill, Rheolwr y Gwasanaethau Plant a'r Cydlynnydd Darpariaeth Gwasanaeth Plant a Phobl Ifanc. At hynny hefyd, rhoddodd y rôl hon fwy o ymwybyddiaeth i Gymorth i Fenywod Cymru o weithgareddau grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a'u canfyddiad a'u hymwneud hwy â Chymorth i Fenywod Cymru fel corff ymbarél.

Eto, teimlai nifer o'r rhai a holwyd y gellid gwella'r berthynas â gweithwyr Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan. Yn ymarferol, teimlwyd bod y Llinell Gymorth yn cael ei rheoli fel sefydliad ar wahân. Teimlwyd bod lleoliad y tîm cenedlaethol a Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn gwaethygu'r mater hwn. Ystyrir presenoldeb rheolwr Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yng nghyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol yn fodd o wella'r cysylltiadau rhwng swyddogion staff o fewn Cymorth i Fenywod Cymru.

### **Cydnabyddiaeth**

Datblygodd y strwythur cyflog presennol o'r trefniadau blaenorol oedd yn seiliedig ar yr egwyddor gyfunol (h.y. lle ystyrir yr holl weithwyr yn gyfartal, a hwythau felly'n cael eu talu fwy neu lai ar yr un raddfa). Datblygwyd y symudiad at strwythur hierarchaidd gan ddefnyddio graddfeydd cyflog llywodraeth leol. Roedd pobl a holwyd oddi fewn ac oddi allan i Gymorth i Fenywod yn dal o'r farn bod graddau a swyddi staff Cymorth i Fenywod

Cymru yn annigonol o ran cyflog ac yn isel o ran statws. Roedd nifer yn priodoli perfformiad gwael ac aneffeithiolrwydd i hynny.

Yr haf diwethaf, comisiynodd Cymorth i Fenywod Cymru ACAS i gynnal ymarferiad gwerthuso swyddi ffurfiol, dadansoddol. Amcan yr ymarferiad oedd datblygu strwythur cyflog teg, tryloyw a chyfartal y gall pawb ei ddeall. Mae gwerthuso swyddi yn rhoi'r sail resymol ar gyfer strwythur cyflog cyfartal y gellir ei amddiffyn. Nid yw ohono ei hun yn llunio system gyflog a graddio, ond mae'n cyflwyno peirianwaith i alluogi penderfyniadau i gael eu gwneud ynglŷn â chyflogau o fewn sefydliad. Mae adroddiad drafft am ganlyniadau'r ymarferiad hwn i'w gael yn awr.

Mae adroddiad ACAS yn argymhell bod cyflogau mwyafrif swyddi Cymorth i Fenywod Cymru yn cael eu codi. Gwelodd ACAS ddwy swydd y gellid cyfiawnhau talu llai iddynt. Mae ACAS yn argymhell bod cyflogau'r unigolion sy'n cyflawni'r swyddi hynny'n cael eu rhewi, ac wedi iddynt hwy adael eu swyddi bod y bobl a benodir i'r swyddi hynny wedyn yn cael eu cyflogi ar raddfa a chyflog is.

Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn trafod hyn yn awr gyda chynrychiolwyr undebau llafur cyn gwneud penderfyniadau ar sail canlyniadau adroddiad ACAS. Yng Nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol yn Ionawr 2008, nodwyd bod y Cynulliad wedi dweud 'na' wrth Gymorth i Fenywod Cymru o ran gwario ei grant ar ganlyniadau o'r Gwerthusiad Swydd (roeddent wedi cytuno y gellid gwario'r arian i ddibenion eraill<sup>29</sup>).

## **Adnoddau Dynol**

Fel y nodwyd eisoes, yn hanesyddol mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi wynebu nifer o faterion difrifol yn ymwneud ag Adnoddau Dynol. Nid oes swyddogaeth staff un pwrpas ar gyfer Adnoddau Dynol o fewn Cymorth i Fenywod Cymru. Cyfrifoldeb y rheolwr llinell uniongyrchol a/neu'r Cyfarwyddwr yw Adnoddau Dynol o fewn y sefydliad. Nododd amryw o'r tîm cenedlaethol y byddai'r sefydliad ar ei ennill o gael person i ddal swydd benodol Adnoddau Dynol.

Pan fydd aelodau newydd o'r staff yn ymuno â Chymorth i Fenywod Cymru cyflwynir iddynt Lawlyfr Staff Cymorth i Fenywod Cymru - ffeil lifer A4 fawr sy'n cynnwys dogfennau'n ymwneud â'r hyn a ddisgwylir oddi wrthynt a'r hyn y gallant hwythau yn eu tro ei ddisgwyl oddi wrth Gymorth i Fenywod Cymru. Ceir manylion llawn am amodau gwaith a thelerau cyflogaeth. Mae oddeutu 40% o gynnwys y llawlyfr hwn yn cael ei ddiwygio a'i ail-ddrafftio ar hyn o bryd. Adeg y gwerthusiad, roedd sawl drafft wedi ei gwblhau ac yn disgwyl cael ei gadarnhau gan y Weithrediaeth.

---

<sup>29</sup> Cynhadledd flynyddol Cymorth i Fenywod Cymru

Mae gofynion gwaith Cymorth i Fenywod Cymru yn gymharol â sefydliadau tebyg eraill. Dywed y Llawlyfr Staff y disgwylir i weithwyr llawn amser Cymorth i Fenywod Cymru weithio 35 awr, yn cynnwys oriau craidd 9.30am hyd 3.30pm, o ddydd Llun hyd ddydd Gwener. Mae gan weithwyr hawl i 25 diwrnod o wyliau blynyddol bob blwyddyn. Yn y gorffennol, roedd gan staff hefyd hawl i wyliau eraill, yn cynnwys cyfnodau sabothol. Dilëwyd y math hynny o hawliau dros y blynyddoedd diwethaf yn dilyn pleidlais gan y Weithrediaeth, gan na allai'r sefydliad weithredu yn ystod y cyfnodau yr oedd staff ar wyliau tymor hir, a theimlwyd nad oedd staff y tîm cenedlaethol angen gwyliau ychwanegol gan nad oeddent yn dioddef y straen a ddaw trwy gyswllt wyneb yn wyneb â defnyddwyr y gwasanaethau.

Nid oes cofnodion personél ar gael ar gyfer pob gweithiwr<sup>30</sup>, ac felly ni fu'n bosibl cymharu lefelau afiechyd Cymorth i Fenywod Cymru â'r cyfartaledd cenedlaethol dros y tair blynedd ddiwethaf. Fodd bynnag, mae'n hawdd gweld o'r cofnodion sydd ar gael bod lefelau afiechyd ac absenoldeb yn uchel. Yn ystod chwe mis cyntaf 2008 er enghraifft, roedd gan dri aelod o'r staff fwy na 35 diwrnod o absenoldeb afiechyd<sup>31</sup>. Gellid dadlau i hyn gael effaith ar effeithiolrwydd y sefydliad, yn arbennig o gofio ei faint.

## Recriwtio

Unwaith eto, mae'n ymddangos bod cofnodion trosiant staff yn anghyflawn, ac felly ni fu'n bosibl cymharu'r trosiant staff gyda'r cyfartaledd cenedlaethol. Mae'n amlwg, fodd bynnag, i'r trosiant staff fod yn uchel dros y tair blynedd ddiwethaf. Gadawodd deg o bobl y sefydliad yn 2006, a gadawodd naw yn 2007. Hyd yma eleni, mae chwech o bobl wedi gadael. Mae gan y sector cyhoeddus gyfartaledd graddfa trosiant o 13.7% (CIPD, 2007), ac mae'n amlwg bod ffigurau Cymorth i Fenywod Cymru yn uwch na hynny.

Roedd y Cyfarwyddwr presennol wedi bwriadu gadael yng Ngorffennaf 2008. Penodwyd Cyfarwyddwr newydd, a daw i'r swydd hon ar 21 Gorffennaf. Hyd at y dyddiad hwnnw, roedd y Cyfarwyddwr presennol wedi bod yn absennol am dymor hir. Yn y cyfamser, cyflawnwyd y rôl hon gan y Rheolwr Cyllid a Busnes.

---

<sup>30</sup> O'u cymharu â'r ffigurau afiechyd ac absenoldeb, mae'r ffigurau trosiant staff yn dangos amrywiaethau yn nifer y staff a gyflogwyd dros y cyfnod hwnnw. Yn ychwanegol, mae'r cofnodion ar gyfer ar gyfer 4 o bobl hyd at 2007 wedi eu cadw yn yr archif, ac nid oeddent ar gael i'r tim ymchwil.

<sup>31</sup> Yn ystod y chwe mis diwethaf, roedd un aelod o'r staff yn absennol am 161 diwrnod, un arall am 56 diwrnod, ac un arall am 35 diwrnod o salwch.

Roedd mwyafrif Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn llawn cyffro ac yn optimistaidd ynglŷn â phenodi Cyfarwyddwr newydd<sup>32</sup>. Gwerthfawrogwyd yn arbennig bod gan y Cyfarwyddwr newydd brofiad rheng flaen a phrofiad o reoli grŵp lleol Cymorth i Fenywod.

Teimlai tri neu fwy o'r rhai a holwyd ar lefel genedlaethol bod pecynnau cyflog Cymorth i Fenywod Cymru yn y gorffennol wedi cyfyngu ar ansawdd y staff a ddenwyd i swydd y Cyfarwyddwr, ac maent yn fwy pesimistaidd ynglŷn â recriwtio o'r tu mewn i fudiad Cymorth i Fenywod Cymru o gofio'r cefndir hwn o faterion sensitif a heriau sydd wedi wynebu'r sefydliad. (Nid yw hyn yn wir am y sylwadau a gasglwyd oddi wrth Gymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod).

Cafwyd cymorth gan y Cyfarwyddwr presennol er mwyn penodi Cyfarwyddwr newydd. Mae hynny'n drefniant anghyffredin o fewn y sector preifat a chyhoeddus a'r trydydd sector.

Dim ond menywod gaiff eu cyflogi gan Gymorth i Fenywod Cymru. Dywed Cymorth i Fenywod Cymru, "*gan mai gorchwyl gwaith Cymorth i Fenywod Cymru yw darparu gwasanaethau i fenywod a phlant bregus, cyfyngir recriwtio i fenywod, o fewn y fframwaith cyfreithiol a osodwyd yn Neddf Gwahaniaethu ar sail Rhyw (1975)*". Awgrymwyd gan o leiaf un person a holwyd ei bod yn anodd cyfiawnhau'r polisi cyflogaeth hwn o fewn y tîm cenedlaethol.

### **Datblygiad Proffesiynol Parhaus**

Mae gweithwyr Cymorth i Fenywod Cymru yn derbyn cyfleoedd Datblygiad Proffesiynol Parhaus addas. Er enghraifft, dychwelodd un aelod o staff yn ddiweddar o'r wythnos hyfforddiant rheoli a ariannwyd gan LICC, Rheoli Gwasanaeth Cyhoeddus Cymru.

Mae un aelod allanol o'r Bwrdd Gweithredol wedi defnyddio ei phrofiad ei hun o ddatblygu rhaglenni hyfforddi ac ennill achrediad i fentora'r Cydlynnydd Prosiect achredu dros fisoedd cyntaf ei chyflogaeth.

### **Gallu Dwyieithog**

Dengys Cofnodion Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol bod anfodlonrwydd gyda nifer y siaradwyr Cymraeg. Mae dau neu fwy o Aelodau'r Weithrediaeth wedi cwestiynu penderfyniadau recriwtio ar sail hyn. Y penderfyniad terfynol a wnaed oedd bod gwybodaeth, sgiliau a phrofiad yn hanfodol ar gyfer penodiadau diweddar. Adeg y

---

<sup>32</sup> Ymunodd y sawl a benodwyd â Chymorth i Fenywod Cymru ar 21 Gorffennaf 2008.

gwerthusiad, roedd dwy o dîm staff craidd Cymorth i Fenywod Cymru yn siarad Cymraeg<sup>33</sup>. Dengys Cofnodion Cyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol iddi fod yn ymdrech ar adegau i ddarparu gwasanaeth dwyieithog 24 awr yn ystod cyfnodau yr oedd staff yn absennol. Yn dilyn trafodaethau yn amryw o Gyfarfodydd y Bwrdd Gweithredol dros y flwyddyn ddiwethaf, mae Cymorth i Fenywod Cymru'n datblygu cynllun deng mlynedd, gydag adnoddau priodol, ar gyfer dysgu Cymraeg trwy'r mudiad.

### **Darparwr Cefnogaeth Achrededig**

Ers Ebrill 2008 bu Cymorth i Fenywod Cymru yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig ar gyfer 7 o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Yn ymarferol, mae'r rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn golygu:

- *"Bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn derbyn Grant Refeniw Cefnogi Pobl ac yn talu hwn i'r Grŵp Cymorth i Fenywod;*
- *Bydd yn codi tâl rheoli oddi wrth y grwpiau Cymorth i Fenywod i dalu am waith Cymorth i Fenywod Cymru yn ei rôl o Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig;*
- *Mae'r sefydliad yn gyfrifol am arolygu ansawdd y gefnogaeth a ddarperir yn unol â Manyleb Gwasanaeth Grant Refeniw Cefnogi Pobl a thollau cyllido a chywirdeb, trefn lywodraethu a hyfywra ariannol y grwpiau lleol Cymorth i Fenywod y mae'n Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig iddynt. I'r diben hwn, bydd yn cynnal dwy broses reoli:*
  - *Arolygu'r grwpiau perthnasol yn flynyddol;*
  - *Sicrhau a gofalu bod y Grwpiau'n cwblhau'r Adroddiad Blynyddol a anfonwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru"* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008d)

Mae'r ffaith fod Cymorth i Fenywod Cymru wedi derbyn rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig wedi cael effaith uniongyrchol ar rôl y Cyfarwyddwr, y Cydlynnydd Tai a'r Rheolwr Cyllid a Busnes. Disgwylid y byddai hyn yn golygu, yn ôl eu trefn, 20 awr, 40 awr a 20 o'u hamser o fewn y flwyddyn gyntaf. Cafodd y ffigurau hynny eu hamcangyfrif yn rhy isel o lawer, ar gyfer y flwyddyn gyntaf o leiaf. Roedd hynny'n rhannol am fod y ffigurau wedi eu cyfrif yn ôl y dybiaeth mai dim ond pedwar o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod fyddai'n dewis Cymorth i Fenywod Cymru yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig yn y flwyddyn ariannol gyntaf (2008/09), a hefyd am nad oedd y ffigur yn ystyried amser paratoi. Golygodd hyn fod yr aelodau staff hyn wedi gorfod addasu eu rôl mewn manau eraill, er enghraifft, mynychu cyfarfodydd aml-asiantaeth allanol.

---

<sup>33</sup> Nid yw hyn yn cynnwys y cyn Gyfarwyddwr oedd yn siarad Cymraeg, ond nad oedd yn ei swydd am ran helaethaf y gwerthusiad.

Un o'r prif bethau sy'n gyrru Cymorth i Fenywod Cymru i dderbyn rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig, fel yr adroddwyd trwy'r cyfweiliadau â'r tîm cenedlaethol a'r aelodau gweithredol yn Adroddiad Blynyddol 2006/07, yw delio ag ansefydlogrwydd ariannol y sefydliad.

*"Mae anawsterau parhaol ynglŷn â sefyllfa ariannol Cymorth i Fenywod Cymru yn aros, a gallant gyfyngu ar yr hyn y gallwn ei wneud. Fodd bynnag, yr ydym wedi gweithredu er mwyn gweld sut y gellir delio â hyn, a'r prif faes o ran adeiladu gallu yw cofrestru Cymorth i Fenywod Cymru yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig."* (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007a tud.1)

Awgrymodd y rhai a holwyd ac a wnaeth sylwadau (dros 15 ohonynt) y byddai angen, mewn byd delfrydol, un Swyddog Arolygu ac Adolygu llawn amser (fel swydd newydd), ynghyd â chefnogaeth weinyddol, i gyflawni'r rôl hon yn ddigonol. Fodd bynnag, roedd pryder o'r tu allan i Gymorth i Fenywod Cymru (yn cynnwys aelodau o'r is-bwyllgor Darparwr Cefnogaeth Achrededig) pe byddai Cymorth i Fenywod Cymru'n cynyddu adnoddau staff er mwyn cyflawni'r rôl hon yn effeithiol, na fyddai ar ei ennill o'r arian ychwanegol y byddai hyn yn ei roi (sef y prif reswm dros dderbyn y rôl).

Mae'r rôl fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig hefyd yn cyflwyno swyddogaeth reoleiddio i gylch gwaith Cymorth i Fenywod Cymru. Rhydd hynny ddimensiwn ychwanegol i'r berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod (a drafodir yn fanylach ym Mhennod 8). Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn cydnabod y bydd hyn yn gofyn am reoli'r berthynas â grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn ofalus<sup>34</sup>.

Roedd gan bedwar o randdeiliaid cenedlaethol allanol bryderon gwirioneddol ynglŷn â defnydd Cymorth i Fenywod Cymru o adnoddau, stiwardiaeth o arian cyhoeddus a chysylltiadau diwydiannol. Gwnaed y pryderon hyn yn waeth yn gynharach eleni gan y newyddion y byddai Cymorth i Fenywod Cymru yn derbyn rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig. Er bod gan bawb a holwyd awydd cryf i weld Cymorth i Fenywod Cymru'n llwyddo, awgrymodd dau ohonynt y dylai Cymorth i Fenywod Cymru gael sefydliad arall yn bartner iddo dros y pum mlynedd nesaf (yn fras) fel bod Cymorth i Fenywod Cymru'n cael cefnogaeth i gynyddu ei allu.

---

<sup>34</sup> O fewn WCVA maent wedi delio â'r her o gefnogi a rheoleiddio drwy benodi un aelod o staff, (y 'Dadansoddwr Risg a Pherfformiad'), sy'n eistedd yn llwyr y tu allan unrhyw swyddogaeth wasanaeth, (gan adrodd yn uniongyrchol i'r Prif Weithredwr), gyda chyfrifoldeb am fonitro perfformiad ac archwilio darpariaeth wasanaeth.

## **Casgliad**

Yn hanesyddol, dioddefodd rheolaeth Cymorth i Fenywod Cymru gyda materion staffio. Mae problemau'n parhau heddiw, ac mae trosiant uchel, llawer o absenoldeb salwch ymhlith y staff, a chyhuddiadau yn erbyn aelodau staff yn dystiolaeth o hynny. Daeth cyflwyno'r hierarchaeth â gwelliant amlwg, a hynny'n arwain at fwy o eglurder ynghylch rolau a chyfrifoldebau. Mae'r cyllid ar gyfer staff craidd a'r swyddfa genedlaethol yn brin. Gobeithir y bydd y rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn faes allweddol o ran adeiladau gallu, ond mae'r arwyddion cynharaf yn dangos bod hyn yn debygol o lyncu adnoddau staff sydd eisoes yn brin, o gofio cylch gwaith eang y sefydliad. Hefyd, mae gwelliannau ar y gweill a phenodi Cyfarwyddwr newydd yn dod â gobaith newydd i rai.



## 7. Gwerth ychwanegol a ddarperir yn genedlaethol gan Gymorth i Fenywod Cymru

---

Trafodir yn y Bennod hon y gwerth ychwanegol a ddarperir yn genedlaethol gan Gymorth i Fenywod Cymru o ran: cyflawni un o amcanion allweddol Strategaeth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan; effaith a delwedd gerbron y cyhoedd; proffil gyda phartneriaid allweddol; cyfraniad at bartneriaethau; cyfraniad at ddatblygu polisïau; cynrychiolaeth y sector a grwpiau unigol.

### Ymgyrchu a Dylanwadu ar Bolisïau

Roedd cynrychiolwyr LICC yn diolch i Gymorth i Fenywod Cymru am ei gyfraniad at yr ymgynghori ynglŷn â materion cam-drin domestig (e.e. datblygu Strategaeth Ddigartrefedd newydd a gaiff ei chychwyn yn gynnar yn 2009).

Ceir trefniant anffurfiol i Gyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Cymru gyfarfod â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol ddwywaith y flwyddyn. Fodd bynnag, nid oes cyfarfodydd rheolaidd wedi eu cynllunio gyda'r Gweinidog Tai. Un mater allweddol ynglŷn â'r trefniant hwn yw bod grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, sy'n darparu'r gwasanaethau ar lawr gwlad, yn cael eu hariannu dan y Gyfarwyddiaeth Dai.

Dros y blynyddoedd diwethaf, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi llunio a chyhoeddi ar ei wefan (yn yr ardal sydd ar gyfer aelodau'n unig) nifer o ymatebion ymgynghori manwl yn cynnwys ymatebion Cymorth i Fenywod Cymru i ymgynghoriadau canlynol y llywodraeth:

- Ymchwiliad Cam-drin Domestig Cynulliad Cenedlaethol Cymru;
- Deddf Priodi dan Orfod (Amddiffyn Sifil) 2007 – Trydydd Person Perthnasol;
- Priodi partneriaid o dramor;
- Strategaeth Gwasanaeth Erllyn y Goron ar Drais yn erbyn Menywod;
- Hyder a Chyfrinachedd: didwylledd mewn llysoedd teulu;
- Blaenoriaethau ar gyfer y Gweinidogion dros Fenywod;
- Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru;
- Argymhellion ar gyfer Cydraddoldeb Sengl;
- Gwneud hawliau Cyfreithiol yn Realiti;
- Cyfarwyddyd ar gyfer adolygiadau o ladd yn y cartref;

- Y Gyfraith ar Dreisio;
- Cyfarwyddyd ynglŷn â thorri Gorchymyn Amddiffyn;
- Hybu Cydraddoldeb ar gyfer Dynion a Menywod;
- Cynllun Cydraddoldeb Sengl LICC.


Mae dadansoddiad desg o'r ymgynghoriad sydd ar gael ar-lein yn dangos cynnydd amlwg yn ansawdd dogfennau diweddar.

Mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi gweithio gyda'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r Deyrnas Unedig ar ymatebion i ymgynghoriad (yn arbennig Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr o gofio mai'r un drefn cyfiawnder troseddol sydd gan Gymru a Lloegr). Er enghraifft, cyfrannodd Cymorth i Fenywod Cymru at ymateb Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr i Ymchwiliad Dethol y Pwyllgor Materion Cartref. Cyhoeddir cyfraniad Cymorth i Fenywod Cymru, yn ogystal ag ymateb Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr i'r ymgynghoriad, ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru, yn yr ardal ar gyfer aelodau'n unig.

Ar sail ein rhaglen gyfweiliadau, mae'n ymddangos ei bod yn amlwg nad yw partneriaid lleol a chenedlaethol yng Nghymru yn ymwybodol o ba mor fawr na pha mor fanwl yw'r wedd hon o waith Cymorth i Fenywod Cymru. Ni wnaeth neb a holwyd gennym, o'r tu allan i'r tîm cenedlaethol, grybwyll yr adnodd hwn. Hefyd, ychydig iawn o'r grwpiau sy'n aelodau a allai gofio'r gwaith hwn, ac yr oedd y rhai a geisiodd ddod o hyd i ddeunydd o'r fath wedi cael trafferth i'w canfod o fewn yr ardal ar gyfer yr aelodau ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru. Mae'n anodd deall pam na ellir gwneud y cyfraniadau pwysig hyn yn fwy hygyrch (h.y. y tu allan i'r ardal ar gyfer aelodau yn unig, sydd wedi ei diogelu trwy gyfrinair, ar y wefan).

**Ffigur 10: Cyfraniadau at ddatblygu polisïau**

**Sut fydddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Cyfraniadau at Ddatblygu Polisïau**



[n=82]

Gall rhwydweithio a mynychu cyfarfodydd ar lefel uchel fod yn ffynhonnell gwybodaeth ddefnyddiol. Gall hefyd lywio strategaeth sefydliadol, a rhoi cyfleoedd i Gymorth i Fenywod Cymru ddatblygu "llais" i ddylanwadu ar bolisi a datblygiadau gweithredol. Teimlai lleiafrif o randdeiliaid cenedlaethol nad oedd Cymorth i Fenywod Cymru yn gweithredu o fewn y cylch hwn. Teimlai dau neu dri ohonynt fod y Cyfarwyddwr neu'r uwch weithwyr wedi eu cyfyngu o ran gwneud hyn am nad oedd gan y sefydliad adnoddau i gefnogi'r gwaith hwn (e.e. mae gwybodaeth polisi yn brin oherwydd nad oes gan Gymorth i Fenywod Cymru swyddog polisi a/neu ymchwil). Oherwydd yr her o gael data oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, ni all y sefydliad gael ystadegau manwl a diweddar ar unwaith am unrhyw fater penodol.

Adroddodd lleiafrif o'r rhanddeiliaid cenedlaethol mai dyma'r canfyddiad o'r tu allan: gan fod mater cam-drin domestig yn cael cefnogaeth nifer o bobl amlwg yng Nghymru (yn arbennig nifer o weinidogion) - er eu bod yn teimlo bod hynny'n gwbl gywir - bydd Cymorth i Fenywod Cymru o reidrwydd yn llwyddo i godi proffil materion cenedlaethol gan y bydd llunwyr polisi'n disgwyl yn eiddgar am gyfraniad y sefydliad.


Mae'r ymateb diweddaraf i ymgynghoriad - tystiolaeth a roddwyd i Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gam-drin Domestig - yn datgan yn glir beth yw argymhellion Cymorth i Fenywod Cymru a beth yw'r achosion pryder ynglŷn â materion cam-drin domestig yng Nghymru:

1. *"Mae'r llywodraeth yn ymgorffori fel diffiniad Ddatganiad y Cenhedloedd Unedig ar Ddileu Trais yn erbyn Menywod.*
2. *Strategaeth integredig ar roi diwedd ar drais yn erbyn menywod.*
3. *Cyllid ar gyfer llochesau arbenigol yng Nghymru.*
4. *Cynnal a chefnogi gwasanaethau ar gyfer menywod yn unig.*
5. *Cyllid craidd ar gyfer Canolfan Argyfwng Trais Rhywiol.*
6. *Llinell Gymorth ynglŷn ag ymosodiad rhywiol.*
7. *Ymgyrch addysgol ynglŷn â thrais rhywiol ac ymosodiad rhywiol.*
8. *Darpariaeth yng Nghymru ar gyfer gwasanaethau cefnogi ar gyfer Masnachu Pobl, Puteindra a Thrais arall yn erbyn Menywod.*
9. *Mae gan y Cynulliad Cenedlaethol yn ganolog fanylion cyswllt ar gyfer holl gydlynwyr IDVA a DA yng Nghymru.*
10. *Rhaid i'r IDVA fod yn atebol i'r asiantaeth annibynnol.*
11. *Dylai'r Cynulliad gynnal gwerthusiad annibynnol o bob Cynhadledd Asesu Risg Aml-asiantaeth (MARAC) yng Nghymru.*
12. *Dylai pob asiantaeth sy'n cyfeirio at MARAC ddefnyddio patrwm asesiad risg Gweithredu ar y Cyd yn Erbyn Cam-drin Domestig (CAADA).*
13. *Dylai Gwasanaethau Cyfreithiol Uniongyrchol ddarparu cyngor ynglŷn â materion cyfraith teulu.*
14. *Rhagor o weithredu ynghylch llety a thai cymdeithasol.*
15. *Caiff menywod sy'n ffoi oddi wrth drais eu heithrio o'r gofyn i beidio bod yn atebol am arian cyhoeddus.*
16. *Rhoddir ceisiadau am fudd-daliadau gan fenywod mewn llochesau ar lwybr carlam.*
17. *Rhagor o raglenni yng Nghymru ar gyfer y rhai sy'n cyflawni trosedd.*
18. *Yr heddlu'n cadw cofrestr o bawb y gwyddys iddynt gyflawni cam-drin domestig.*
19. *Hyfforddiant gorfodol ar gam-drin domestig i bob swyddog heddlu.*
20. *Cynnal ymchwil pellach i lefel isel y cyhuddiadau mewn achosion cam-drin domestig, a datblygu strategaeth ar gyfer delio â'r mater hwn.*
21. *Gwneud hyfforddiant ar gam-drin domestig yn orfodol ar gyfer pob barnwr ac ynad.*
22. *Ymgyrch i godi ymwybyddiaeth ac addysgu ynglŷn â myth a realiti trais rhywiol a cham-drin domestig.*
23. *Cyllid craidd ar gyfer gweithwyr plant". (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008c tud.46)*

Trwy'r ymgyngoriad ar y wefan yr ydym wedi derbyn sylwadau am gyfraniad Cymorth i Fenywod Cymru yn genedlaethol o ran goleuo a herio'r llywodraeth ynglŷn â materion tai, cyfiawnder troseddol a hawliau plant. Gweler Ffigur 11, a Ffigur 13 isod.

**Ffigur 11: Hysbysu a herio ynglŷn â materion tai**

**Sut fyddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Goleuo a herio yn genedlaethol ynglŷn â materion tai (o ran diogelwch ac amddiffyn menywod a phlant)**



[n=82]


Ychydig iawn o'r rhai a holwyd, ac ychydig iawn o'r rhai a ymatebodd ar y wefan a ddywedodd bod Cymorth yn delio'n fwy effeithiol â phryderon grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ynglŷn â diogelu cyllid Cefnogi Pobl<sup>35</sup>. Fodd bynnag, dengys Ffigur 11 bod mwy na 80% o'r ymatebwyr ar y wefan (a deimlai y gallent wneud sylw) yn graddio Cymorth i Fenywod Cymru yn ganolig neu uwch o ran goleuo a herio ynglŷn â materion yn ymwneud â thai.

Hefyd, mae Ffigur 12 a ffigur 13 isod yn dangos fod yna fodlonrwydd mawr gyda'r modd y mae Cymorth i Fenywod Cymru'n goleuo a herio'r drefn cyfiawnder troseddol a materion hawliau plant.

<sup>35</sup> Mae chwech o'r 34 o aelodau sydd gan Gymorth i Fenywod Cymru yn aelodau o Cymorth. Cymorth Cymru yw'r corff sy'n cynrychioli darparwyr cefnogaeth ym maes tai, digartfedd a gwasanaethau eraill sy'n galluogi pobl i greu bywyd annibynnol, llwyddiannus sy'n gwneud cyfraniad cadarnhaol i'w cymuned.

**Ffigur 12: Hysbysu a herio ynglŷn â'r drefn cyfiawnder troseddol**


**Sut fydddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Goleuo a herio yn genedlaethol ynglŷn â materion cyfiawnder troseddol (o ran diogelwch ac amddiffyn menywod a phlant)**



[n=82]

**Ffigur 13: Hysbysu a herio ynglŷn â materion hawliau plant**

**Sut fydddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Goleuo a herio yn genedlaethol ynglŷn â materion hawliau plant (o ran diogelwch ac amddiffyn menywod a phlant)**



[n=80]

Dengys y ffigurau bod canran uwch o'r ymatebwyr yn teimlo bod Cymorth i Fenywod Cymru yn dda neu'n dda iawn am oleuo a herio'r llywodraeth ynglŷn â materion cyfiawnder troseddol a phlant nag a deimlai felly am faterion tai. Gallai fod a wnelo

hynny rywbeth â'r ffaith bod Cymorth i Fenywod Cymru yn cysylltu ac yn cyfathrebu mwy â'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol nag â'r bobl oedd yn cyfateb i hynny ymhlith y Gyfarwyddiaeth a'r Gweinidogion dros Dai.

Trafodwyd ym Mhennod 3 faterion yn ymwneud â maint y data y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ei dderbyn oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Er bod Cymorth i Fenywod Cymru wedi llwyddo i gael mwy o ymateb i'w ceisiadau am ddata oddi wrth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod dros y blynyddoedd diweddar, mae yna hefyd gwestiwn ynglŷn ag ansawdd y data y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ei adrodd, ac a gynhwysir yn y mwyafrif o'r dogfennau ymgynghori hyn. Mae Adroddiadau Ystadegol Blynyddol 2006/07 a 2007/08 Cymorth i Fenywod Cymru yn nodi na chyfrannwyd data gan bob grŵp<sup>36</sup>. Yn y ddau adroddiad, mae mwyafrif y tablau, graffiau ac adroddiadau'n sôn am ganrannau, ond heb nodi'r boblogaeth (h.y. nifer y bobl y mae'r ffigurau hyn yn cyfeirio atynt). Mae Adroddiad 2007/08 yn gwneud cymariaethau â data 2006/07. Fodd bynnag, nid yw'r data hwn yn bwysol, a gellid dadlau na ellir ei gymharu (am y rhesymau a nodwyd uchod). Ar hyn o bryd, mae'n amheus pa mor ddibynadwy a dilys yw data Cymorth i Fenywod Cymru<sup>37</sup>.

Roedd ychydig o gynrychiolwyr grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ac ychydig o'r rhanddeiliaid cenedlaethol a gyfrannodd at y gwerthusiad yn teimlo y gallai Cymorth i Fenywod Cymru wneud rhagor i godi proffil ac i ddelio â materion newydd ym maes cam-drin domestig yng Nghymru (sef priodi dan orfod, lladd yn enw anrhydedd, traffig mewn pobl a llurguniad genitalia). Roedd teimlad cryf ymhlith lleiafrif bod sefydliadau eraill yn gwthio'r agenda hwn yn fwy effeithiol yn genedlaethol, yn fwyaf arbennig BAWSO a grwpiau lleol unigol eraill. Fodd bynnag, dywedodd dau neu fwy o'r rhai a holwyd bod y materion newydd hyn yn cael eu pwysleisio a'u trin gan Gymorth i Fenywod Cymru, a bod Cymorth i Fenywod Cymru o bosibl angen cyfathrebu mwy gyda grwpiau lleol ynglŷn â'i waith ymgyrchu.

Yn ei dystiolaeth i Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gam-drin Domestig, dywed Cymorth i Fenywod Cymru (2008, tud.10) *"Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ei chael yn fwy anodd siarad am faterion ehangach trais yn erbyn menywod, er mai sefydliad sy'n canolbwyntio ar gam-drin domestig ydyw. Derbyniwn geisiadau'n rheolaidd i ni wneud sylwadau am buteindra, masnachu pobl a thrais rhywiol; ac er ein bod yn gwneud ein gorau i ymateb yn briodol nid oes gennym*

<sup>36</sup> Nid oedd Cymorth i Fenywod Cymru yn gallu rhoi'r wybodaeth hon i ni yn ôl-weithredol gan fod y person a gwblhaodd yr adroddiad erbyn hyn wëid gadael y sefydliad.

<sup>37</sup> Mae Adroddiad Blynyddol 2006/07 Cymorth i Fenywod Cymru'n dweud bod y ddogfen yn "gadarn", a theimlwn ni bod hynny'n gamarweiniol (Cymorth i Fenywod Cymru, 2007b, tud.4). Mae Adroddiad Blynyddol 2007/08 Cymorth i Fenywod Cymru'n dweud "bod Cymorth i Fenywod Cymru wedi ymrwymo i ddarparu data cadarn a chywir" (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008a tud. 12)

*adnoddau digonol i gynrychioli'n effeithiol holl sbectrwm trais yn erbyn menywod.*" Os byddai Cymorth i Fenywod Cymru yn gwneud sylwadau, byddai amheuaeth ynglŷn â chryfder a dilysrwydd unrhyw sylwadau y byddai yn ei wneud o gofio'r hyn y mae'r mudiad yn canolbwyntio arno.

### **Gwaith hyrwyddol**

Ar hyn o bryd, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ei ail-frandio ei hun. Y prif amcan yw cyfleu'r neges mai'r grŵp ymbarél ydyw ar gyfer grwpiau sy'n darparu gwasanaethau i fenywod a phlant. Nid yw ei logo presennol yn crybwyll plant.

Teimlai bron pawb a holwyd bod Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn cael cyhoeddusrwydd da. Croesawyd a chanmolwyd ymdrechion i gynyddu'r cyhoeddusrwydd trwy wasanaethau cyhoeddus eraill (e.e. hysbysebion mewn adrannau Damwain ac Achosion Brys, a sticeri ar geir yr heddlu). Roedd y rhai a holwyd yn llai bodlon gyda chydlyn ymgyrchoedd yn ganolog er mwyn codi'r ymwybyddiaeth o faterion cam-drin domestig, rhoi gwybod i fenywod am y dewisiadau sydd ar gael iddynt, a herio perthnasau gwael.

Mae llawer o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod wedi ceisio a chael cyllid yn annibynnol ar gyfer yr amcanion hyn. Er bod gwerth gwaith hyrwyddol lleol yn amlwg (e.e. i alluogi menywod a phlant/pobl ifanc wybod am y gwasanaethau sydd ar gael iddynt yn eu hardal), teimlai mwyafrif y rhai a holwyd y byddai Cymru ar ei hennill o gael gwasanaethau marchnata canolog. Fodd bynnag, roedd y rhan fwyaf yn cydnabod bod prinder adnoddau Cymorth i Fenywod Cymru yn cyfyngu arnynt yn arw. Mae'r angen i gynhyrchu deunydd dwyieithog yn rhoi pwysau ychwanegol ar adnoddau prin ar gyfer gweithgareddau hyrwyddol.

Hefyd, y mae cyfle i Gymorth i Fenywod Cymru weithio gyda'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU (er i ni nodi'n gynharach bod Cymorth i Fenywod Cymru wedi ceisio gwneud hyn o'r blaen). Ar hyn o bryd, mae Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr yn darparu deunydd marchnata ar ei wefan a baratowyd ganddynt hwy a'u sefydliadau partner (e.e. taflenni'r Swyddfa Gartref). Gall grwpiau lleol eu defnyddio gan ychwanegu eu logo/brand atynt. Soniodd amryw o'r rhai a holwyd (yn cynnwys aelodau o Gymorth i Fenywod Cymru a rhanddeiliaid cenedlaethol) am gryfderau gwaith hyrwyddol Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr.


O ran hyrwyddo, dywedodd mwy na hanner y rhai o'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a holwyd ac a ymatebodd ar y wefan y byddent yn hoffi gweld Cymorth i Fenywod Cymru yn cefnogi ymgyrchoedd cenedlaethol a rhyngwladol. Gellid gwneud hyn naill ai trwy godi ymwybyddiaeth grwpiau Cymorth i Fenywod trwy eu hamrywiol lwybrau cyfathrebu,



neu'n ddelfrydol trwy gydlyn ymgyrch Gymreig ganolog. Un esiampl o gyfle a gollwyd yw Taith Miliwn o Fenywod. Bu Cymorth i Fenywod Cymru yn rhan o nifer o ymgyrchoedd cenedlaethol, er enghraifft Ymgyrch Elusen Nadolig y BBC.

**Ffigur 14: Cymorth i Fenywod Cymru yn codi ymwybyddiaeth y cyhoedd**

**Sut fydddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Codi ymwybyddiaeth pobl o'r materion yn ymwneud â chamdriniaeth y cartref?**



[n=84]

Roedd oddeutu 20% o'r sylwadau ansoddol agored a wnaed fel rhan o'r ymgynghori ar y wefan yn galw ar Gymorth i Fenywod Cymru i godi ei broffil yn genedlaethol a chodi ymwybyddiaeth o faterion cam-drin domestig.

Fel y nodwyd yn gynharach, mae'r ymwybyddiaeth o faterion cam-drin domestig ac o'r sefydliadau sy'n gweithio yn y maes hwn wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf. Gan fod adnoddau Cymorth i Fenywod Cymru yn brin, mae'n rhaid i'r sefydliad fod yn ofalus ynglŷn â lle y mae'n canolbwyntio ei egni a'i adnoddau. Os bydd Cymorth i Fenywod Cymru yn gwneud rhagor o waith hyrwyddol, bydd angen gwerthuso ei waith yn ofalus er mwyn sicrhau eu bod 'yn gwneud gwahaniaeth'.

### Safonau Gofynnol

Mae'r Strategaeth Genedlaethol yn datgan *“na wireddir amcanion y strategaeth oni cheir ‘ymrwymiad cenedlaethol’ i safonau gofynnol y gwasanaeth, ac oni weithredir, yn y pen draw, ‘arfer gorau’”. I'r perwyl hwn, mae'n hanfodol bod pob asiantaeth/sefydliad a chyflogwyr yn sicrhau bod ganddynt y mecanweithiau angenrheidiol i wella'r ymateb unigol i gam-drin domestig”. (LICC, 2005 tud.21)*

Bu Cymorth i Fenywod Cymru yn trafod gweithredu sicrwydd ansawdd/safonau gofynnol ymhlith grwpiau lleol ers tro. Mae'r cyllid sydd gan y trydydd sector o ffynonellau'r sector cyhoeddus wedi cynyddu dros y blynyddoedd diwethaf, yn arbennig ers dyfodiad Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Fodd bynnag, mae'n annhebygol y bydd y duedd hon yn parhau (LICC, 2008b tud.18). Golyga hynny y bydd raid i'r trydydd sector chwilio am fathau mwy amrywiol o incwm, a mabwysiadu dulliau mwy entrepreneuraidd, yn cynnwys cynnig am gytundebau caffael gwasanaeth cyhoeddus neu drafod cytundebau lefel gwasanaeth ar gyfer darparu mathau arbennig o wasanaeth. Byddai darparu gwasanaeth safonol, uwch na safonau gofynnol cydnabyddedig, yn un ffordd o sicrhau bod Cymorth i Fenywod Cymru'n parhau'n gystadleuol.

Bydd gofyn i aelodau gadw at God Ymarfer (gweler Pennod 7). Ond mae llawer o'r rhai a holwyd, yn cynnwys rhanddeiliaid cenedlaethol, cynrychiolwyr Cymorth i Fenywod Cymru, grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, partneriaid lleol, ac yn bwysig iawn, yr asiantau sy'n comisiynu, angen rhywbeth mwy cadarn. Maent angen marc safon uchel, a gwarant o sicrwydd ansawdd/safonau gofynnol. Os gallai Cymorth i Fenywod Cymru sicrhau hynny, byddai'n ychwanegu gwir werth yn genedlaethol. Gobeithir y bydd statws Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig, ynghyd â'r gobaith y bydd rhagor o grwpiau'n cymryd Cymorth i Fenywod Cymru yn Ddarparwr Cefnogaeth Achrededig iddynt yn y dyfodol, yn fodd o sicrhau hynny. Caiff y posibilrwydd y gall Cymorth i Fenywod Cymru sicrhau hyn yn ei sefyllfa bresennol neu rywbryd yn y dyfodol ei ymchwilio ymhellach ym Mhennod 7.

Mynegodd lleiafrif o'r rhai a holwyd yn genedlaethol eu rhwystredigaeth na chymerodd Cymorth i Fenywod Cymru rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig pan gyflwynwyd hwnnw gyntaf yn 2002/03, pan oedd cyfle iddo ychwanegu gwerth go iawn yn genedlaethol ac yn lleol. Ar y pryd, roedd grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a darparwyr eraill yn bryderus ynglŷn â'r hyn y byddai Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn ei olygu a sut y byddai'n gweithio. Byddai'r bobl hyn a holwyd wedi dymuno gweld Cymorth i Fenywod Cymru yn rhoi arweiniad gyda datblygu'r polisiau a'r dulliau a chefnogi grwpiau lleol i gael yr arian hwn a chyflawni gofynion y ddarpariaeth gwasanaeth ac adrodd cysylltiedig. Awgrymwyd ei bod bellach yn rhy hwyr. Mae gan Ddarparwyr Cefnogaeth Achrededig eraill, sydd ar hyn o bryd yn cefnogi grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, lawer mwy o brofiad ac arbenigedd na Chymorth i Fenywod Cymru i gyflawni'r rôl hon.


### **Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan a Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein**

Ystyriai mwyafrif y rhai a holwyd (yn cynnwys cynrychiolwyr mewnol ac allanol) bod Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan a Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein yn gamau sylweddol ymlaen ar gyfer y mudiad. Mae'r Llinell Gymorth yn darparu'r

cyswllt rhwng dioddefwyr cam-drin domestig a'r gefnogaeth y maent ei hangen. Mae'r gwasanaeth yn cynnig gwybodaeth am ystod o faterion yn ymwneud â cham-drin domestig, a gall gyfeirio menywod a phlant at lochesau lleol Cymorth i Fenywod a gwasanaethau sy'n cynnig cyngor. Mae Gweithwyr Cefnogi y Llinell Gymorth yn trafod y dewisiadau ymarferol sydd ar gael, yn cynnwys llety argyfwng, cefnogaeth a chynghor wyneb yn wyneb, hawliau lles a budd-daliadau, materion tai, materion cyfreithiol, rhaglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau ac unrhyw bryderon ynglŷn â phlant. Gall y llinell gymorth hefyd drafod yr hyn y gall yr heddlu, y llysoedd ac asiantaethau eraill ei wneud i gefnogi ac amddiffyn pobl.

**Ffigur 15: Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan**

**Sut fyddech chi'n graddio gwasanaethau Cymorth i Fenywod Cymru: Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan**



[n=84]

Sefydlwyd Gweithgor y Llinell Gymorth ac mae wedi gwahodd cynrychiolwyr o'r pedwar rhanbarth, er mwyn sicrhau bod polisïau a gweithdrefnau Cymru gyfan yn cael eu sefydlu. Yn ôl y sôn, mae'n gryn her i annog aelodau i ymuno â'r grŵp ac i fynychu cyfarfodydd, yn bennaf oherwydd yr un rhwystrau rhag ymuno â'r Weithrediaeth (gweler Pennod 5).

Ar hyn o bryd, mae'r Llinell Gymorth yn gweithio mewn partneriaeth â Heddlu Gwent a Chefnogaeth i Ddioddefwyr ar system gyfeirio. Caiff achosion risg uchel o gam-drin domestig eu cyfeirio ar hyn o bryd at Gefnogaeth i Ddioddefwyr. Ni chaiff y galwadau risg isel neu ganolig eu monitro na'u cyfeirio. Bydd y cynllun peilot yn sicrhau bod pob digwyddiad cam-drin domestig yn cael ei gyfeirio at Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan, a bod pob dioddefwr yn ymwybodol o'r gwasanaethau sydd ar gael iddynt. Trefnwyd i'r cynllun peilot gychwyn ym mis Awst 2008.

Gall Gweithwyr Cefnogi y Llinell Gymorth hefyd gael y wybodaeth fwyaf diweddar am welyau gwag mewn llochesau ar draws y Deyrnas Unedig trwy Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein.

### **Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein**

Ers 2007 bu Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr yn sianel ar gyfer Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein. Cytunodd Comic Relief i barhau â chyllid o £40,000 wedi ei rannu rhwng y pedwar Ffederasiwn ar gyfer 2007/08. Dyrannwyd £3,400 ohono i Gymorth i Fenywod Cymru at gyllideb o £12,241, a chafwyd y diffyg o £8,841 trwy Gymorth i Fenywod Cymru. Cafwyd y diffyg hwn oddi wrth y grwpiau trwy dâl aelodaeth a thâl gweinyddol ychwanegol o £50 a godwyd ar sefydliadau nad ydynt yn perthyn ond sy'n defnyddio'r system.

Trwy ein gwaith maes, cawsom awgrym oddi wrth o leiaf ddau grŵp lleol Cymorth i Fenywod nad ydynt yn diweddar Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein yn fanwl am nad oes ganddynt ond nifer fechan o welyau, ac am eu bod bron yn ddieithriad yn llawn. Felly, ni welant angen i wneud hyn o gofio'r galwadau mawr sydd ar eu hamser. Nid yw'r mater hwn o fewn cwmpawd yr ymchwil hwn, ond mae'n bosibl y bydd angen ei fonitro a delio ag ef yn y dyfodol, yn arbennig o gofio'r galw mawr sydd heb ei gyflawni am lefydd<sup>38</sup>.

### **Agenda Atal a rhaglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau**

Un rhan allweddol o'r Strategaeth Genedlaethol yw "*atal cam-drin domestig rhag digwydd yn y lle cyntaf*" (2005 tud.8). Soniodd lleiafrif o'r rhai a holwyd yn genedlaethol am eu rhwystredigaeth nad yw, neu nad oedd, Cymorth i Fenywod Cymru wedi cofleidio'r agenda atal yn gynharach, yn arbennig nad yw wedi dal ar y cyfle i gyfrannu at ddatblygu'r rhaglenni ar gyfer y rhai sy'n cyflawni troseddau. Teimlai mwyafrif y rhai a holwyd mai'r rheswm na wnaeth Cymorth i Fenywod Cymru hynny oedd amharodrwydd rhai o fewn y sefydliad i weithio gyda dynion, er bod llawer ohonynt yn cydnabod hefyd bod Cymorth i Fenywod Cymru wedi cael problemau gyda materion adnoddau a gallu. Yn ôl y sôn, dechreuwyd trafodaethau ynghylch y posibilrwydd o Gymorth i Fenywod Cymru'n ymgymryd â rôl mewn gwaith yn ymwneud ag atal cam-drin domestig, a rhaglenni ar gyfer rhai sy'n cyflawni troseddau, mor bell yn ôl â 1996. Cyfyd rhwystredigaethau erbyn hyn am fod rhaglenni ar gyfer rhai sy'n cyflawni troseddau wedi eu cynllunio a'u datblygu heb arbenigedd sefydliad sydd â mynediad uniongyrchol at lais menywod sy'n defnyddio'r gwasanaeth. Byddai lleiafrif wedi hoffi gweld Cymorth i

---

<sup>38</sup> Ni lwyddwyd i ymateb yn llwyddiannus i 2766 cais i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod am lety lloches yn 2007/08 (Cymorth i Fenywod Cymru, 2008a)

Fenywod Cymru yn cofleidio'r rôl hon, gan arwain grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ac ychwanegu gwerth yn genedlaethol o ran cyfrannu at raglenni gwaith cenedlaethol gyda rhai sy'n cyflawni troseddau neu droseddwydroseddau posibl. Mae lleiafrif yn teimlo bod Cymorth i Fenywod Cymru nid yn unig wedi colli'r cyfle hwn ei hun, ond ei fod hefyd, yn anghywir, wedi atal grwpiau lleol Cymorth i Fenywod rhag ychwanegu gwerth i waith yn y maes hwn. Er enghraifft, yn ôl y sôn, gofynnwyd i un grŵp lleol Cymorth i Fenywod oddeutu wyth mlynedd yn ôl gan sefydliad gwirfoddol i gyfrannu at oruchwylio galluogwyr oedd yn darparu gweithdai ar gyfer rhai'n cyflawni troseddau. Ond rhwystwyd hwy rhag gwneud hynny gan Gymorth i Fenywod Cymru a ddywedodd y byddai'n annerbyniol i grŵp Cymorth i Fenywod gymryd rhan.

Ceir esiamplau o sefydliadau sy'n canolbwyntio ar fenywod yn gweithio gyda dynion yn llwyddiannus. Mae BAWSO, sy'n aelod o Gymorth i Fenywod Cymru, wedi gweithio gyda dynion erioed, ac wedi defnyddio hyfforddwyr gwrywaidd, ymgynghorwyr gwrywaidd a gwirfoddolwyr gwrywaidd. Cred BAWSO y gall dynion fod yn batrymau ymddwyn cadarnhaol a bod yn fwy effeithiol o ran herio ymddygiad. Nid yw BAWSO'n cefnogi dynion sydd wedi dioddef cam-drin domestig, ond fe gefnogodd gynnig dros brosiect a ddarparai wasanaethau cefnogi ar gyfer dynion a ddioddefodd gam-drin domestig. Hefyd, ceir Prosiect Dyn, wedi ei leoli yn Uned Diogelwch Menywod Caerdydd, sy'n darparu gwasanaethau ar gyfer dynion hoyw a heterorywiol yn ogystal â chyngor am bolisi a gwasanaeth llinell gymorth (gweler Robinson & Rowlands, 2008).

### **Ymyriadau yn yr ysgol**

Nod y Strategaeth Genedlaethol (LICC, 2005) yw darparu addysg a chodi ymwybyddiaeth y cyhoedd. Mae rhai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod (yn arbennig yng Ngogledd Cymru) wedi bod yn cynnal prosiectau mewn ysgolion ynglŷn â pherthynas iach a chodi ymwybyddiaeth am gam-drin domestig. Cefnogwyd hynny gan gefnogaeth unigol a ddarparwyd ar gyfer disgyblion a ddaeth ymlaen wedi'r sesiynau a datgelu camdriniaeth.

Yr ydym yn ymwybodol bod Tai Hafren yn ddiweddar wedi cael cytundeb i ddarparu mewn ysgolion raglen beilot o weithdai codi ymwybyddiaeth. Mewn o leiaf un awdurdod lleol, mae un grŵp lleol Cymorth i Fenywod wedi cysylltu â'r rhaglen waith hon er mwyn darparu cefnogaeth allgymorth wedi'r rhaglen i unrhyw blant a phobl ifanc sydd wedi eu dynodi'n unigolion a fyddai'n elwa o gael cefnogaeth un i un. Mae un Gweithiwr Plant Rhanbarthol, ar y cyd â'r Fforwm Cam-drin Domestig, wedi bod yn gysylltiedig â'r drefn hon.

Daeth yn amlwg o'n gwaith maes bod bellach amrywiaeth o ddarparwyr yn gweithio mewn ysgolion a lleoliadau eraill gyda phobl ifanc er mwyn codi ymwybyddiaeth o gam-

drin domestig a materion cysylltiedig, a herio agweddau negyddol, ac annog perthnasau iach. Mewn lleiafrif o ardaloedd, mae'n ymddangos bod peth dyblu ymdrechion. Mae'n bosibl y gellid delio â hyn trwy'r Fforymau Cam-drin Domestig Lleol neu trwy'r Cydlynnydd Cam-drin Domestig.

### **Rhannu gwybodaeth**

Er mwyn gwarchod plant a phobl ifanc yn llwyddiannus rhag effaith negyddol cam-drin domestig, mae angen rhagor o waith o ran rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Er enghraifft, dywedwyd wrthym am achosion diweddar lle roedd gan fenywod a phlant fwy nag un cyfeiriad mewn llochesau yng Nghymru ond na wyddai'r Gwasanaethau Cymdeithasol amdanynt. Dywed y Strategaeth Genedlaethol yn glir: "*yn sylfaenol, heb rannu gwybodaeth yn ddiogel, ni ellir diwallu'n ddigonol anghenion dioddefwyr cam-drin domestig ac ni ellir gwneud y rhai sy'n cyflawni'r troseddau'n atebol*" (LICC, 2005 tud.12). Teimlai amryw a holwyd y gallai Cymorth i Fenywod Cymru gael rôl flaenllaw yn sefydlu protocolau ar gyfer rhannu gwybodaeth rhwng asiantaethau. Fodd bynnag mae cyfarwyddyd yn bodoli eisoes, megis adroddiad y Swyddfa Gartref "Diogelwch a Chyfiawnder: rhannu gwybodaeth bersonol yng nghyd-destun cam-drin domestig - trosolwg". Mae LICC yn un o lofnodwyr cyfarwyddyd rhannu gwybodaeth y Swyddfa Gartref.<sup>39</sup> Ceir dolennau i ffynonellau cyfarwyddyd priodol ar wefan Cymorth i Fenywod Cymru, yn yr adran ar gyfer aelodau'n unig. Hefyd, mae'n amheus pam nad yw'r deunydd hwn ar gael yn fwy agored.

### **Achredu'r sector**

Yn ystod 2006/07 bu'r pedwar Ffederasiwn Cymorth i Fenywod yn gweithio ar gais ar y cyd i Comic Relief, a bellach rhoddwyd £400,000 iddynt dros ddwy flynedd i ddatblygu hyfforddiant achrededig ar gam-drin domestig. Roedd yr arian a roddwyd i Gymru yn wreiddiol ar gyfer gweithiwr rhan amser dros ddwy flynedd. Cafwyd arian cyfatebol gan Lloyds TSB sydd wedi galluogi Cymorth i Fenywod Cymru i uwchraddio hon yn swydd llawn amser.

Er bod Cymorth i Fenywod Cymru yn rhoi'r un statws i brofiad ag i gymwysterau, datblygodd y gwaith hwn wrth i Gymorth i Fenywod Cymru gydnabod bod grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn gweithio mewn hinsawdd lle mae dangos sgiliau a phroffesiynoldeb yn dod yn fwyfwy dymunol neu'n cael ei fynnu gan asiantaethau sy'n comisiynu. Cyn yr ymdrech hon, nid oedd unrhyw Safonau Galwedigaethol Cenedlaethol

---

<sup>39</sup> Cadarnhawyd y ddogfennaeth hon gan LICC ac fe'i nodir o fewn y Strategaeth Cenedlaethol (LICC, 2005 tud. 18)

neu gymwysterau penodol ynglŷn â cham-drin domestig neu'r gwaith a wnaed o fewn Cymorth i Fenywod Cymru.

Fel rhan o'r gwaith hwn, mae'r Cydlynnydd Achredu wedi cynnal ymarferiad mapio er mwyn dynodi'r ystod o hyfforddiant galwedigaethol achrededig a chymwysterau academaidd ymhlith grwpiau lleol Cymorth i Fenywod. Cafwyd cyfradd ymateb o 37% i'r ymarferiad hwn o du grwpiau lleol Cymorth i Fenywod

O ganlyniad i'r prosiect hwn, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi derbyn statws canolfan achrededig Rhwydwaith y Coleg Agored (OCN). Golyga hynny y gellir cysylltu'r meysydd hyfforddiant a ddarperir yn awr ac yn y dyfodol gan Gymorth i Fenywod Cymru ag uned bresennol a newydd o fewn fframwaith OCN. Bydd OCN yn cynnig cydnabyddiaeth allanol ar gyfer cyllidwyr ac yn cyflawni amcanion strategol LICC o ddatblygu'r gweithlu ac o ddysgu gydol oes. Dechreuwyd erbyn hyn raglen 'Hyfforddi'r Hyfforddwr' er mwyn galluogi hyfforddwyr o fewn y grwpiau i gynnig y gallu hwn i'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod.

Gobeithir hefyd y gellir yn y dyfodol ddefnyddio'r gallu hwn i rymuso'r menywod sy'n defnyddio'r gwasanaethau a ddarperir gan Gymorth i Fenywod Cymru.

Yng Nghyfarfod y Bwrdd Gweithredol ym mis Ionawr 2008, cydnabu'r grŵp nad oes yr un hygredded i gymwysterau OCN ag i'r Cymwysterau Galwedigaethol Cenedlaethol (NVQ).

## **Casgliad**

Mae potensial enfawr o ran corff canolog ar gyfer gwasanaethau cam-drin domestig er mwyn ychwanegu gwerth yn genedlaethol. Nodir dau neu fwy o unigolion sy'n darparu mewn amryw o feysydd allweddol (e.e. cyngor cyfreithiol, achredu sgiliau), ond nid oes gan Gymorth i Fenywod Cymru fel sefydliad y parch angenrheidiol oddi fewn nac oddi allan i'r sefydliad (trafodir hyn ymhellach yn y Bennod nesaf). Mae safon y gwaith mewn rhai meysydd wedi gwella'n sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf, ond mae angen amser i ailadeiladu ymddiriedaeth a pharch at Gymorth i Fenywod Cymru. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ceisio eu cyflawni wedi golygu nad oes gan y sefydliad o bosibl ddigon o allu ac nad yw'n gweithredu fel y dylai. Byddai'r sefydliad ar ei ennill o allu canolbwyntio o'r newydd.

## 8. Gwerth am Arian

---

Trafodir yn y Bennod hon i ba raddau y mae gwasanaethau a chyfraniad Cymorth i Fenywod Cymru'n rhoi gwerth am arian, a'r graddau y cânt eu darparu'n effeithiol. Credwn ei bod yn briodol ystyried, yn gyntaf, gwerth am arian ymddangosiadol gwahanol elfennau'r gefnogaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru; yna, wynebu mater gwerth am arian y trefniadau presennol o'u cymharu â phosibiliadau eraill.

### ***Economi***

Caiff elusennau eu hasesu a'u mesur yn gyson yn ôl maint y gyllideb gyfan a werir ar 'achosion da' a dargedwyd<sup>40</sup>. Yn yr achos hwn, byddem yn diffinio honno fel gwariant ar waith uniongyrchol gyda defnyddwyr gwasanaethau a gweithredu ataliol. Mae angen bod yn ofalus yma gyda diffiniadau, ond mae un ffynhonnell data cymharol (Charity facts, 2008) yn awgrymu: "*Ar gyfartaledd, caiff 80c o bob £1 y bydd elusennau'r DU yn ei chodi ei wario ar gyflawni amcanion yr elusen, a 20c ar weinyddiaeth*". Mae llawer o elusennau'n llwyddo i wario canran uwch o lawer na hynny ar waith uniongyrchol. Canfu LICC bod menywod sy'n ceisio lloches rhag cam-drin domestig yn costio £8,240,763 (LICC, 2006). Ac er bod canran uchel o'r cyllid yn mynd i sefydliadau y tu allan i Gymorth i Fenywod, mae Cymorth i Fenywod Cymru yn gorff sy'n cynrychioli gwasanaethau lloches yng Nghymru. Yn 2006/07, derbyniodd Cymorth i Fenywod Cymru £357,185 o gyllid gan LICC tuag at gyflogau'r tîm cenedlaethol (heb gynnwys y Llinell Gymorth neu'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol sydd yn eu swyddi erbyn hyn). Mae hynny'n 4% o'r cyfanswm. Mae hynny'n awgrymu, â siarad yn blaen, bod Cymorth i Fenywod Cymru yn darparu gwerth ardderchog am arian. Fodd bynnag, mae'n sylfaenol anodd gwneud cymariaethau uniongyrchol o'r fath gan nad yw Cymorth i Fenywod Cymru ei hun yn rheoli cyllideb nac yn darparu gwasanaeth. Mae angen rhoi sylw ehangach i bwysigrwydd ei rôl o ran ychwanegu gwerth trwy sylw cenedlaethol, gan fod yn un llais ar gyfer y Cynulliad a chan ddenu cyllid ychwanegol (fel y trafodir yn nes ymlaen).

Er y dangoswyd arbedion sylweddol yn lleol o fewn y gwasanaeth cam-drin domestig (gweler Tabl 2), mae'n anodd mesur canlyniadau Cymorth i Fenywod Cymru fel corff ymbarél, gan ei fod rywfaint ar wahân i'r ddarpariaeth gwasanaeth uniongyrchol. Gobeithir y bydd y Cynllun Busnes newydd (a grybwyllir ym Mhennod 5) yn rhoi man cychwyn da ar gyfer mesur cynnyrch a chanlyniadau sefydliadol yn ddibynadwy.

---

<sup>40</sup> Gweler, er enghraifft [www.intelligentgiving.com](http://www.intelligentgiving.com)



### ***Gwerth ychwanegol trwy sylw cenedlaethol***

Ymgysylltu â'r grwpiau sy'n aelodau yw'r agwedd fwyaf cymhleth o werth am arian Cymorth i Fenywod Cymru. Mae'n rhwydd dadlau y byddai rhai grwpiau lleol yn parhau i roi cefnogaeth effeithiol i LICC i gyflawni amcanion ei strategaeth cam-drin domestig heb gefnogaeth Cymorth i Fenywod Cymru. Yn gyffredinol, teimlir bod Cymorth i Fenywod Cymru yn gwella, ond mae eto rywfaint o anfodlonrwydd ymhlith grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a phobl allanol.

Ym Mhennod 6, buom yn trafod sut y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ychwanegu gwerth am arian, neu sut y byddai posibl iddo ychwanegu gwerth am arian yn genedlaethol. Mae un o'r prif drafodaethau yn ymwneud â datblygu polisi a sut y gall Cymorth i Fenywod Cymru lywio polisiâu LICC. Mae gennym sylwadau am y modd y mae grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn cysylltu'n uniongyrchol â LICC, ac yn cyfrannu'n anuniongyrchol at alwadau Cynulliad Cenedlaethol Cymru am dystiolaeth ac at ymarferiadau ymgynghori eraill LICC. Os byddai Cymorth i Fenywod Cymru yn cydlynu'r lleisiau o'i fewn, byddai'n arbed amser i swyddogion LICC a'r Cynulliad. Er mwyn i hyn newid ac i Gymorth i Fenywod Cymru dod â gwerth ychwanegol am arian, bydd angen i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod werthfawrogi Cymorth i Fenywod Cymru fel sefydliad canolog. Ni wneir hynny ar hyn o bryd, fel y nodwyd ymhob rhan o'r adroddiad.

Er mai LICC yw'r prif gyllidwr, llwyddodd Cymorth i Fenywod Cymru i gael cyllid o nifer o ffynonellau. Os na fyddai Cymorth i Fenywod Cymru yn bodoli, gellid dadlau na fyddai'r mudiad wedi sicrhau'r cyllid hwnnw, yn arbennig y cyllid elusennol oddi wrth gwmnïau'r sector preifat, o'u gwrthyferbynnu â ffrydiau cyllido penodedig, ar gyfer gweithgareddau a gwasanaethau a ddarperir ar gyfer materion penodol.

### ***Patrymau darpariaeth eraill***

Mae cymharu gwerth am arian y trefniadau presennol â dewisiadau posibl eraill yn gwneud i rywun holi beth fyddai'n digwydd pe na fyddai Cymorth i Fenywod Cymru yn bod.

Gallai dewisiadau eraill gynnwys set mwy lleol o drefniadau cefnogi – mae rhwydweithiau rhanbarthol eisoes yn brysur iawn. Gall y trefniadau hyn golli rhywbeth o ran mynediad at gefnogaeth arbenigol a chysondeb cyffredinol, ond maent yn elwa o ran ymateb lleol ac, o bosibl, rhannu arfer da.

### ***Dangos canlyniadau'n lleol***

Mae lleiafrif o'r rhai a holwyd (yn cynnwys aelodau'r tîm cenedlaethol a'r weithrediaeth) yn gweld mai un o rolau Cymorth i Fenywod Cymru i'r dyfodol ddylai cefnogi grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i ddangos gwerth am arian. Cafwyd nifer o awgrymiadau.

Awgrymwyd y gallai Cymorth i Fenywod gynnal arolwg o'r defnyddwyr gwasanaeth ar wahanol adegau er mwyn mesur y pellter a deithiwyd. Mae materion yn ymwneud â chysylltu â menywod wedi iddynt adael y gwasanaeth (er mwyn gallu mesur canlyniadau) yn broblem i rai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod, gan eu bod yn teimlo y gallai hynny beri risg posibl i'r menywod. Gofynnir i grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n derbyn arian dan gynllun Gefnogi Pobl gysylltu â chyn-ddefnyddwyr y gwasanaeth fel un o amodau'r arian - ond nid yw pob darparwr yn ymarferol yn cydymffurfio â'r gofyn hwn.

Dros y misoedd diwethaf, mae Cymorth i Fenywod Cymru wedi darparu dwy neu ragor o sesiynau gweithdai rhanbarthol ar gyfer grwpiau lleol Cymorth i Fenywod er mwyn gwella'r ddealltwriaeth o beth yw canlyniadau, a chyfleu eu pwysigrwydd ac yn y pen draw weithio mewn cydweithrediad â'r mudiad i ddiffinio canlyniadau mesuradwy. Nodwyd y gall fod yn anodd casglu canlyniadau caled yng nghyd-destun lloches, allgymorth a chefnogaeth symudol, ac y byddai grwpiau felly'n elwa o ddatblygu mesuriadau canlyniadau 'meddal'. Rhestrir isod enghreifftiau o fesuriadau canlyniadau priodol a ddefnyddiwyd i gychwyn trafodaeth gyda grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ynglŷn â'r gefnogaeth a ddarparwyd i ddefnyddwyr gwasanaeth:

- *"gwneud iddynt allu adnabod a mynegi'n well yr hyn y maent eisiau ei wneud*
- *cydnabod eu profiad o drais yn y cartref*
- *cynyddu eu sgiliau neu hyder wrth drafod*
- *bod yn fwy abl i ymwrthod â phwysau oddi wrth eu teulu*
- *cynyddu eu hunan barch*
- *gallu gadael partner neu deulu treisiol*
- *gallu gwrthod cymryd rhan mewn priodas dan orfod*
- *delio â llid a rhwystredigaeth, yn hytrach na niweidio eu hunain*
- *adnabod pwyntiau ffrwydro ac osgoi trais*
- *bod yn fwy parod i gysylltu â'r heddlu neu ffynonellau cefnogaeth eraill".*

Fodd bynnag, mae'r materion hyn yn oddrychol iawn a gall pobl eu dehongli'n wahanol. Mae'n anodd dangos mesuriadau gwerth am arian gan fod llawer o ddangosyddion yn 'feddal'. Fodd bynnag, ni ddylid tanbriso eu gwerth, oherwydd fe all y dangosyddion 'meddal' hyn yn y pen draw gael ôl-ffeithiau o ran y dangosyddion 'caled' (e.e. os caiff

dioddefwr trais yn y cartref nerth i adael perthynas dreisiol, gallai hynny o bosibl olygu arbed cost i'r system iechyd pe byddai'r gamdriniaeth wedi parhau, neu os byddai plant yn dod i feddwl mai ymddygiad gwael yw'r norm).

### **Atebolrwydd**

Un nodwedd allweddol o'r agenda cam-drin domestig yw bod y cyllido yn lleol ac yn genedlaethol yn dod o ystod eang o ffynonellau. Mae'r Adran Diogelwch Cymunedol yn ariannu gweithgaredd canolog a'r Gyfarwyddiaeth Dai yn ariannu grwpiau lleol, ond daw arian arall oddi wrth awdurdodau lleol, partneriaethau ag asiantaethau eraill a'r trydydd sector – a all ei hun fod yn derbyn arian cyhoeddus. Nid oedd yn rhan o gylch gwaith y gwerthusiad hwn i archwilio cyfanswm yr arian, ond teimlwn reidrwydd i wneud sylw am y ffaith nad oes trosolwg cyflawn dros y gwariant ar faterion cam-drin domestig a'r ymdrech i'w atal. Credwn fod hyn yn esgeulustod difrifol, a dylai'r Cynulliad ystyried (trwy'r Adran Cyngor Economaidd) weithredu er mwyn mapio'r gwariant yn y maes hwn a llunio fframwaith perfformiad priodol ar gyfer ymyriad mewn cam-drin domestig.<sup>41</sup>

### **Casgliad**

Mewn egwyddor, fel corff canolog sy'n cydlynu'r gwaith, mae gan Gymorth i Fenywod Cymru gyfle enfawr i ddarparu gwerth am arian trwy sicrhau nad oes unrhyw ddyblygu ymdrech yn lleol, cynrychioli'r mudiad yn genedlaethol, codi arian ar ran y mudiad ac ati. Ar hyn o bryd nid yw Cymorth i Fenywod Cymru yn dangos gwerth am arian.

Nid yw'n rhwydd cymhwyso mesuriadau safonol gwerth am arian at Gymorth i Fenywod Cymru oherwydd y rôl unigryw y mae'n ei chyflawni – nid yw'n ddarparwr nac yn gydlynnydd – ond mae gofyn cael rhyw fath o atebolrwydd wrth wario arian cyhoeddus. O ganlyniad, mae angen rhoi sylw i'r diffyg dangosyddion perfformiad a dangosyddion canlyniadau allweddol, a hynny ar frys a chyn y cyfnod gwario nesaf.

---

<sup>41</sup> Deallwn fod yr Adran Diogelwch Cymunedol ar hyn o bryd yn ystyried sut orau i fesur perfformiad yn ôl Strategaeth y Cynulliad ar Gam-drin Domestig.

## 9. Casgliadau ac Argymhellion

---

Mae'r cyd-destun gwleidyddol wedi newid yn ddramatig. Mae materion menywod a cham-drin domestig yn uchel ar yr agenda gwleidyddol. Mae LICC yn ariannu Cymorth i Fenywod Cymru i gynorthwyo'r Cynulliad i gyflawni ei amcanion strategol cam-drin domestig. Mae LICC yn gobeithio dylanwadu ar Gymorth i Fenywod Cymru i ddatblygu mewn ffordd y bydd LICC yn credu fydd yn galluogi Cymorth i Fenywod Cymru i wneud hyn orau. Er bod Cymorth i Fenywod Cymru yn barod i wneud y newidiadau angenrheidiol (e.e. darparu un llais ar gyfer y mudiad, cyflwyno safonau gofynnol ar gyfer yr holl grwpiau lleol Cymorth i Fenywod) mae ei allu i wneud hynny wedi ei gyfyngu gan y diffyg dylanwad sydd ganddo dros grwpiau lleol Cymorth i Fenywod.

Mae'r berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn gymhleth - yn aml yn gytûn ac effeithiol, ond weithiau yn llai felly. Mae Cymorth i Fenywod Cymru yn diwallu anghenion llawer o grwpiau lleol sy'n aelodau ac sy'n croesawu eu cefnogaeth o ran cyngor, arweiniad, hyfforddiant, ymgyrchu a'r cymorth a ddarperir gan Weithwyr Plant Rhanbarthol. Fodd bynnag, mae'r diffyg ymgysylltiad o du rhai grwpiau lleol sy'n aelodau ac arwyddion o aneffeithiolrwydd a chamymddygiad yn codi pryderon difrifol ac yn cyfyngu ar allu Cymorth i Fenywod Cymru fel corff cenedlaethol.

Mae 'hanes' yn dal Cymorth i Fenywod Cymru a llawer o grwpiau lleol yn ôl. Mae lleiafrif hefyd yn gwrthod derbyn yr her (e.e. darparu gwasanaethau uniongyrchol 24 awr) na gweithio mewn partneriaeth (e.e. mae presenoldeb rhai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod mewn Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth yn wan). Mae darparwyr eraill yn camu i'r bwlch hwn. Nid yw Cymorth i Fenywod Cymru yn gwneud ffafr â grwpiau lleol trwy ganiatáu iddynt osod eu safonau eu hunain a/neu osgoi atebolrwydd. Er bod Cymorth i Fenywod Cymru wedi mynd ati i ddelio â'r materion hyn, ni wnaethant hynny hyd yma gydag unrhyw argyhoeddiad mawr. Bydd cyllidwyr yn troi eu cefn ar ddarparwyr gwasanaeth sy'n methu dangos lefelau uchel o ddarpariaeth gwasanaeth a bodlonrwydd. Mae'n rhy gynnar i wneud sylwadau ar ba effaith a gaiff rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig.

Yn hanesyddol, mae trefn lywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru wedi cael ei rwystro gan anawsterau. Mae trefniadau llywodraethu Cymorth i Fenywod Cymru wedi gwella, ond mae angen newidiadau pellach er mwyn galluogi'r sefydliad i ddod o hyd i'w faes arbennig. Y prif ysgogwyr o ran gwelliannau yw newidiadau i strwythur rheoli Cymorth i Fenywod Cymru, sydd wedi arwain at fwy o eglurder rhwng rolau staff Cymorth i

Fenywod Cymru a'r Bwrdd Gweithredol, a chynnwys aelodau allanol mewn cyfarfodydd. Mae'r posibilrwydd o gael cymysgedd cryf o sgiliau a phrofiad ar y Bwrdd Gweithredol wedi ei gyfyngu gan fod aelodaeth (gyda hawl pleidleisio) wedi ei gyfyngu i staff o grwpiau lleol Cymorth i Fenywod sy'n aelodau, ac mae'r rhain yn wynebu nifer o rwystrau rhag sefyll etholiad. Mae newidiadau i gyfansoddiad a swyddogaeth y Bwrdd yn debygol, os caiff nifer o gynigion eu cadarnhau yn y Cyfarfod Cyffredinol Blynnyddol ym mis Medi, ac os ceir gofynion ychwanegol o du LICC (h.y. y cais am Gynllun Busnes). Daw rôl Cymorth i Fenywod Cymru fel Darparwr Cefnogaeth Achrededig â heriau a chyfleoedd newydd i reolaeth Cymorth i Fenywod Cymru.

Mae symudiad Cymorth i Fenywod Cymru at fod yn hierarchaeth wedi arwain at welliannau sylweddol, ond mae hanes y sefydliad yn parhau yn rhwystr diwylliannol mawr i newid. Mae problemau'n aros heddiw, a cheir tystiolaeth o hynny mewn trosiant uchel, llawer o absenoldeb salwch ymhlith staff, a chyhuddiadau yn erbyn aelodau'r staff. Mae'r cyllid ar gyfer y staff craidd a'r swyddfa genedlaethol yn brin. Gobeithir y bydd rôl y Darparwr Cefnogaeth Achrededig yn faes allweddol o ran adeiladau gallu, ond mae'r arwyddion cynnar yn dangos y bydd hyn yn debygol o lyncu adnoddau staff sydd eisoes yn brin, o gofio cylch gwaith eang y sefydliad. Hefyd, mae gwelliannau ar y gweill ac mae penodi Cyfarwyddwr newydd yn dod â gobaith newydd i rai

Mae ansawdd y gwaith Cymorth i Fenywod Cymru mewn rhai meysydd wedi gwella'n sylweddol dros y deuddeg mis diwethaf (e.e. cyfrannu at bolisiau, achredu hyfforddiant), ond bydd angen amser i ailadeiladu ymddiriedaeth a pharch at Gymorth i Fenywod Cymru. Mae'r amrywiaeth o weithgareddau y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn ceisio eu cyflawni wedi golygu nad oes gan y sefydliad o bosibl ddigon o allu ac nad yw'n gweithredu fel y dylai. Byddai'r sefydliad ar ei ennill o allu canolbwyntio o'r newydd.

Rheolaeth a grym, yn arbennig o ran safonau gwasanaeth, yw'r hyn y mae LICC/llywodraeth leol a chyllidwyr ei eisiau. Dyna geir gan sefydliadau "partner" eraill e.e. tai, yr heddlu, gwasanaethau cymdeithasol, sy'n llawer mwy atebol. Mae gan Gymorth i Fenywod Cymru berthynas anesmwyth gyda llawer o'i bartneriaid, yn deillio o'i rôl fel 'hwylusydd ffederasiwn llac' yn hytrach nag un sy'n cario dylanwad.

Mae'r potensial i gorff canolog sy'n darparu gwasanaethau ynghylch cam-drin domestig i ddarparu gwerth am arian yn genedlaethol yn glir. Fodd bynnag, mae darnio'r ffynonellau cyllido ar gyfer gwasanaethau'n ymwneud â cham-drin domestig wedi arwain at drefniadau atebolrwydd llai ar gyfer sefydliadau fel Cymorth i Fenywod Cymru. Ar ben hynny, nid yw'n rhwydd cymhwysio mesuriadau safonol gwerth am arian at Gymorth i Fenywod Cymru oherwydd y rôl unigryw y mae'n ei chyflawni - nid yw'n ddarparwr nac yn gydlynnydd - ond mae gofyn cael rhyw fath o atebolrwydd wrth wario arian cyhoeddus.

O ganlyniad, mae angen rhoi sylw i'r diffyg dangosyddion perfformiad a dangosyddion canlyniadau allweddol, a hynny ar frys a chyn y cyfnod gwario nesaf.

Nid yw'r status quo yn dderbyniol. Mae'r cyd-destun y mae Cymorth i Fenywod Cymru yn gweithredu o'i fewn wedi datblygu, o ran cystadleuaeth, yr angen am safonau ac atebolrwydd. Mae angen newid pendant o ran rheolaeth Cymorth i Fenywod Cymru, trefn lywodraethu, a'i berthynas â LICC, eu partneriaid a grwpiau lleol sy'n aelodau.

## **Argymhellion**

Dyma ein hargymhellion cyffredinol:

Dylai LICC ystyried atebolrwydd o ran gwasanaethau cam-drin domestig yn gyffredinol, o gofio cymaint o arian cyhoeddus sy'n dod i'r gwasanaeth. Dylai'r Adran Cyfiawnder Cymdeithasol a'r Gyfarwyddiaeth Dai, mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cymru, ddatblygu ar y cyd sylfaen cytundebol mwy eglur ar gyfer eu gwaith, sy'n cynnwys canlyniadau y gellir eu mesur yn wrthrychol fel dangosyddion y gellir eu mesur yn eglur o'r cynnydd a wneir gan Gymorth i Fenywod Cymru wrth anelu at nodau strategol LICC.

Dylai gwaith Cymorth i Fenywod Cymru sy'n cael ei werthfawrogi (yn cynnwys cyngor cyfreithiol a'r prosiect achredu) barhau, a dylai'r sefydliad ddatblygu'r cynlluniau i wella, (e.e. datblygu cynllun busnes, dadansoddiad o sgiliau'r Bwrdd, adolygu polisiâu mewnol, ac ati). Dylai Cymorth i Fenywod Cymru hefyd ystyried eu gweithgareddau yng ngoleuni maint yr adnoddau sydd ganddo, a dylid cyflwyno datganiad clir o'r hyn y mae'n ei wneud i'w partneriaid a'u haelodau. Yn fwyaf pwysig, dylid gweithredu cytundeb aelodaeth rhwng grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a Chymorth i Fenywod Cymru ar y cyfle cyntaf. Dylid diarddel y rhai sy'n amharod i arwyddo'r cytundeb neu gadw wrtho.

Dylai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod ddal i ystyried y cyd-destun y maent yn gweithio o'i fewn. Mae hwnnw yn newid, a dylent weithio gyda Chymorth i Fenywod Cymru er mwyn dangos eu canlyniadau caled a meddal.

Yn fwy manwl, mae ein hargymhellion wedi eu categorio yn ôl pennawd pob Pennod:

### ***Y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a LICC***

- i. Dylai LICC (yr Adran Cyngor Economaidd) ystyried atebolrwydd o ran gwasanaethau cam-drin domestig yn gyffredinol o gofio cymaint o arian cyhoeddus sy'n dod i'r gwasanaeth.

- ii. Dylai'r Adran Diogelwch Cymunedol ymgynghori'n gyson â'r Gyfarwyddiaeth Dai ynglŷn â'r gwasanaethau y mae'n eu prynu oddi wrth Gymorth i Fenywod Cymru, a'r disgwyliadau sy'n gysylltiedig â hwy.
- iii. Dylai LICC (yr Adran Diogelwch Cymunedol a'r Gyfarwyddiaeth Dai), mewn partneriaeth â Chymorth i Fenywod Cymru, ddatblygu sail gytundebol fwy eglur ar gyfer eu gwaith gyda Chymorth i Fenywod Cymru - Cytundeb Lefel Gwasanaeth o bosibl - sy'n cynnwys canlyniadau y gellir eu mesur yn wrthrychol fel dangosyddion y gellir eu mesur yn eglur o'r cynnydd a wneir gan Gymorth i Fenywod Cymru wrth anelu at nodau strategol LICC. Dylai hyn ystyried y gwasanaeth a ddymunir gan Gymorth i Fenywod Cymru a sicrhau cytundeb pendant y gellir diffinio ac asesu perfformiad drwyddo.
- iv. Dylid ffurfioli trefniadau ar gyfer cyfarfod â'r Gweinidog dros Gyfiawnder Cymdeithasol a Llywodraeth Leol.
- v. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru gychwyn trefniadau ffurfiol e mwyn cyfarfod â'r Gweinidog Tai.

### **Trefniadau llywodraethu**

- vi. Dylai'r Bwrdd wneud datblygu a gweithredu Cynllun Busnes yn flaenoriaeth.
- vii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru barhau gyda dadansoddiad o sgiliau'r Bwrdd. Dylid datblygu cynllun gweithredu o hyn. Mae angen i'r cynllun gweithredu ddelio â'r pryderon difrifol nad oes digon o gyfeiriad allanol anweithredol, oherwydd bod mwy o lawer o gynrychiolaeth o'r grwpiau lleol.
- viii. Mewn etholiadau, dylai'r etholwyr fod yn ymwybodol o'r sgiliau a'r profiad sydd gan y Bwrdd Rheoli ar y pryd, a dylid gwneud y bylchau neu'r gwendidau yn amlwg. Lle nad oes llawer o bobl yn dangos diddordeb ac yn cael eu henwebu, dylai Cymorth i Fenywod Cymru wneud pob ymdrech i ennyn diddordeb.
- ix. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ymgynghori â'r aelodau i weld a fyddai'r sefydliad yn elwa o gael rhagor o aelodau allanol a lleihau cynrychiolaeth grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i 1 person ar gyfer pob rhanbarth ac 1 dirprwy (neu amrywiaeth arall ar y sail hon). O wneud hynny, dylai Cymorth i Fenywod Cymru hysbysu'r grwpiau o fanteisio gwneud hynny.

- x. Dylid adolygu'n gyson ofynion cefnogaeth weinyddol yr is-bwyllgor Darparwyr Cefnogaeth Achrededig yn ystod 2008/09.
- xi. Dylid parhau i ddal ar y cyfleoedd i rannu gwybodaeth rhwng Aelodau'r Bwrdd Gweithredol a gweithwyr Cymorth i Fenywod Cymru.

### ***Trefniadau rheoli***

- xii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ail edrych ar drefniadau gweithwyr ar gyfer cyflawni rôl Darparwr Cefnogaeth Achrededig, ac ystyried y posibilrwydd bod aelodau eraill o'r staff yn lleihau'r pwysau oddi ar weithwyr sy'n ymwneud yn uniongyrchol â hyn.
- xiii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru fonitro integreiddio'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol gyda'r grwpiau sy'n aelodau ac o fewn y tîm cenedlaethol.
- xiv. Os yw'n ymarferol, dylai LICC drafod gyda Chymorth i Fenywod Cymru'r posibilrwydd o secondio un neu fwy o'u staff i gefnogi'r tîm cenedlaethol er mwyn eu sefydlu eu hunain yn Ddarparwyr Cefnogaeth Achrededig effeithiol. Fel arall, dylid dal ar gyfleoedd i weithio ochr yn ochr â Darparwyr Cefnogaeth Achrededig presennol.
- xv. Dylid annog secondio tymor byr o'r tim cenedlaethol i Linell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan (ac fel arall lle bo'n briodol).

### ***Gwerth ychwanegol Cymorth i Fenywod Cymru yn genedlaethol***

- xvi. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru barhau eu hymdrechion i ail edrych ar eu cenhadaeth, nodau, ac amcanion sefydliadol, gan gofio maint eu hadnoddau a'r cyd-destun newidiol y maent yn gweithredu o'i fewn.
- xvii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru barhau i ddarparu'n ehangach y gwybodaeth cyfreithiol a werthfawrogi i grwpiau sy'n aelodau a phobl eraill sydd â diddordeb.
- xviii. Dylai ymdrechion Cymorth i Fenywod Cymru i ddarparu cydnabyddiaeth broffesiynol i'r sgiliau a'r wybodaeth a geir o fewn y mudiad barhau.
- xix. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ddiffinio'n agored a chyfathrebu ei ffocws i randdeiliaid (h.y. y graddau y gall wneud sylwadau mwy cyffredinol am faterion trais yn erbyn menywod).



- xx. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ystyried cydlynu gwaith hyrwyddol yn ganolog.
- xxi. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru adolygu ei gynrychiolaeth ar fyrddau a gweithgorau cenedlaethol. Dylai'r Cyfarwyddwr newydd gydweithio'n agos â phartneriaid cenedlaethol Cymorth i Fenywod Cymru a cheisio cynrychiolaeth/mynychu'n gyson fyrddau/fforymau fel y bo'n briodol.
- xxii. Dylid manteisio i'r eithaf ar botensial gwefan Cymorth i Fenywod Cymru. Er enghraifft, dylai Cymorth i Fenywod Cymru ddynodi aelodau unigol y staff/Aelodau'r Bwrdd Bweithredol a rhoi ymatebion i'r ymgynghoriadau sy'n hygyrch oddi allan i ardal yr aelodau'n unig ar y wefan.
- xxiii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ymdrechu i weithio gyda'u cymheiriaid mewn rhannau eraill o'r DU er mwyn rhannau adnoddau gwefan, (yn arbennig gyda Ffederasiwn Cymorth i Fenywod Lloegr ).

***Y berthynas rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a grwpiau lleol Cymorth i Fenywod***

- xxiv. Dylid gweithredu mor fuan â phosibl gyttundeb aelodaeth cytundebol rhwng grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a Chymorth i Fenywod Cymru. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ei gwneud yn berffaith glir i'r grwpiau lleol Cymorth i Fenywod y dylid diarddel y rhai sy'n anfodlon arwyddo neu gadw at y cytundeb (e.e. trwy ddarparu data). Dylai hyn gynnwys set o safonau gofynnol (nid safoni).
- xxv. Dylai grwpiau lleol Cymorth i Fenywod wneud y defnydd gorau o Gymorth i Fenywod Cymru. Er mwyn gwneud hyn, mae'n bwysig eu bod yn ymateb i geisiadau am ddata.
- xxvi. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru gysylltu â/ymweld â grwpiau sydd heb ddefnyddio eu gwasanaethau a thrafod y rhesymau dros hynny.
- xxvii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru ddarparu arweinyddiaeth a chyfeiriad i grwpiau i weld a ddylid/sut i ymgysylltu â dynion fel dioddefwyr, troseddwyr a chydweithwyr. Rhaid asesu'n ffurfiol y diffyg consensws mewnol.
- xxviii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru gyfleu i'r grwpiau lleol bwysigrwydd rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i Lochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein.

- xxix. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru adolygu ei strategaeth a'i systemau cyfathrebu mewnol.

### **Gwerth am arian**

- xxx. Dylid datblygu Fframwaith Gwerth am Arian ar sail Dangosyddion Perfformiad Allweddol a chanlyniadau y gellir eu mesur neu eu dangos. Dylid gwneud hynny ar y cyd ag Adran Diogelwch Cymunedol a Chyfarwyddiaeth Dai LICC a rhanddeiliaid allweddol eraill (e.e. aelodau o Weithgor Cam-drin Domestig Cymru Gyfan Gyfan) dros y 12 mis nesaf.
- xxxi. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru archwilio'r cyfleoedd i ddangos y gwerth am arian a ddarperir gan y sefydliad. Bydd y dasg hon yn haws o ddatblygu Dangosyddion Perfformiad Allweddol (fel y nodwyd uchod).
- xxxii. Dylai Cymorth i Fenywod Cymru barhau'r ymdrechion i annog a chefnogi grwpiau lleol Cymorth i Fenywod i fesur canlyniadau caled a meddal.

## Cyfeiriadau

---

ACAS (2008) Adroddiad Gwerthuso Swyddi Cymorth i Fenywod Cymru (Heb ei gyhoeddi)

ACEVO (2005) *Good Governance – A Code for the Voluntary and Community Sectors*. ACEVO, Charity Trustee Networks, NCVO ar ran y National Hub of Expertise in Governance Mehefin 2005.

Brand, S. a Price, R. (2000) *The Economic and Social Costs of Crime*, Archwiliad Ymchwil Y Swyddfa Gartref 217, Llundain, Y Swyddfa Gartref.

Charles, N. Gilkes, M. Symonds, A. (2001) *Evaluation of the Organisational Structure of Welsh Women's Aid*. Prifysgol Abertawe

Y Comisiwn Elusennau (2006) *Women's Aid Charities – Adroddiad Ymweliad Adolygu* (Heb ei gyhoeddi)

Charity Facts (2008) Gwybodaeth Gwefan ar 15 Rhagfyr 2007 [http://www.charityfacts.org/charity\\_facts/index.html](http://www.charityfacts.org/charity_facts/index.html)

Pwyllgor ar safonau mewn Bywyd Cyhoeddus (1996) *First Report on Standards in Public Life*

Bwletin Ystadegol Y Swyddfa Gartref (2006) '*Homicides, Firearm Offences and Intimate Violence 2005/ 2006*'

Adroddiad Y Swyddfa Gartref (2004) *Safety and Justice: sharing personal information in the context of domestic violence - an overview*. I'w gael yn [www.homeoffice.gov.uk/rds](http://www.homeoffice.gov.uk/rds)

Lewis, R. (2004). *Making justice work: Effective legal interventions for domestic violence*. *British Journal of Criminology*, 44, 204-224.

Lovett, J., Regan, L., a Kelly, L. (2004). *Sexual Assault Referral Centres: developing good practice and maximising potentials*. Adroddiad Ymchwil Y Swyddfa Gartref 285.

Mirrlees-Black, C. (1999) '*Domestic Violence: Findings from a New British Crime Survey Self-Completion Questionnaire*', Adroddiad Ymchwil Y Swyddfa Gartref 191 Llundain: Y Swyddfa Gartref.

Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2008) Tystiolaeth i'r Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth: Cam-drin Domestig. 16 Ebrill 2008

NLIAH (2007) *NHS Wales Corporate Governance Baseline Assessment: Pilot Review Programme*

Robinson, A. L. a Tregidga, J. (2005). *Domestic Violence MARACs (Multi-Agency Risk Assessment Conferences) for Very High-Risk Victims in Cardiff, Wales: Views from the Victims*. Ysgol Gwyddorau: Prifysgol Caerdydd.

Robinson, A. L. (2003). *The Cardiff Women's Safety Unit: A Multi-Agency Approach to Domestic Violence*. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd.

Robinson A. L. (2005). *The Cardiff Women's Safety Unit: Understanding the Costs and Consequences of Domestic Violence*. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd.

Robinson, A. L. (2006). *Reducing Repeat Victimization among High-Risk Victims of Domestic Violence: The Benefits of a Coordinated Community Response in Cardiff, Wales*. *Violence Against Women: An International and Interdisciplinary Journal*, 12(8), 761-788.

Robinson A. L. (2004). *Domestic Violence MARACs (Multi-Agency Risk Assessment Conferences) for Very High-Risk Victims in Cardiff: A Process and Outcome Evaluation*. Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd.

Robson, C (2002) *Real World Research*. Blackwell Publishing; Rhydychen

Shepard, M. E. (1999). *Evaluating a coordinated community response*. In M. E. Shepard a E. L. Pence (Eds.), *Coordinating Community Responses to Domestic Violence: Lessons from Duluth and Beyond* (pp. 169-191). Thousand Oaks, CA: Sage.

Cymdeithas Ymchwil Gymdeithasol (2003) *Ethical Guidelines*.

<http://www.the-sra.org.uk/documents/pdfs/ethics03.pdf>

Stanko, E. 'The Day to Count: A Snapshot of the Impact of Domestic Violence in the UK', yn

[http://www.domesticviolencedata.org/5\\_research/count/count.htm#police](http://www.domesticviolencedata.org/5_research/count/count.htm#police)

Walby, S. (2004). *The real cost of domestic violence*. *Safe: The Domestic Abuse Quarterly*, 11, 15-18.

Walby, S. ac Allen, J. (2004), *Domestic violence, sexual assault and stalking: Findings from the British Crime Survey*. Y Swyddfa Gartref, Llundain: Adroddiad Ymchwil Y Swyddfa Gartref 276.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2002) Cefnogi Pobl yng Nghymru. Achredu Darparwr Cefnogaeth

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2004) Arfer da Cam-drin Domestig: Canllawiau i Ysgolion

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006a) Gwerthusiad Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2006b) Cost a Buddiannau'r Rhaglen Cefnogi Pobl - SJRRR 06/06 Medi 2006

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2007) Gwerthusiad Llwybr Cam-drin Domestig Cyn-geni

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008a) Gwasanaethau cynghori yn yr ysgol yng Nghymru: Strategaeth genedlaethol. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Llywodraeth Cynulliad Cymru (2008b) Y Trydydd Dimensiwn: Cynllun Strategol ar gyfer Cynllun Sector Gwirfoddol. Caerdydd: Llywodraeth Cynulliad Cymru.

Cymorth i Fenywod Cymru, (1999) 'Cam-drin Domestig: Gwneud Gwahaniaeth yn y Mileniwm', (Cymorth i Fenywod Cymru).

Cymorth i Fenywod Cymru (2001) Adroddiad Blynyddol

Cymorth i Fenywod Cymru (2002) Adroddiad Blynyddol

Cymorth i Fenywod Cymru (2003) Cynllun Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru 2003-2004

Cymorth i Fenywod Cymru (2003)

Cymorth i Fenywod Cymru (2004a) Cynllun Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru 2004-2005

Cymorth i Fenywod Cymru (2004b) Adroddiad Blynyddol 2003/04

Cymorth i Fenywod Cymru (2005) Cynllun Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru 2005-2006

Cymorth i Fenywod Cymru (2005) Adroddiad Blynyddol 2004/05

Cymorth i Fenywod Cymru (2006) Strategaeth Fusnes Cymorth i Fenywod Cymru 2006 – 2009

Cymorth i Fenywod Cymru (2006) Cynllun Gweithredol Cymorth i Fenywod Cymru 2006-2007

Cymorth i Fenywod Cymru (2006) Adroddiad Blynyddol 2005/06

Cymorth i Fenywod Cymru (2007a) Adroddiad Blynyddol 2006/07

Cymorth i Fenywod Cymru (2007b) Adroddiad Ystadegol Blynyddol 2006/07

Cymorth i Fenywod Cymru (2007c) Cyfansoddiad Cymorth i Fenywod Cymru (diwygiwyd Mawrth 2007)

Cymorth i Fenywod Cymru (2007d) Adroddiad ymgynghoriad a chyfathrebu (Awst 2007)

Cymorth i Fenywod Cymru (2008a) Adroddiad Ystadegol Blynyddol 2007/08

Cymorth i Fenywod Cymru (2008b) Map o'r Hyfforddiant achrededig Presennol: Cymwysterau Galwedigaethol a Chymwysterau Academaidd a enillwyd o fewn Cymorth i Fenywod Cymru

Cymorth i Fenywod Cymru (2008c) Ymchwiliad Pwyllgor Cymunedau a Diwylliant Llywodraeth Cynulliad Cenedlaethol Cymru i Gam-drin Domestig

Cymorth i Fenywod Cymru (2008d) Cytundeb Aelodaeth rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Grwpiau Lleol Cymorth i Fenywod yng Nghymru

Cymorth i Fenywod Cymru (2008e) Cytundeb Aelodaeth rhwng Cymorth i Fenywod Cymru a Grwpiau Lleol Cymorth i Fenywod yng Nghymru

[www.barnardos.org](http://www.barnardos.org)

**Atodiad I**

**Datganiad Dull**

# Datganiad Dull

---

## Trosolwg

Dyma brif gamau'r broses ymchwil:

- Archwilio'r dystiolaeth ddogfennol;
- Rhaglen o gyfweiliadau gyda:
  - gweithwyr Gymorth i Fenywod Cymru;
  - ymddiriedolwyr<sup>42</sup> Gymorth i Fenywod Cymru ac aelodau allanol o'r bwrdd;
  - swyddogion Llywodraeth Cynulliad Cymru;
  - sampl o randdeiliaid cenedlaethol.
- Astudiaethau achos wedi eu seilio ar grwpiau lleol;
- Arolwg ar y we;
- Dadansoddi ac adrodd meintiol ac ansoddol.

## Archwilio'r dystiolaeth ddogfennol

Roedd yr ymchwil eilaidd yn cynnwys:

- Adolygiad manwl o bolisi a darpariaeth gwasanaeth Cymru;
- Adolygiad o adroddiadau academiaidd;
- Dadansoddiad o adroddiadau blynyddol, adroddiadau monitro presennol, systemau rheoli gwybodaeth a data archwiliad;
- Astudiaeth o bolisi ac ymarfer mewn rhannau eraill o'r DU.

Mae'r tîm ymchwil yn ddiolchgar am y gefnogaeth a gafwyd gan Gymorth i Fenywod Cymru o ran cwrdd â'r gofynion am ddata, a chaniatáu amser yn eu swyddfeydd i aelod o'r tîm gael golwg ar y dogfennau a ddarparwyd ganddynt.

Mae'r tîm ymchwil yn ddiolchgar hefyd i Gymorth i Fenywod Cymru am ddarparu mynediad parhaol i ardal yr aelodau'n unig ar ei wefan gydol cyfnod y cytundeb.

Cynhwysir rhestr o ddogfennau allweddol yn yr Adran Cyfeiriadau yng nghefn yr adroddiad hwn.

---

<sup>42</sup> Cyfeirir atynt fel cynrychiolwyr o fewn y mudiad



## **Rhaglen gyfweiliadau**

Cynhaliwyd 9 o'r cyfweiliadau (o'r cyfanswm o 10) gyda gweithwyr craidd Cymorth i Fenywod Cymru yn eu swyddfeydd yng Nghaerdydd.

Cynhaliwyd cyfweiliadau hefyd gyda Gweithwyr Plant Rhanbarthol, naill ai yn swyddfeydd CRG neu yn y maes. Bu'r tîm ymchwil yn cyfweld cyfanswm o bum Gweithiwr Plant Rhanbarthol.

Cafwyd cyfweiliad hefyd gyda Rheolwr Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan yn swyddfa Gogledd Cymru.

Cafwyd dau gyfarfod gyda Chyfarwyddwr Cymorth i Fenywod Cymru yn agos at ddechrau'r prosiect a chyn iddi adael ei swydd. Gofidir nad oedd modd cynnal cyfarfod arall er mwyn trafod ac archwilio ein casgliadau ymhellach. Roedd ei habsenoldeb hefyd yn golygu bod mynediad wedi ei gyfyngu at wybodaeth y byddem wedi hoffi ei archwilio (e.e. cynlluniau dilyniant, gwybodaeth ynglŷn â materion adnoddau dynol a chysylltiadau diwydiannol).

Gwahoddwyd holl aelodau'r Bwrdd Gweithredol i gymryd rhan mewn cyfweiliadau wyneb yn wyneb. Cynhaliwyd y cyfweiliadau naill ai yn swyddfeydd y grwpiau lleol Cymorth i Fenywod neu yn eu cartrefi. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfweiliad (o'r rhestr o 12), yn cynnwys dau aelod allanol o'r bwrdd. Teimlai 2 aelod na allent ychwanegu gwerth i'r gwerthusiad gan eu bod yn aelodau cymharol newydd o'r Bwrdd.

Cynhaliwyd bron y cyfan o'r cyfweiliadau â rhanddeiliaid cenedlaethol wyneb yn wyneb yn swyddfeydd eu sefydliadau. Cynhaliwyd cyfanswm o 10 cyfweiliad gyda chynrychiolwyr:

- Yr Heddlu
- Tai Hafan
- Cefnogi Dioddefwyr
- Llamau
- Cymorth

- Y Gymdeithas Genedlaethol er Atal Creulondeb i Blant (NSPCC)
- BAWSO
- RELATE

Cynhaliwyd cyfweiliadau gyda swyddogion LICC naill ai yn swyddfeydd CRG neu yn un o adeiladau Llywodraeth Cynulliad Cymru. Cynhaliwyd cyfanswm o 4 cyfweiliad gyda swyddogion allweddol y llywodraeth yn cynrychioli'r Uned Diogelwch Cymunedol, cefnogi Pobl, ac Iechyd a Digartrefedd.

### **Astudiaethau achos**

Defnyddiwyd astudiaethau achos i ddangos a datblygu'r pwyntiau allweddol sy'n codi o gamau blaenorol y rhaglen ymchwil.

Ar y cychwyn, dewiswyd 8 grŵp lleol yn ofalus (ar sail ystod y gwasanaethau a ddarperir ganddynt, eu strwythur sefydliadol a'u cynrychiolaeth ddaearyddol), ac fe'u gwahoddwyd i fod yn destun astudiaeth achos. Trafodwyd y dewis gyda Llywodraeth Cynulliad Cymru a Chymorth i Fenywod Cymru er mwyn ceisio delio â phartneriaethau y barnwyd eu bod yn perfformio'n wael/yn dda, a chymysgedd o rai sydd wedi derbyn lefel uchel o gefnogaeth gan Gymorth i Fenywod Cymru a'r rhai sydd ond yn derbyn ychydig neu ddim o gwbl. Roedd un grŵp lleol Chymorth i Fenywod yn methu cymryd rhan oherwydd prinder staff; ac felly dewiswyd grŵp ychwanegol gyda nodweddion eithaf tebyg, a chytunodd hwnnw i gymryd rhan.

Er mwyn gwneud pob un o'r astudiaethau achos, trefnodd aelod o'r tîm ymchwil ymweliad â'r grŵp lleol Cymorth i Fenywod yn eu hardal ar amser cyfleus i bawb, a gofyn am gael siarad ag ystod o staff (yn ddelfrydol yn cynrychioli rolau gwahanol e.e. y Rheolwr, Gweithiwr Lloches a Gweithiwr Plant. Mewn tri achos, golygai cyfyngiadau amser bod rhai cyfweiliadau'n gorfod canolbwyntio ar rai pynciau yn unig, ond trwy'r astudiaeth achos cyfan cymerwyd gofal i sicrhau bod pob mater yn cael sylw priodol.

Roedd y cyfweiliadau â staff grwpiau lleol Cymorth i Fenywod yn ystod yr astudiaethau achos yn ategu'r wybodaeth am y grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a'r gefnogaeth a dderbyniant oddi wrth Gymorth i Fenywod Cymru. Casglwyd y wybodaeth hon trwy'r rhaglen gyfweiliadau gydag Aelodau'r Bwrdd Gweithredol.

Wedi'r ymweliad, trefnodd y tîm ymchwil gyfarfodydd gyda rhanddeiliaid lleol, er enghraifft, aelodau'r Tîm Cefnogi Pobl Lleol. Cynhaliwyd cyfweiliadau yn gyntaf dros y ffôn.

Cynhaliodd y tîm ymchwil gyfanswm o 31 cyfweiliad gyda gweithwyr grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a holwyd cynrychiolwyr chwech o sefydliadau partner.

Mewn tri achos, golygai cyfyngiadau amser a phrinder lle yn yr ystafell gyfarfod ein bod, yn hytrach na chynnal cyfweiliadau un i un, wedi cynnal tri grŵp trafod bychan gyda thri'n cymryd rhan (ar ddau achlysur) a phedwar o'r staff yn cymryd rhan o'r un grŵp lleol Cymorth i Fenywod (ar un achlysur). Mewn dau o'r tri achos, cysylltodd un atebwr o'r grŵp â'r tîm ymchwil wedi'r sesiwn er mwyn ymhelaethu ar eu safbwynt gan nad oedd yn teimlo y gallai siarad yn agored o fewn y grŵp.

Seiliwyd yr holl gyfweiliadau ar arweiniad pwnc oedd wedi ei hanner strwythuro, a geir yn Atodiad II. Defnyddiwyd technegau ymchwil ansoddol safonol er mwyn casglu gwybodaeth am farn a chanfyddiadau'r rhai a holwyd (gweler, e.e. Robson, 2000). Roedd yr egwyddorion canlynol yn amlwg yn y cyfweiliadau:

- Sicrhau bod y cyfan yn ddiennw; pwysleisiodd mwyafrif y rhai a holwyd eu bod yn dymuno i'w sylwadau gael eu trin felly;
- Dim ond defnyddio holwyr profiadol, oedd â'r sgiliau ac a oedd yn gyfarwydd iawn â materion allweddol;
- Plygu i amserlenni'r rhai a holwyd;
- Casglu data 'caled' yn drylwyr; annog y rhai a holwyd i gynnig hefyd ganfyddiadau, barn a dehongliadau 'meddalach';
- Cofnodi data mewn ffordd wedi ei strwythuro er mwyn caniatáu coladu, trawsgyfeirio, a defnyddio at bwrpas gwahanol;
- 'Triongli' data o ffynonellau gwahanol cyn dod i gasgliadau penodol (er enghraifft, cymharu sylwadau staff grwpiau lleol Cymorth i Fenywod gyda'r hyn a ddywed partneriaid lleol a'r Gweithwyr Plant Rhanbarthol).

## **Ymgynghori ar y We**

Cynhaliodd CRG hefyd ymgynghoriad gwefan er mwyn i safbwyntiau grwpiau lleol Cymorth i Fenywod a rhanddeiliaid allu rhoi mwy o oleuni i'r gwerthusiad.

Ysgrifennwyd ac anfonwyd e-bost at bob grŵp lleol Cymorth i Fenywod i roi gwybod iddynt am y gwerthusiad ac i'w cyfeirio at yr ymgynghoriad gwefan.

Gydol y rhaglen gyfweiliadau daliwyd ar y cyfle gennym i annog y rhai a holwyd i roi gwybod i'w cydweithwyr am yr ymgynghoriad gwefan.

Yr ydym hefyd yn ddiolchgar i Shelter Cymru, Cymorth ac awdurdodau lleol am hybu'r ymgynghoriad gwefan trwy eu rhwydweithiau. Heb eu cefnogaeth, ni fyddem wedi derbyn cymaint o atebion oddi wrth ystod mor eang o atebwyr.

Cynigiwyd yr ymgynghoriad ar dudalen gartref CRG ([www.crgresearch.co.uk](http://www.crgresearch.co.uk)). Cafodd yr ymgynghoriad gwefan 105 o atebion, yn cynnwys cynrychiolaeth o isafswm o 15 o grwpiau lleol<sup>43</sup>, gyda 29 ymateb oddi wrth weithwyr unigol. Dywedodd saith atebwr y byddai'n well ganddynt beidio dweud i ba grŵp yr oeddent yn gweithio.

Roedd y wefan yn ceisio gwybodaeth am y canlynol:

- Y Canfyddiadau am Gymorth i Fenywod Cymru;
- Darpariaeth gwybodaeth a systemau cyfathrebu;
- Darpariaeth hyfforddiant a datblygu;
- Cefnogaeth i grwpiau lleol;
- Rheolaeth Llinell Gymorth Cam-drin Domestig Cymru Gyfan;
- Rheolaeth Llochesau'r Deyrnas Unedig Ar-lein, Cymru;
- Gweithio'n allanol mewn partneriaethau lleol a chenedlaethol;
- Effaith ar agendau tai, cyfiawnder troseddol a hawliau plant;
- Priodoldeb strwythurau trefn lywodraethu a rheoli;
- Effeithiolrwydd cost a gwerth am arian;
- Cynaliadwyedd a datblygu i'r dyfodol.

### **Dadansoddi ac adrodd**

Rhoddodd y rhaglen waith gyfoeth o ddata sydd wedi mynd trwy broses drylwyr o ddadansoddi oedd yn golygu:

- Dosbarthu materion a ganfuwyd yn y data cychwynnol a gasglwyd o wahanol ffynonellau, yn seiliedig ar y cwestiynau ymchwil (a restrwyd ym Mhennod 1 yr adroddiad hwn);
- Ychwanegu sylwadau, ystyriaethau, ac ati;
- Defnyddio'r deunydd hwn i ymhelaethu ar sylwadau cyffredinol a damcaniaethol er mwyn eu profi ymhellach;
- Cyflwyno'r sylwadau cyffredinol a damcaniaethol hyn yn y maes i'w profi a'i ffurfio ar gyfer y gyfres nesaf o gasglu gwybodaeth;
- Sesiynau ar gyfer rhannu data yn fewnol er mwyn sicrhau cysondeb wrth ddehongli, adnabod themâu a thueddiadau newydd;

- Dwyn y deunydd hwn ynghyd er mwyn darparu drafftiau i'w trafod gyda'r Grŵp Llywio.

Gan ddefnyddio meddalwedd cyfrifiadurol arbenigol, dadansoddwyd y data meintiol a gasglwyd trwy'r ymgynghoriadau gwefan.

### **Cyfarwyddyd y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol**

Trwy'r cytundeb cyfan, yr ydym wedi cadw at Gyfarwyddyd Moesegol y Gymdeithas Ymchwil Gymdeithasol (2003). Mae'r tîm ymchwil wedi cadw mewn cof *“nad yw caniatâd gan y bobl dan sylw, na'r gofynion cyfreithiol i gymryd rhan yn rhyddhau'r holwr o'r cyfrifoldeb i amddiffyn pobl hyd y bo modd rhag effeithiau niweidiol posibl cymryd rhan”* (Y Gymdeithas Ymchwil Cymdeithasol, 2003, Adran 4.4.). Yn yr adroddiad hwn, nid yw'r safbwyntiau a gasglwyd fel rhan o'r broses ymchwil wedi eu priodoli i unrhyw unigolyn na sefydliad - ac ni ddylid ceisio eu priodoli o gwbl chwaith.